

# Adroddiad Comisiynwyr Plant Gogledd Iwerddon, Yr Alban, a Chymru i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Archwiliad o Chweched a Seithfed Adroddiad Cyfnodol Cyfunedig Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

**Tachwedd 2022**

NICCY
PROMOTING THE RIGHTS OF CHILDREN & YOUNG PEOPLE

CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Cynnwys


I. Datblygiadau newydd .... 4
1. COVID-19 .... 4
2. Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) .... 4
II. Hawliau o dan y Confensiwn a'r Protocolau Dewisol sy'n rhan ohono .... 6
A. Mesurau gweithredu cyffredinol (erth. 4, 42 a 44 (6)) .... 6
3. Deddfwriaeth .... 6
4. Dyrannu adnoddau .... 12
5. Casglu data .... 14
6. Lledaenu a chynyddu ymwybyddiaeth .... 15
B. Diffiniad o blentyn (erth. 1) .... 17
C. Egwyddorion cyffredinol (erthyglau 2, 3, 6 a 12) .... 17
7. Peidio â chamwahaniaethu .... 17
8. Lles pennaf y plentyn .... 20
9. Hawl i fywyd, i oroesi ac i ddatblygu .... 21
10. Parch at farn y plentyn .... 22
D. Rhyddid a hawliau sifil (erthyglau 7-8 ac 13-17) .... 27
E. Trais yn erbyn plant (erthyglau 19, 24(3), 28(2), 34, 37(a) a 39) .... 30
11. Artaith a dulliau eraill creulon, annynol neu ddiraddiol o drin neu gosbi pobl 30
12. Cosb gorfforol .... 32
13. Trais domestig a thrais ar sail rhywedd .... 32
14. Cam-drin Plant yn Rhywiol (CSA) .... 33
15. Diogelu ym myd addysg .... 36
F. Amgylchedd y teulu a gofal amgen (erthyglau 5, 9-11, 18(1)-(2), 20-21, 25, 27(4) 37
16. Diffyg gwasanaethau effeithiol cymorth i deuluoedd, ymyrraeth gynnar a gofal plant .... 37
17. Plant a amddifadir o amgylchedd teulu .... 39
G. Iechyd a lles sylfaenol (erthyglau 6, 18 (3), 24, 26, 27 (1)– (3) a 33) .... 41
18. Iechyd a gwasanaethau iechyd .... 41
19. Iechyd meddwl .... 43
20. Safon byw .... 48
21. Effaith y newid yn yr hinsawdd ar hawliau'r plentyn .... 57
H. Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol (erthyglau 28–31) 59
22. Addysg .... 59
23. Hawl i chwarae a gweithgareddau adloniadol .... 68
I. Mesurau amddiffyniad arbennig (erthyglau 22, 30, 32–33, 35–36, 37 (b)–(d) a 38–40) .... 70
24. Plant sy'n ceisio lloches, sy'n ffoaduriaid ac sy'n ymfudwyr .... 70
25. Gweinyddu cyfiawnder plant .... 75
J. Protocol Dewisol ar werthu plant, puteinio plant a phornograffi plant .... 81
K. Protocol Dewisol ar ymwneud plant â gwrthdaro arfog .... 83
26. Y Lluoedd Arfog a grwpiau arfog nad ydynt yn rhan o'r Wladwriaeth .... 83

**Cyflwyniad**

Adroddiad ar y cyd yw hwn gan Swyddfa Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon (NICCY), Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban (CYPCS), a Chomisiynydd Plant Cymru (CPC). Mae'n cyflwyno'r safbwyntiau a'r gwaith a wnaed gan y Comisiynwyr fel rhan o archwiliad Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn o Chweched a Seithfed adroddiad Cyfnodol cyfunedig y Deyrnas Unedig o dan Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Sefydliadau Hawliau Plant Annibynnol yw'r Comisiynwyr. Mae eu swyddogaethau statudol yn amrywio, ond mae pob un ohonynt yn troi o gwmpas hybu a diogelu hawliau plant, gan roi sylw penodol i CCUHP a chael eu llywio gan farn a phrofiadau plant. Mae setliadau datganoledig y tair awdurdodaeth yn wahanol[1]. O fewn yr adroddiad hwn, mae'r Comisiynwyr yn gwneud sylwadau ar faterion sy'n effeithio ar blant o fewn ardaloedd eu hawdurdod yn unig, hynny yw Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru[2]. Yn unol â'r ddeddfwriaeth a sefydlodd Gomisiynydd Plant Cymru, mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ar y materion hyn.

Cafodd Llywodraeth Gogledd Iwerddon ei hatal o fis Ionawr 2017 tan fis Ionawr 2020. Yn sgîl diffyg Gweithrediaeth achoswyd oedi wrth ddiwygio deddfwriaeth a pholisi mewn meysydd critigol, gan gynnwys rhai oedd yn effeithio ar blant. Sicrhaodd cytundeb 2020 *New Decade, New Approach* fod y sefydliadau datganoledig yn cael eu hadfer, ac mae'n cynnwys ymrwymiadau pwysig ynghylch plant o safbwynt deddfwriaeth a pholisi.[3] Yn dilyn etholiad ym mis Mai 2022, mae pryderon ynghylch effaith Brexit wedi arwain at gyfnod arall heb Weithrediaeth. Er i'r Gweinidogion gael caniatâd i aros yn eu swyddi am chwe mis fel bod rhai o swyddogaethau'r llywodraeth yn parhau, daeth y cyfnod hwnnw i ben ar 28 Hydref 2022, ac ar adeg ysgrifennu nid oes Gweinidogion na Gweithrediaeth yn eu lle. Mae hyn yn atal penderfyniadau gwleidyddol, datblygu deddfwriaeth a dyrannu cyllideb, ac mae'n llesteirio'n ddifrifol y gallu i gyflwyno gwasanaethau a mesurau cefnogi effeithiol i blant a'u teuluoedd[4].

---

[1] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 2022. *Introduction to devolution in the United Kingdom.* https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-8599/

[2] Mae 440,000 o blant yng Ngogledd Iwerddon, 1 filiwn yn yr Alban, a 630,000 yng Nghymru.

[3] Swyddfa Gogledd Iwerddon, 2020. *New Decade, New Approach.* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/856998/2020-01-08_a_new_decade__a_new_approach.pdf

[4] Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn symud ymlaen gyda'r *Northern Ireland Troubles (Legacy and Reconciliation) Bill*, sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer sicrhau bod bar

# I. Datblygiadau newydd

## 1. COVID-19

Bydd effeithiau pandemig COVID-19 yn para'n hir i bob plentyn. Mae wedi dod yn eglur y byddant yn effeithio'n anghymesur ar y plant hynny yr oedd eu hawliau eisoes yn wynebu'r risg uchaf, gan gynnwys plant sydd â phrofiad o ofal, plant o leiafrifoedd ethnig, plant ag anabledd, a phlant sy'n dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus. Mae'r pandemig bellach yn un o ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar wireddu hawliau plant, felly rydym wedi cynnwys effaith y pandemig ar draws yr adrannau eraill.

## 2. Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE)

Mae effaith Brexit yn achosi heriau sylweddol i hawliau plant ar draws y Deyrnas Unedig, yn arbennig yng **Ngogledd Iwerddon**.

Gan mai dyma'r unig awdurdodaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rhannu ffin â'r Undeb Ewropeaidd ar y tir, a chan fod hanes o wrthdaro treisgar yn gysylltiedig â'r ffin honno, mae Brexit wedi rhannu pobl yn fawr yng Ngogledd Iwerddon. Roedd Protocol Gogledd Iwerddon, y cytunwyd arno gan y Deyrnas Unedig a'r UE, yn canolbwyntio ar gyfyngu cymaint â phosibl ar "ffin galed" rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Buasai effaith hawliau dynol ffin galed rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon yn arwyddocaol o ran hawliau plant i iechyd, addysg, teulu, diogelwch, chwarae a hamdden, a chyfranogiad rhydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau.

O ganlyniad i'r Protocol mae Gogledd Iwerddon wedi parhau'n rhan o Undeb Tollau'r UE, ac i bob pwrpas, mae wedi creu ffin ym Môr Iwerydd. Er bod hyn wedi osgoi llawer o'r problemau posibl cysylltiedig â 'ffin galed' ar yr ynys, mae natur swm-sero gwleidyddiaeth yng Ngogledd Iwerddon wedi creu ymdeimlad ymhlith cymunedau Unoliaethwyr eu bod wedi'u gwahanu oddi wrth weddill y Deyrnas Unedig, a bod eu hunaniaeth wleidyddol wedi'i thanseilio. Mae pryderon ynghylch goblygiadau Brexit o ran Cytundeb Gwener y Groglith,[5] heddwch a sefydlogrwydd yn parhau, ac maent yn

---

imiwnedd rhag erlyniad mor isel nes ei fod i bob pwrpas yn caniatáu amnest am ladd mewn cysylltiad â'r gwrthdaro, ac yn annhebygol o ddarparu gwybodaeth ystyrlon i berthnasau'r rhai a laddwyd. Mae Pwyllgor Seneddol, y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol, wedi nodi ei fod yn pryderu nad yw'r Bil yn gydnaws â'r hawl i fywyd sy'n cael ei gwarantu gan Erthygl 2 o ECHR, ac mae wedi gofyn i'r Llywodraeth ailystyried ei dull gweithredu.

[5] Llofnodwyd Cytundeb Gwener y Groglith, rhan o broses heddwch Gogledd Iwerddon, ar 10 Ebrill 1998, gan ddod â gwrthdaro i ben yng Ngogledd Iwerddon, a sefydlu ei system lywodraethu

destun cyd-drafod parhaus ynghylch Protocol Gogledd Iwerddon. Ar yr un pryd mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn symud ymlaen gyda bil yn San Steffan sy'n ceisio mynd ati'n unochrog i drechu rhannau o'r protocol. Gan fod Protocol Gogledd Iwerddon yn cael ei aildrafod ar hyn o bryd, nid yw'r effaith lawn ar hawliau plant i'w gweld eto.[6]

Mae Brexit hefyd wedi golygu bod pob un o'r tair awdurdodaeth wedi colli mynediad at gyllid yr UE, a fu'n cyfrannu at brosiectau seilwaith a mentrau cymunedol. Yn ystod y cyfnod ers gadael yr UE hyd at 2024-25, amcangyfrifir y bydd Cymru'n wynebu diffyg o £772 miliwn yn ei chronfeydd o gymharu â'r sefyllfa petai'r Deyrnas Unedig wedi parhau'n un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd.[7] Yn yr Alban, amcangyfrifir bod y golled yn 2022-23 yn unig yn £151 miliwn.[8]

Rhaid i blant sy'n wladolion yr UE gyflwyno cais i'r Cynllun Preswylio Sefydlog i Ddinasyddion yr UE er mwyn parhau i fyw yn y Deyrnas Unedig. Yn y rhan fwyaf o achosion, gwnaed hynny gan rieni cyn dyddiad cau 30 Mehefin 2021, ond caiff bod yn blentyn ar y pryd ei ystyried yn 'sail resymol' ar gyfer methu â gwneud hynny. Yn achos plant sy'n wladolion yr UE ac sydd mewn gofal, dylai'r awdurdod lleol eu cefnogi i wneud cais am statws preswylydd sefydlog (a statws preswylydd cyn-sefydlog lle bo angen).[9]

**Argymhellion**

- Dylai newidiadau i Brotocol Gogledd Iwerddon gydymffurfio â rhwymedigaethau hawliau plant a chyfraith ryngwladol a sicrhau bod lles pennaf plant yn brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau.

- Dylai plant sydd mewn gofal gael eu cefnogi i wneud cais am statws preswylio sefydlog.

---

ddatganoledig. Bu hefyd yn fodd i roi sefydliadau yn eu lle rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon a rhwng Gweriniaeth Iwerddon a'r Deyrnas Unedig.

[6] Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon, 2022. *Annual Report of the NIHRC and the ECNI on the implementation of Protocol Article 2, 2021 – 2022*. https://www.equalityni.org/ECNI/media/ECNI/Publications/Delivering%20Equality/DMU/Annual-Report-Implementation-ProtocolArt2.pdf?ext=.pdf

[7] Llywodraeth Cymru, 2022. *Datganiad Ysgrifenedig: Colli Cyllid i Gymru o ganlyniad i drefniadau Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid i ddisodli cyllid UE.* https://gov.wales/written-statement-loss-funding-wales-result-uk-governments-arrangements-replacement-eu-funding

[8] Llywodraeth yr Alban, 2022. *EU replacement funding £151 million less in first year.* https://www.gov.scot/news/eu-replacement-funding-gbp-151-million-less-in-first-year

[9] Llywodraeth y DU, dim dyddiad. *Stay in the UK ('settled status'): step by step.* https://www.gov.uk/eusettledstatus

# II. Hawliau o dan y Confensiwn a'r Protocolau Dewisol sy'n rhan ohono

## A. Mesurau gweithredu cyffredinol (erth. 4, 42 a 44 (6))

### 3. Deddfwriaeth

**Ymgorffori CCUHP**

Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi nodi bwriad i ymgorffori CCUHP mewn cyfraith ddomestig. Mae ymgorffori yn gam pwysig i sicrhau bod plant yn gallu galw llywodraethau a chyrff cyhoeddus i gyfrif pan gaiff eu hawliau eu torri. Er bod modd i'r gweinyddiaethau datganoledig ymgorffori cytuniadau hawliau dynol rhyngwladol mewn perthynas â materion datganoledig, mae deddfwriaeth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn ofynnol i sicrhau bod CCUHP yn cael ei ymgorffori'n llawn, gan gynnwys mewn meysydd a neilltuwyd ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Ym mis Mawrth 2021, pasiwyd *United Nations Convention on the Rights of the Child (Incorporation) (Scotland) Bill* yn unfrydol gan **Senedd yr Alban**.[10] Fodd bynnag, nid yw'r bil hwnnw'n gyfraith eto. Yn dilyn atgyfeiriad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, dyfarnodd y Goruchel Lys fod 4 adran y tu allan i gymhwysedd Senedd yr Alban.[11] O ganlyniad, mae gofyn bod Senedd yr Alban yn ailystyried y bil. Dros flwyddyn wedi dyfarniad y Goruchel Lys, mae Llywodraeth yr Alban yn dal heb gyflwyno'r newidiadau sy'n ofynnol.

Mae **Llywodraeth yr Alban** hefyd wedi ymrwymo i ymgorffori'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd a Chymdeithasol, y Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod, y Confensiwn ar Ddileu pob math o Wahaniaethu Hiliol, a'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn eu cyfraith ddomestig.

Yng **Nghymru**, mae gan weinidogion ddyletswydd sylw dyledus i CCUHP o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[12] ond nid oes dyletswydd sylw

---

[10] United Nations Convention on the Rights of the Child (Incorporation) (Scotland) Bill. https://www.parliament.scot/bills-and-laws/bills/united-nations-convention-on-the-rights-of-the-child-incorporation-scotland-bill

[11] Roedd y rhain yn cyfeirio at amddiffyniadau yn erbyn gweithredoedd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrff cyhoeddus y Deyrnas Unedig yn yr Alban, y cafwyd eu bod yn mynd dros ben pwerau Senedd yr Alban.

[12] *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.* https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents

dyledus ar gyrff cyhoeddus. Nid yw sylw dyledus yn gyfystyr ag ymgorffori llawn, gan nad yw'n rhoi statws uwch na pholisi i'r Confensiwn.[13] Mae CPC wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod CCUHP yn cael ei ymgorffori'n llawn yng nghyfraith Cymru. Mae CPC wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod CCUHP yn cael ei ymgorffori'n llawn yng nghyfraith Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'u hymrwymiad i egwyddorion ymgorffori llawn, ac maent yn dweud y byddant yn archwilio opsiynau ar gyfer hyn fel rhan o'u gwaith ymchwil ar Gryfhau a Datblygu Cydraddoldeb a Hawliau Dynol,[14] ond nid yw hwn yn ymrwymiad cadarn, ac mae angen llawer mwy o waith cyn y caiff hyn ei wireddu i blant yng Nghymru.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, nid oes gofyniad cyfreithiol ar weinidogion y llywodraeth i roi sylw dyledus i CCUHP, ac ni welwyd symudiad amlwg i wneud CCUHP yn rhan o gyfraith ddomestig. Sefydlodd y cytundeb *New Decade, New Approach* Bwyllgor Ad-Hoc yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon i ddatblygu cynigion ynghylch creu Bil Hawliau.[15] Cyngor NICCY oedd y dylai ymgorffori CCUHP yn llawn gael ei gynnwys yn y Bil Hawliau hwn. Fodd bynnag, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Chwefror 2022, gan ddatgan ei fod wedi methu dod i gytundeb.

Er gwaethaf argymhellion cynharach gan y Pwyllgor,[16] ac yn ystod adolygiad Cyfnodol Cyffredinol diweddar y Deyrnas Unedig,[17] mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dal heb gadarnhau'r trydydd Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar weithdrefn gyfathrebu.

---

[13] Hoffman, S. ac O'Neill, S., 2018. *The Impact of Legal Integration of the UN Convention on the Rights of the Child in Wales.* https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/the_impact_of_legal_integration_of_the_un_convention_on_the_rights_of_the_child_in_wales_eng.pdf

[14] Gweinidog Cymru dros Gyfiawnder Cymdeithasol, 2022. *Llythyr at Gadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru.* https://business.senedd.wales/documents/s126976

[15] Swyddfa Gogledd Iwerddon, 2020. *New Decade, New Approach*, t. 28. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/856998/2020-01-08_a_new_decade__a_new_approach.pdf

[16] Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, 2016. *Sylwadau terfynol ar bumed adroddiad cyfnodol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon,* para. 88. https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%2fC%2fGBR%2fCO%2f5&Lang=en

[17] Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, 2022. Adroddiad drafft y Gweithgor ar yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol – Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. https://uprmeetings.ohchr.org/Sessions/41/UnitedKingdomofGreatBritainandNorthernIreland/Pages/default.aspx

**Argymhellion**

- Dylid ymgorffori CCUHP i ddeddfwriaeth ddomestig, gan fabwysiadu dull macsimaidd o ran cymhwyso a thraddodadwyedd.
  - Yn achos Gogledd Iwerddon trwy Fil Hawliau i Ogledd Iwerddon.
  - Dylai Llywodraeth Cymru symud ymlaen ar frys i archwilio ymgorffori llawn a darparu amserlen glir ar gyfer hynny.
  - Dylai Llywodraeth yr Alban symud ymlaen ar frys gyda'r newidiadau angenrheidiol i ganiatáu deddfu yn achos *United Nations Convention on the Rights of the Child (Incorporation) (Scotland) Bill*.
- Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig gadarnhau'r Trydydd Protocol Dewisol ar Weithdrefn Gyfathrebu.

**Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) a Gwerthusiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIE)**

Mae CRIAs yn hanfodol wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth sy'n effeithio ar blant. Mae tystiolaeth bod CRIAs yn aml yn cael eu llunio'n ôl-gyrchol, ac mewn llawer o achosion mae eu heffaith yn aneglur. Roedd hyn yn arbennig o wir yn ystod y pandemig pan oedd hyd yn oed CRIAs sylfaenol yn ddiffygiol, er bod hynny'n ymyrryd yn ddifrifol â hawliau dynol plant. Dylai plant fod yn rhan o bob agwedd ar wneud penderfyniadau, gan gynnwys cynhyrchu ac adolygu CRIAs.

Dylid cynnal CRIAs fel mater o drefn, a'u cyhoeddi ochr yn ochr ag unrhyw benderfyniadau deddfwriaeth a pholisi sy'n effeithio ar blant. Dylent fod ar gael cyn i'r cynigion fod yn destun ymgynghori cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â phlant, a chael eu hadolygu i gymryd ymatebion i'r ymgynghori hwnnw i ystyriaeth. Dylai llywodraethau gyfeirio at ddatganiad Rhwydwaith Ombwdsmyn Plant Ewrop (ENOC) ar CRIAs a fframwaith cyffredin ar gyfer eu defnyddio.[18]

Yng **Nghymru**, rhaid i Lywodraeth Cymru, o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, gwblhau CRIAs ar newidiadau deddfwriaethol a phenderfyniadau

[18] Rhwydwaith Ombwdsmyn Plant Ewrop (ENOC), 2020. *Position Statement on "Child Rights Impact Assessment" (CRIA).* http://enoc.eu/wp-content/uploads/2020/11/ENOC-2020-Position-Statement-on-CRIA-FV-1.pdf ; ENOC, 2020. *Common Framework of Reference on Child Rights Impact Assessments, A Guide on How to Carry Out CRIA.* http://enoc.eu/wp-content/uploads/2020/12/ENOC-Common-Framework-of-Reference-FV.pdf

polisi o dan Gynllun Hawliau Plant [19] a gyhoeddwyd, gan ddatgan sut y byddant yn cyflawni eu dyletswyddau. Maent hefyd wedi ymrwymo i gyhoeddi pob CRIA ar-lein.[20] Yn ystod y cyfnod clo cychwynnol yn 2020 yn arbennig, ni chyhoeddwyd CRIAs ar benderfyniadau polisi oedd yn digwydd yn gyflym. Ni chyhoeddwyd un CRIA o'r cyfnod hwn tan fis Mehefin 2022.

Diwygiwyd Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru yn 2021[21] ac mae'n cynnwys adnoddau ychwanegol a chanllawiau i swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch y defnydd o CRIAs. Mae hyn i'w groesawu. Ymhlith y mesurau eraill yn y Cynllun mae strategaeth i gynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP, a mecanwaith cwynion i blant.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, er nad oes gofyniad deddfwriaethol i gwblhau CRIAs, ceir enghreifftiau o adrannau'r llywodraeth yn ceisio cymhwyso proses CRIA wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth sy'n effeithio ar blant. Byddai swyddogion y Llywodraeth yn elwa o hyfforddiant i ddeall y broses yn well, ac mae NICCY wedi cynhyrchu hyfforddiant ar-lein trwy blatfform hyfforddi LInKS Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon.

Yn **yr Alban**, roedd CYPCS yn pryderu am y ffaith nad oedd CRIAs yn cael eu cynhyrchu'n brydlon yn ystod y pandemig, ac arweiniodd hynny at gomisiynu CRIA Annibynnol a amlygodd effeithiau'r pandemig ar blant.[22] Er bod Llywodraeth yr Alban yn awr yn cyhoeddi manylion CRIAs a gynhyrchwyd bob chwarter, mae CYPCS yn pryderu mai anaml y cânt eu paratoi na'u cyhoeddi'n ddigon cynnar wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth.[23]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae'r *Children's Services Cooperation Act (Northern Ireland) 2015* (CSCA) yn gofyn bod pob adran statudol ac asiantaeth yn cydweithredu â'i gilydd ac â sefydliadau eraill i wella llesiant plant ar wyth mesur, yn

[19] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents

[20] Llywodraeth Cymru, 2020. Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o'r enw Hawliau Plant yng Nghymru. https://business.senedd.wales/documents/s105741/Welsh%20Government%20response%20-%2023%20September%202020.pdf

[21] Llywodraeth Cymru, 2021. *Cynllun Hawliau Plant 2021.* https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-12/children%27s-rights-scheme-2021.pdf

[22] CYPCS, 2020. *Independent Children's Rights Impact Assessment.* https://www.cypcs.org.uk/coronavirus/independent-impact-assessment/

[23] Llywodraeth yr Alban, 2022. *Child rights and wellbeing impact assessments: list.* https://www.gov.scot/publications/child-rights-and-wellbeing-impact-assessments-list/

unol â CCUHP.[24] Er bod y Ddeddf yn gofyn bod Strategaeth Plant yn cael ei chyhoeddi erbyn 2016, oherwydd oedi wrth ei datblygu, ac yna yn absenoldeb Gweithrediaeth am dair blynedd, ni chyhoeddwyd y Strategaeth tan 2020. Rhyddhawyd Cynllun Cyflawni helaeth ar gyfer ymgynghori yn 2021, ond nid yw'r adroddiad statudol cyntaf ar y Strategaeth wedi cael ei gyhoeddi oherwydd y cyfnod cyfredol heb Weithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon.

**Argymhellion**

- Dylai CRIAs gael eu hyrwyddo ar draws pob lefel o lywodraeth, a darparu hyfforddiant i sicrhau bod gweision sifil yn gwybod ac yn deall sut mae cymhwyso dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant fel mater o drefn wrth lunio polisi.
- Dylai plant gael cyfleoedd ystyrlon i gyfranogi mewn penderfyniadau, a dylai eu barn gael ei hadlewyrchu mewn CRIAs.
- Dylai prosesau cadarn fod yn eu lle i alinio deddfwriaeth, polisïau ac ymarfer newydd a diwygiedig gyda CCUHP.
- Rhaid i'r *Children's Services Co-operation Act 2015* yng Ngogledd Iwerddon gael ei gweithredu'n effeithiol, gydag adroddiadau rheolaidd ar y cydweithredu rhwng cyrff a'r canlyniadau i blant.

**Y Ddeddf Hawliau Dynol**

Yn eu hymateb ar y cyd i ymgynghoriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Ddiwygio Hawliau Dynol,[25] nododd y Comisiynwyr fod y cynigion yn gwanhau'n sylweddol yr amddiffyniad i hawliau plant yn y Deyrnas Unedig. Mae ar blant yn y Deyrnas Unedig angen amddiffyniad Deddf Hawliau Dynol 1998, sy'n ymgorffori Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol (ECHR) yng nghyfraith y Deyrnas Unedig, ac ymgorffori CCUHP. Bu ECHR yn hanfodol bwysig o ran datblygu hawliau plant yn y Deyrnas Unedig, gan gynyddu gwybodaeth, dealltwriaeth a pharch at hawliau dynol. Ers yr ymgorffori, mae plant y torrwyd eu hawliau wedi gallu cael rhwymedi mewn llysoedd cenedlaethol, yn hytrach na gorfod troi at Lys Hawliau Dynol Ewrop. Mae ECHR yn rhan ganolog o bob un o'r tri setliad datganoli. Gwnaeth nifer sylweddol o wladwriaethau argymhellion ynghylch y potensial i wanychu'r amddiffyniadau

---

[24] Children's Services Co-operation Act (Northern Ireland) 2015. https://www.legislation.gov.uk/nia/2015/10/contents

[25] CYPCS, NICCY ac CPC, 2022. *Ymateb Ymgynghori: Diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol.* https://www.cypcs.org.uk/resources/human-rights-act-consultation-response/

hawliau dynol a gynigir gan y Ddeddf Hawliau Dynol yn ystod Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol diweddar y Deyrnas Unedig.[26]

**Argymhellion**

- Ni ddylid diddymu Deddf Hawliau Dynol 1998, dylid cefnu ar y Bil i greu Bil Hawliau, a dylid cynnal amddiffyniadau presennol i hawliau dynol.
- Os bydd y Bil i greu Bil Hawliau yn gwanhau amddiffyniadau hawliau dynol presennol, dylai'r llywodraethau datganoledig ddeddfu i gadw'r rhain i'r graddau uchaf sy'n bosibl.

**Annibyniaeth Comisiynwyr Plant**

Yng **Ngogledd Iwerddon**, sefydlwyd NICCY gan y ddeddfwriaeth yn sefydliad hawliau dynol annibynnol i blant. Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn ei bod yn cael ei hadolygu'n gyfnodol gan y Comisiynydd, a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r llywodraeth.[27] Mae dau adolygiad annibynnol o ddeddfwriaeth y Comisiynydd wedi nodi cyfyngiadau critigol sy'n rhwystro gallu'r Comisiynydd i ymarfer eu pwerau cyfreithiol yn llawn.

Cyflwynwyd argymhellion ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth NICCY i'r Weithrediaeth yn 2008, ac wedi hynny eto yn 2013, 2015 a 2019, fodd bynnag, ni chafwyd ymateb eto i unrhyw un o'r argymhellion hyn.

Yng **Nghymru**, ariannir CPC gan Lywodraeth Cymru, nid Senedd Cymru, er mai rhan o rôl y Comisiynydd yw galw'r llywodraeth i gyfrif. Mae Senedd Cymru wedi argymell bod y Comisiynydd yn cael ei ariannu gan y Senedd, er mwyn cydymffurfio ag Egwyddorion Paris.[28] Gwrthodwyd hyn mewn gohebiaeth gyda CPC ym mis Mai 2022, gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn datgan na fydd Llywodraeth Cymru yn archwilio trosglwyddo cyfrifoldeb i Senedd Cymru.[29]

---

[26] Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, 2022. Adroddiad drafft y Gweithgor ar yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol – Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. https://uprmeetings.ohchr.org/Sessions/41/UnitedKingdomofGreatBritainandNorthernIreland/Pages/default.aspx

[27] NICCY, 2015. Report to the First and Deputy First Ministers Under Article 24 of the Commissioner for Children and Young People (Northern Ireland) Order (2003). www.niccy.org/media/3307/niccy-article-24-report-april-2015.docx

[28] Senedd Cymru, 2020. *Hawliau Plant yng Nghymru: Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.* https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13405-r/cr-ld13405-r-e.pdf

[29] Gweinidog Cymru dros Gyflawnder Cymdeithasol, 26 Mai 2022. *Llythyr at Gadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru.* https://business.senedd.wales/documents/s126976/

Yn **yr Alban**, penodir y Comisiynydd gan y sofran, ar argymhelliad Senedd yr Alban, a'i ariannu gan Senedd yr Alban. Pan gaiff ei basio, bydd *The United Nations Convention on the Rights of the Child (Incorporation) Bill* yn cryfhau pwerau cyfreitha strategol CYPCS.[30]

**Argymhellion**

- Dylai fod gan bob Comisiynydd Plant y pwerau statudol a'r adnoddau i hybu a diogelu holl hawliau'r holl blant o fewn eu hawdurdodaeth.
- Dylid newid deddfwriaeth sylfaenu NICCY yn unol â'r argymhellion o adolygiadau Erthygl 24, i ddileu rhwystrau sy'n atal y Comisiynydd rhag cyflawni eu swyddogaethau deddfwriaethol yn llawn.[31]
- Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau a diogelu annibyniaeth CPC. Mae CPC yn dal i gredu mai'r ffordd orau o gyflawni hyn fyddai trosglwyddo cyfrifoldeb i Senedd Cymru.

## 4. Dyrannu adnoddau

Mae absenoldeb dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yng nghyswllt cyllidebu cenedlaethol a lleol yn golygu ei fod yn anodd canfod faint o gyllid sy'n cael ei ddyrannu i blant, yn arbennig pan fydd hynny'n ymwneud â chyllidebau lluosog, asesu effeithiolrwydd dyrannu adnoddau, gwneud cyrff yn atebol, neu werthuso'r effeithiau ar wasanaethau plant.

Rhaid i lywodraethau ddefnyddio dull seiliedig ar hawliau plant wrth gyllidebu, gan gynnwys CRIAs, a sicrhau tryloywder yn yr adnoddau a ddyrannir i wasanaethau plant. Dylai dogfennau cyllidebol fod yn glir ac ar gael i'r cyhoedd. Dylid defnyddio Gwerthusiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIEs) i benderfynu ar effeithiolrwydd polisïau, fel bod modd i lywodraethau a chyrff cyhoeddus eraill ddangos eu bod yn dyrannu cyllid ar gyfer gwasanaethau plant hyd eithaf yr adnoddau sydd ar gael.

Mae penderfyniadau gwariant a wneir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn effeithio ar gyllid y gweinyddiaethau datganoledig, ac yn sgîl hynny, ar eu gallu i ariannu

---

[30] Mae'r gyfraith a sefydlodd y Comisiynydd yn darparu amddiffyniad cyfreithiol penodol yn erbyn ymyrraeth neu gyfarwyddyd gan y Llywodraeth neu'r Senedd, yn ogystal ag amddiffyniadau rhag symud o'r swydd a mesurau eraill sy'n cyd-fynd ag Egwyddorion Paris er mwyn diogelu annibyniaeth.

[31] NICCY, 2015. Report to the First and Deputy First Ministers Under Article 24 of the Commissioner for Children and Young People (Northern Ireland) Order (2003). www.niccy.org/media/3307/niccy-article-24-report-april-2015.docx

gwasanaethau i blant. Mae gan y gweinyddiaethau datganoledig bwerau cyfyngedig (yn achos yr Alban a Chymru) neu ddim pwerau o gwbl (Gogledd Iwerddon) i godi trethi. Mae ansicrwydd ynghylch gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystod 2022 wedi cael effaith negyddol ar allu'r gweinyddiaethau datganoledig i roi eglurder neu sicrwydd ynghylch cyllido gwasanaethau cyhoeddus yn eu hawdurdodaethau. Ymrwymodd datganiad cyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd 2022, i uwchraddio budd-daliadau yn unol â chwyddiant (gweler adran 20), ac mae wedi rhoi sylw i ryw raddau i doriadau blaenorol termau real yn y cyllid i'r gweinyddiaethau datganoledig.

Yn **yr Alban**, mae *Equality and Fairer Scotland Budget Statement 2022-23* Senedd yr Alban yn ymgorffori elfennau o CRIA, ond mae'n llai eglur bod penderfyniadau cyllideb gan awdurdodau cyhoeddus yn cael eu llywio gan ystyriaeth o hawliau dynol plant.[32] Mae toriadau cyllideb mewn awdurdodau lleol – gan gynnwys cau llyfrgelloedd a chyfleusterau hamdden – yn cael effaith negyddol ar hawliau plant, ac mae contractio gwasanaethau cyhoeddus allan, gan gynnwys mewn ysgolion, yn arwain at atebolrwydd a thryloywder cyfyngedig.[33]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, ni chynhelir CRIAs ar gyllidebau, ac ni roddir dadansoddiad o'r gwariant ar blant. Er bod y *Children's Services Cooperation Act 2015* wedi darparu mecanwaith i awdurdodau plant 'grynhoi' cyllidebau er mwyn cefnogi cydweithredu, ni ddefnyddiwyd hynny eto.

Yng **Nghymru**, er bod cyllidebau diweddar Llywodraeth Cymru wedi cynnwys naratif ar sut mae penderfyniadau cyllido yn cael eu cysylltu â phlant trwy Asesiadau Effaith Integredig, nid ydynt yn mynd mor bell â dadansoddi'r effaith ar hawliau plant o dan CCUHP, a allai ddeillio o CRIA llawn.

**Argymhellion**

- Dylai dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, sy'n defnyddio cyllidebu cyfranogol a CRIAs cynhwysfawr, lywio penderfyniadau cyllidebol. Dylai fod mecanweithiau cyson ar gyfer mesur dyraniad a defnydd effeithiol o adnoddau yn rheolaidd ar gyfer hawliau plant mewn cyllidebau, gan gynnwys defnydd o CRIEs.

---

[32] Llywodraeth yr Alban, 2021. *Equality and Fairer Scotland Budget Statement 2022-23.* https://www.gov.scot/publications/equality-fairer-scotland-budget-statement-2022-23/documents/

[33] Audit Scotland, 2022. *Local government in Scotland: Overview 2022*. https://www.audit-scotland.gov.uk/uploads/docs/report/2022/nr_220525_local_government_overview.pdf; Audit Scotland, 2022. Briefing: *Tackling child poverty* https://www.audit-scotland.gov.uk/publications/briefing-tackling-child-poverty

- Dylai pob llywodraeth sicrhau bod gwasanaethau plant yn cael eu hariannu'n ddigonol yn arbennig yn achos plant a theuluoedd sydd mewn sefyllfaoedd bregus.

- Dylai adrannau ac asiantaethau yng Ngogledd Iwerddon ddefnyddio darpariaethau CSCA i grynhoi cyllidebau er mwyn cyfuno'r ddarpariaeth i blant.

## 5. Casglu data

Mae **pob awdurdodaeth** yn profi anghysondeb o ran casglu a lledaenu data. Achosodd pandemig COVID-19 amharu ar gasglu, dadansoddi a chyhoeddi data mewn rhai ardaloedd. Mae angen yn parhau am ddata a gyhoeddir sy'n galluogi dadelfennu a dadansoddi annibynnol, er mwyn deall bywydau plant ar draws y Deyrnas Unedig yn well.

Mae dyletswyddau adrodd data sector cyhoeddus **yr Alban** wedi datblygu mewn modd *ad hoc* dros flynyddoedd lawer. Mae'r modd yr adroddir ar ddata a'i fformat yn anghyson, ac yn cyfyngu ar allu cyrff cyhoeddus ac eraill i ddefnyddio data i lywio polisi. Adroddir data am blant ag anghenion cymorth ychwanegol ym myd addysg mewn modd sy'n golygu ei fod yn amhosibl amcangyfrif nifer y plant yn yr Alban sydd ag anabledd.[34]

Dylai Strategaeth Plant a Phobl Ifanc **Gogledd Iwerddon** fod yn fecanwaith allweddol ar gyfer datblygu set ddata gydlynus, gadarn sy'n mesur gweithrediad CCUHP. Fodd bynnag, fe'i cyhoeddwyd heb ddangosyddion, gan gyfeirio yn lle hynny at 'Agenda Datblygu Data', nad yw wedi cael ei symud ymlaen. Mae diffygion o ran data tryloyw, cadarn, wedi'i ddadelfennu ynghylch hawliau CCUHP, a bylchau mewn gwasanaethau plant, gan gynnwys mynediad at wasanaethau iechyd am resymau iechyd corff a meddwl[35] a darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

---

[34] Er enghraifft, cofnododd Cyfrifiad Disgyblion diweddaraf yr Alban mai 2.7% yn unig o blant oedd ag anabledd. Mae'r cyfrifiad hefyd yn adrodd am nifer y plant sydd â chyflyrau a fyddai'n bodloni diffiniad CCUHPA o anabledd, ond mewn modd sy'n golygu nad yw'n bosibl cyfrifo cyfanswm nifer y plant ag anabledd. Llywodraeth yr Alban, 2021. *Pupil Census Summary Statistics.* https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/statistics/2019/07/pupil-census-supplementary-tables/documents/pupil-census-2020-supplementary-statistics/pupil-census-2020-supplementary-statistics/govscot%3Adocument/Pupils%2Bin%2BScotland%2B2020%2BV2.xlsx

[35] NICCY, 2018. *A Rights Based Review of Mental Health Services and Support for Children and Young People: Still Waiting.* https://www.niccy.org/still-waiting-a-rights-based-review-of-mental-health-services-and-support-for-children-and-young-people-in-northern-ireland/ ; NICCY, 2020. *More Than a Number: A Rights Based Review of Health Waiting Lists in Northern Ireland.*

mewn ysgolion prif ffrwd, yn eithriadol broblematig.[36] Mae hynny'n golygu ei fod yn anodd canfod bylchau yn y ddarpariaeth ac effaith gwasanaethau presennol ar ganlyniadau.

Yng **Nghymru** mae diffyg data Cymru'n unig sydd wedi'i ddadelfennu mewn llawer o feysydd. Er enghraifft nid oes data cydlynus nac wedi'i ddadelfennu ar gyfer gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl plant y tu hwnt i wasanaethau arbenigol. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad *Llesiant Cymru*[37] oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ddata oedd ar gael ynghylch llesiant plant. Nid oes gan Gymru ddata cadarn ynghylch gwaharddiadau o'r ysgol, achosion o gam-drin plant yn rhywiol, a data pwysig arall yn ymwneud â dangosyddion canlyniadau a fyddai o gymorth wrth graffu ar gyflwyno gwasanaethau a'u diwygio.

**Argymhelliad**

- Dylid sefydlu system gynhwysfawr ar gyfer casglu a gwerthuso data hawliau plant ym mhob awdurdodaeth, gan gynnwys dangosyddion mesuradwy ar hawliau plant, er mwyn cynhyrchu data cymaradwy, ansawdd uchel, wedi'i ddadelfennu, ar bob lefel o lywodraeth.

## 6. Lledaenu a chynyddu ymwybyddiaeth

Yng **Nghymru**, mae hawliau dynol plant o dan CCUHP wedi'u gwreiddio yn Neddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. O fis Medi 2022, mae angen i'r holl staff sy'n ymwneud â chyflwyno'r cwricwlwm ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau dynol plant o dan CCUHP a CCUHPA.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, er bod mwy o ddealltwriaeth o berthnasedd hawliau plant ymhlith cyrff statudol, nid oes rhaglen hyfforddi systematig ar gyfer swyddogion a phobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant. I wneud iawn am hyn, ym mis Tachwedd 2022 rhyddhaodd NICCY fodiwlau hyfforddi ar-lein ar CRIA a hawliau plant sydd ar gael i swyddogion a gweithwyr proffesiynol trwy blatfform hyfforddiant LInKS Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon.

---

https://www.niccy.org/more-than-a-number-a-rights-based-review-of-health-waiting-lists-in-northern-ireland/

[36] NICCY, 2020. *'Too Little, Too Late,' A Rights Based Review of Special Educational Needs Provision in Mainstream Schools.* https://www.niccy.org/review-of-sen-provision-too-little-too-late/

[37] Llywodraeth Cymru, 2022. *Llesiant Cymru: llesiant plant a phobl ifanc*. https://gov.wales/wellbeing-wales-2022

Gan ragweld ymgorffori CCUHP yn **yr Alban**, mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i raglen o gynyddu ymwybyddiaeth er mwyn cynyddu dealltwriaeth o hawliau plant ymhlith llunwyr penderfyniadau, gweithwyr proffesiynol a'r gymuned ehangach. Rhaid i hyn gynnwys gwybodaeth am fecanweithiau atebolrwydd pan fydd pethau'n mynd o le.

**Argymhellion**

- Dylai pob llywodraeth ddatblygu rhaglen o gynyddu ymwybyddiaeth er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth cyffredinol o CCUHP a chytuniadau hawliau dynol eraill ymhlith plant a'u teuluoedd.

- Dylai fod gan yr holl bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant, gan gynnwys gweision sifil a staff mewn awdurdodau cyhoeddus eraill, ddealltwriaeth dda o hawliau dynol plant, yn arbennig CCUHP.

## B. Diffiniad o blentyn (erth. 1)

**Oed priodi**

Mae Deddf Priodas a Phartneriaeth Sifil (Oed Isaf) 2022 wedi codi oed priodi yng **Nghymru** i 18. Yng **Ngogledd Iwerddon**, cyhoeddodd y gweinidog cyllid ei fwriad i symud ymlaen gyda deddfwriaeth debyg, ond ni fu modd gwneud hynny eto oherwydd nad oes Gweithrediaeth. Nid yw Llywodraeth **yr Alban** wedi cyhoeddi unrhyw gynlluniau i symud ymlaen gyda deddfwriaeth eto.

**Argymhelliad**

- Rhaid i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban gyflwyno deddfwriaeth i godi oed priodi i 18.

**Diffiniad o blentyn**

Ym **mhob awdurdodaeth**, mae angen sicrhau bod pob plentyn yn cael yr amddiffyniadau y mae ganddynt hawl i'w derbyn o dan CCUHP nes eu bod yn 18 oed. Mae hynny'n galw am adolygiad cynhwysfawr o'r gyfraith, polisi ac ymarfer ar draws pob awdurdodaeth, yn ogystal â gweithredu gan bob llywodraeth i roi sylw i stereoteipiau negyddol ynghylch plant hŷn.

Yn **yr Alban,** diffiniad capasiti cyfreithiol o dan y gyfraith yw 16 oed.[38] Mae hyn wedi arwain at ddiffiniad anghyson o blentyn mewn rhannau eraill o gyfraith **yr Alban**, fel bod y systemau cyfiawnder troseddol a iechyd meddwl, ac i ryw raddau brosesau amddiffyn plant, yn trin plant fel oedolion yn 16 oed. Mae hynny'n golygu bod y plant hyn weithiau'n cael eu hamddifadu o'r hawliau a'r amddiffyniadau a roddir i blant o dan CCUHP.

**Argymhelliad**

- Dylid cydnabod pob plentyn o dan 18 fel plant yn yr holl ddeddfwriaeth berthnasol, gan gymryd i ystyriaeth y ffaith bod eu capasiti'n esblygu.

## C. Egwyddorion cyffredinol (erthyglau 2, 3, 6 a 12)

### 7. Peidio â chamwahaniaethu

Mae plant ar draws y tair awdurdodaeth yn parhau i wynebu dulliau lluosog o wahaniaethu yn eu herbyn, yn ogystal â chamwahaniaethu ar y sail eu bod yn blant.

---

[38] Age of Legal Capacity (Scotland) Act 1991. https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/50/enacted

Mae naratif cyhoeddus sy'n destun pryder yn parhau ynghylch plant hŷn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel y trafodwyd mewn Sylwadau Terfynol blaenorol.[39]

Yn 2012, cyhoeddodd Gweithrediaeth **Gogledd Iwerddon** y byddai'r *Age Discrimination (Goods, Facilities and Services) Bill* yn berthnasol i unigolion dros 16 oed yn unig. Er gwaethaf cŵyn lwyddiannus NICCY i Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon,[40] ni chyhoeddwyd newidiadau i hynny. Mae'r cytundeb *New Decade, New Approach* yn ymrwymo i gyflwyno'r bil, ond ni symudwyd ymlaen gyda'r ddeddfwriaeth ac nid oes eglurder ynghylch a fydd y cylch gorchwyl yn cynnwys plant o dan 16.[41]

Yng **Nghymru** cymerwyd camau cadarnhaol i roi sylw i anghydraddoldeb. Fodd bynnag, mae angen gweithredu ar frys i sicrhau bod hawl plant i beidio ag wynebu gwahaniaethu yn eu herbyn yn cael ei chynnal. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth i Gymru (2022),[42] sy'n ceisio hybu arferion gwrth-hiliol a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hil oddi mewn i Lywodraeth Cymru ac yn y gymdeithas ehangach yng Nghymru. Mae adroddiadau am hiliaeth ym myd addysg[43] yn parhau, ac mae'n rhaid ymdrin â hynny a'i fonitro wrth i'r cynllun gweithredu hwn gael ei roi ar waith. Cymru yw'r gyntaf o wledydd y Deyrnas Unedig i wneud hanes gorffennol gwladychol Prydain yn elfen orfodol o'r cwricwlwm, ac mae

---

[39] Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, 2016. *Concluding Observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland.* https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC/C/GBR/CO/5&Lang=En ; Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, 2008. *Concluding Observations on the third and fourth periodic reports of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland.* *https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%2fC%2fGBR%2fCO%2f4&Lang=en*

[40] NICCY, 2017. *GFS (Goods Facilities and Services Anti-discrimination Legislation)*. https://www.niccy.org/gfs-goods-facilities-and-services-anti-discrimination-legislation/

[41] Swyddfa Gogledd Iwerddon, 2020. *New Decade, New Approach*. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/856998/2020-01-08_a_new_decade__a_new_approach.pdf

[42] Llywodraeth Cymru, 2022. *Anti-racist Wales Action Plan*. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-06/anti-racist-wales-action-plan_0.pdf

[43] Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, 2020. *Hiliaeth yng Nghymru? Archwilio rhagfarn yn y system addysg yng Nghymru.* https://static1.squarespace.com/static/574451fe37013bd0515647ac/t/5ed659aa1288d943ddd2a784/1591106007132/Racism+in+Wales+-+Exploring+racism+the+Education+system+May+2020++%28F%29.pdf

adnoddau dysgu proffesiynol newydd i athrawon yn trafod amrywiaeth a gwrth-hiliaeth wedi cael eu lansio yng Nghymru eleni.[44]

Rhaid ymdrin â hiliaeth ac agweddau sy'n gwahaniaethu yn erbyn cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn arbennig yng nghyswllt darparu safleoedd.[45] Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynllun gweithredu LHDTC+[46], ond nid yw hynny eto wedi arwain at y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r camwahaniaethu mae plant LHDTC+ yn ei brofi. Mae plant ag anabledd yn dal i wynebu rhwystrau uniongyrchol a strwythurol i gydraddoldeb.[47] Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu tasglu hawliau anabledd sy'n ceisio cymryd camau i roi sylw i hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi addunedu i ymgorffori Confensiwn y CU ar Hawliau Pobl ag Anableddau yng nghyfraith Cymru[48], ond ni symudwyd ymlaen i wneud hynny eto.

Yn **yr Alban**, mae *Hate Crime and Public Order (Scotland) Act 2021* yn cryfhau'r amddiffyniadau yn erbyn troseddau atgasedd ar sail oed; anabledd; hil, lliw neu darddiad ethnig neu genedlaethol; crefydd neu gysylltiadau crefyddol canfyddedig; cyfeiriadedd rhywiol; hunaniaeth drawsrywiol; ac amrywiadau mewn nodweddion rhyw.[49] Mae plant Sipsiwn/Teithwyr[50] a phlant LHDT[51] yn sôn am brofi lefel anghymesur o fwlio ac aflonyddu. Mae ymchwil yn dangos bod gan athrawon lefel uchel o ymwybyddiaeth ynghylch hiliaeth mewn ysgolion, ond mae diffyg hyfforddiant

---

[44] Llywodraeth Cymru, 2022. *Lansio hyfforddiant gwrth-hiliol i gefnogi'r cwricwlwm newydd i Gymru.* https://gov.wales/anti-racist-training-launched-support-new-curriculum-wales

[45] Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru, 2022. *Darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr*. https://senedd.wales/media/lktpwocm/cr-ld15300-e.pdf

[46] Llywodraeth Cymru. 2021. *Ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu LHDTC+*. https://gov.wales/lgbtq-action-plan

[47] Llywodraeth Cymru, 2021*. Drws ar glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19*. https://gov.wales/locked-out-liberating-disabled-peoples-lives-and-rights-wales-beyond-COVID-19-html ; Llywodraeth Cymru, 2021. *Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Drws ar glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19.* https://gov.wales/written-statement-welsh-government-response-locked-out-liberating-disabled-peoples-lives-and-rights

[48] Llywodraeth Cymru, 2022. *Rhaglen Lywodraethu – diweddariad.* https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/programme-for-government-update-december-2021.pdf

[49] Hate Crime and Public Order (Scotland) Act 2021. Section 1. https://www.legislation.gov.uk/asp/2021/14/section/1

[50] Llywodraeth yr Alban, 2022. *Educational Outcomes for Gypsy/Traveller Children.* https://www.gov.scot/policies/gypsy-travellers/educational-outcomes-for-gypsytraveller-children/

[51] LGBT Youth Scotland, 2022. *Life in Scotland for LGBT Young People.* https://www.lgbtyouth.org.uk/media/2712/life-in-scotland-for-lgbt-young-people-2022-e-use.pdf

yn llesteirio'u gallu i roi sylw i hynny. Roedd y mwyafrif llethol yn cefnogi cynnwys gwrth-hiliaeth yn y cwricwlwm.[52]

Mae angen gwella'r dull o roi gwybod am ddigwyddiadau atgasedd, yn arbennig argaeledd data wedi'i ddadelfennu. Mae pryder nad yw troseddau atgasedd a brofir gan blant bob amser yn cael eu cydnabod felly, a bod angen i blant a'r oedolion sy'n eu cefnogi fod yn fwy ymwybodol o effaith troseddau atgasedd.[53] Mae angen gwell cydnabyddiaeth o bwysigrwydd atal troseddau atgasedd, gweithio gyda'r rhai sy'n eu cyflawni a chefnogi'r dioddefwyr, gan gynnwys mynediad at gyfiawnder a gwneud iawn yn effeithiol.

**Argymhellion**

- Dylid gwella'r gydnabyddiaeth, y cofnodi, yr adrodd a'r ymatebion i ddigwyddiadau atgasedd mewn perthynas â phlant ym mhob awdurdodaeth.
- Dylai pob llywodraeth gymryd camau pellach i atal ac ymdrin â phob math ar gamwahaniaethu.
- Dylai pob llywodraeth estyn amddiffyniadau cyfreithiol rhag camwahaniaethu ar sail oed i blant, a chymryd camau i wrthweithio stereoteipiau negyddol o blant mewn disgwrs cyhoeddus.
- Dylai pob plentyn dderbyn addysg amrywiol a chynhwysol, sy'n gwrthweithio camwahaniaethu.
- Dylid symud ymlaen yn ddi-oed gyda'r ddeddfwriaeth *Age Discrimination (Goods, Facilities and Services)* yng **Ngogledd Iwerddon**, a dylai gynnwys plant o bob oed.

## 8. Lles pennaf y plentyn

Ar draws pob awdurdodaeth, crisialir uchafiaeth lles pennaf y plentyn yn y gyfraith mewn perthynas â gofal am blant a'u hamddiffyn.[54] Fodd bynnag, mae ystod o feysydd polisi a chyfraith lle nad yw lles pennaf y plentyn yn cael ystyriaeth briodol,

---

[52] Show Racism the Red Card, 2021. *"Overwhelming please" for anti-racism education in Scotland.* https://www.theredcard.org/news/overwhelming-pleas-anti-racism-education-scotland

[53] Together, 2019. *State of Children's Rights Report*. https://www.togetherscotland.org.uk/media/1436/socrr_online_version.pdf

[54] Children (Scotland) Act 1995; The Children (Northern Ireland) Order 1995; Children Act 1989 (applies in Wales).

heb sôn am fod yn ystyriaeth flaenaf. Gan nad yw CCUHP wedi'i ymgorffori yn y gyfraith eto mewn unrhyw awdurdodaeth, hyd yn oed pan fydd y llys yn dyfarnu nad yw lles pennaf y plentyn wedi cael ei ystyried, nid oes modd gwneud iawn am hynny.[55]

**Argymhelliad**

- Dylai pob llywodraeth newid y ddeddfwriaeth yn ôl y galw i sicrhau bod lles pennaf plant yn brif ystyriaeth ym mhob mater sy'n effeithio arnyn nhw.

## 9. Hawl i fywyd, i oroesi ac i ddatblygu

**Cyfraddau marwoldeb plant**

Er na chadarnhawyd yn ddigonol effaith pandemig COVID-19 ar gyfraddau marwoldeb babanod a phlant, roedd data cyn y pandemig yn dangos cyfraddau marwoldeb is ymhlith babanod yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop.[56] Cyhoeddodd Llywodraeth **yr Alban** ym mis Medi 2022 y byddai'n cynnal adolygiad o gyfraddau marwolaeth newyddeni (o fewn pedair wythnos i'r enedigaeth) er mwyn ymchwilio i'r cyfraddau uwch na'r disgwyl yn ystod 2021-22. Disgwylir i'r adolygiad gyflwyno adroddiad yn 2023 i lywio polisi mamau a babanod.

Parhaodd cyfraddau marwoldeb plant yn ddigyfnewid gan mwyaf ar draws Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru rhwng 2019 a 2020.[57] Yng Nghymru, mae cyfradd marwoldeb plant wedi gostwng yn y tymor hir, ond bu'n gyson ar draws y chwe blynedd diwethaf o ddata sydd ar gael. Fodd bynnag, nid oes data mwy diweddar ar gael eto ar draws y tair awdurdodaeth, sy'n golygu nad yw effaith pandemig COVID-19 yn glir eto.

---

[55] R (on the application of SG and others) v Secretary of State for Work and Pensions. [2015] UKSC 16. https://files.monckton.com/wp-content/uploads/2015/03/R-on-the-application-of-SG-and-others-previously-JS-and-others-v-Secretary-of-State-for-Work-and-Pensions.pdf

[56] Yn 2019 roedd gan y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, gan gynnwys Portwgal, Iwerddon, Sweden a Slofenia, gyfradd o lai na thair marwolaeth fesul 1,000 o enedigaethau byw. Organisation for Economic Co-operation and Development (OECD), 2021. *Health at a Glance 2021: OECD Indicators. Infant, child and adolescent health*. https://read.oecd-ilibrary.org/social-issues-migration-health/health-at-a-glance-2021_37cd40eb-en#page1

[57] ONS, 2022. *Child mortality (death cohort) tables in England and Wales – 2020 dataset.* https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/datasets/childmortalitystatisticschildhoodinfantandperinatalchildhoodinfantandperinatalmortalityinenglandandwales

Mae cysylltiad rhwng cyfraddau marwoldeb uchel ymhlith babanod a phlant ac ardaloedd amddifadedd lluosog: yng **Nghymru** er enghraifft, mae gan yr ardal fwyaf difreintiedig gyfradd marwoldeb babanod o 6.8 marwolaeth fesul 1,000 o enedigaethau byw, o gymharu â 2.3 marwolaeth yn yr ardal leiaf difreintiedig.[58] Mae cyfradd marwoldeb plant 70% yn uwch ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, o gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru.[59]

**Gogledd Iwerddon** sydd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau plant y gellid eu hosgoi, ac fel yn yr Alban, mae'r cyfraddau'n sylweddol uwch nag yng Nghymru a Lloegr.[60] Yng Ngogledd Iwerddon mae oedi'n parhau wrth weithredu'r broses o adolygu marwolaethau plant a gyflwynwyd yn Adran 3(5) o'r *Safeguarding Board (Northern Ireland) Act 2011*.[61]

**Argymhellion**

- Dylai pob llywodraeth gymryd camau i roi sylw i'r cyfraddau marwoldeb cymharol uchel ymhlith babanod a phlant, gan gymryd i ystyriaeth ffactorau gwaelodol fel amddifadedd cymdeithasol ac economaidd ac ôl-effeithiau pandemig COVID-19.
- Yng Ngogledd Iwerddon, dylid sefydlu mecanwaith statudol, amlasiantaeth i sicrhau trosolwg ar farwolaethau plant, a hynny fel blaenoriaeth.

## 10. Parch at farn y plentyn

Mae angen gwelliant cyffredinol i sut caiff cyfranogiad plant ei hwyluso gan lunwyr penderfyniadau. Mae angen i bob llywodraeth gynhyrchu canllawiau cynhwysfawr a darparu hyfforddiant i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau o dan CCUHP. Mae angen i lunwyr penderfyniadau sicrhau bod ymgyngoriadau yn hygyrch ac yn hwylus i blant, a rhaid iddynt gefnogi cyfranogiad ystyrlon, gan gynnwys cyllid digonol. Rhaid rhoi sylw i sicrhau bod ystod eang o blant yn cael eu cefnogi i gyfranogi, gan gynnwys plant ag anabledd, plant y tu allan i'r

---

[58] ONS, 2022. *Child and infant mortality in England and Wales: 2020*. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/childhoodinfantandperinatalmortalityinenglandandwales/2020

[59] Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022. *Child Death Review Programme: Patterns and trends of child deaths in Wales, 2011-2020*. https://phw.nhs.wales/publications/publications1/patterns-and-trends-of-child-deaths-in-wales-2011-2020/

[60] ONS, 2021. *Avoidable mortality in the UK: 2019.* https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/causesofdeath/bulletins/avoidablemortalityinenglandandwales/2019#avoidable-mortality-in-children-and-young-people.

[61] Safeguarding Board Act (Northern Ireland) 2011. https://www.legislation.gov.uk/nia/2011/7/contents

system addysg brif ffrwd, plant sydd â phrofiad o ofal, a rhai mewn cymunedau difreintiedig.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, gwnaed peth cynnydd o ran datblygu strwythurau i brif-ffrydio lleisiau plant mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, bu'r cynnydd yn araf o ran datblygu menter Cyfranogi mewn Penderfyniadau yr Adran Addysg. Mae angen i hyn gael ei gadarnhau a'i gefnogi gan yr holl gyrff cyhoeddus perthnasol o fewn terfynau amser penodol a nodwyd, a chyflwyno strwythur ar gyfer cyfranogiad ystyrlon plant, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed.

Yng **Nghymru**, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi set o safonau cyfranogiad cenedlaethol ar sail CCUHP. Gall sefydliadau yng Nghymru weithio tuag at gyflawni nod barcud cyfranogiad cenedlaethol, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Ymhlith y sefydliadau sydd wedi cyflawni'r nod barcud mae gwasanaethau addysg awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Fodd bynnag, hoffai CPC weld cyfranogiad plant yn cael ei wreiddio yn nulliau gwaith Llywodraeth Cymru mewn modd mwy systematig.

Yn **yr Alban**, mae anghysondeb o ran gwireddu hawl plant i gyfranogi mewn penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth yr Alban, awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill. Er gwaethaf ymrwymiadau'r llywodraeth, mae diffyg tystiolaeth bod cyfranogiad yn cael effaith ar benderfyniadau.

**Argymhellion**

- Dylai plant a'u lles pennaf fod yn ganolog wrth wneud penderfyniadau, yn enwedig y plant hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf o beidio â chael eu clywed neu bod eu hawliau heb eu gwireddu.

- Dylid datblygu strwythurau, mecanweithiau, hyfforddiant ac arweiniad priodol i wella ymgysylltiad llywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus â phlant, gan gynnwys cynhyrchu fersiynau hygyrch, hwylus i blant o ddogfennau ymgynghori a datblygu mecanweithiau cwynion sy'n hwylus i blant.

**Cynrychiolaeth ddemocrataidd**

Yn **yr Alban** a **Chymru,** oed pleidleisio yw 16 yn achos Senedd yr Alban a Senedd Cymru ac etholiadau llywodraeth leol, ond mae'n dal yn 18 yng **Ngogledd**

**Iwerddon**.[62] Oed pleidleisio yn etholiadau cyffredinol y Deyrnas Unedig yw 18 o hyd. Ym marn y Comisiynwyr, dylid gostwng oed pleidleisio ym mhob etholiad i 16.

Sefydlodd **yr Alban** ei Senedd Ieuenctid yn 1999, ac mae'n cynnwys 166 o gynrychiolwyr 14-25 oed o bob rhan o'r Alban, rhai ohonynt yn cael eu hethol ar sail ddaearyddol, a rhai ohonynt yn cynrychioli sefydliadau plant a phobl ifanc.[63] Mae Cabinet yr Alban yn cwrdd yn ffurfiol ag Aelodau o Senedd Ieuenctid yr Alban a'r Senedd Plant[64] ddwywaith y flwyddyn.

Sefydlodd **Cymru** ei Senedd Ieuenctid[65] yn 2018. Mae 60 o aelodau, sy'n cyfateb i'r nifer yn Senedd Cymru. Yn ogystal â'r aelodau etholedig, mae Senedd Ieuenctid Cymru yn cynnwys aelodau a enwebwyd gan grwpiau trydydd sector sy'n cynrychioli grwpiau o blant a phobl ifanc a dangynrychiolir. Mae aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru yn cynnal sesiynau llawn a phwyllgorau, ac eleni maent wedi cynnal ymgynghoriad graddfa fawr ar brofiadau plant a phobl ifanc o iechyd meddwl gwael a chael mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae sefydlu Cynulliad Ieuenctid Gogledd Iwerddon gan Gomisiwn Cynulliad Gogledd Iwerddon yn gam amlwg ymlaen.[66] Mae llais a phrofiadau plant a phobl ifanc yn hanfodol ar gyfer penderfyniadau da i unrhyw gorff deddfu. Er mai dyma gamau sefydlu cychwynnol datblygiad y Cynulliad Ieuenctid, mae'n hanfodol bod aelodau'r Cynulliad Ieuenctid yn gallu herio a chwestiynu gwaith a phenderfyniadau'r llywodraeth, yn hytrach na bod yn gorff ymgynghori cyfleus yn unig ar gyfer adrannau ac asiantaethau statudol.

### Argymhellion

- Dylai plant gael addysg gynhwysfawr ar ddinasyddiaeth, a gallu pleidleisio o 16 oed.

---

[62] Scottish Elections (Reduction of Voting Age) Act 2015. https://www.legislation.gov.uk/asp/2015/7/contents/enacted; Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. https://www.legislation.gov.uk/anaw/2020/1/contents/enacted

[63] Senedd Ieuenctid yr Alban, 2020. *Our Story.* https://syp.org.uk/about-syp/our-story/

[64] Mae Senedd y Plant yn gyfle i blant iau o amrywiol gefndiroedd ar draws yr Alban rannu eu profiadau, eu meddyliau a'u teimladau, fel eu bod yn gallu dylanwadu ar newid cadarnhaol yn eu bywydau gartref, yn yr ysgol ac yn y gymuned.

[65] Mae'n cynnal trafodaethau sesiwn lawn a sesiynau pwyllgor; mae'n pennu cynllun gwaith; yn cynhyrchu adroddiadau; ac yn craffu ar Weinidogion y Llywodraeth. Senedd Ieuenctid Cymru, 2020. *Homepage*. https://www.youthparliament.wales/

[66] Northern Ireland Assembly, 2022. *Homepage*. https://niyouthassembly.org/

- Dylai seneddau, cynghorau a chyrff etholedig eraill sicrhau bod plant yn gallu cyfranogi'n weithredol yn eu prosesau gwneud penderfyniadau.

**Cyfranogiad mewn addysg a lleoliadau eraill**

Yn **yr Alban**, er gwaethaf ymrwymiadau'r llywodraeth, mae diffyg tystiolaeth bod cyfranogiad yn cael effaith ar benderfyniadau ym myd addysg. Mae'n aml yn arwynebol ac yn aneffeithiol ar lefel leol a chenedlaethol.[67] Gadewir plant yn ansicr a ydynt wedi gwneud gwahaniaeth o gwbl.[68] Mae angen i gyfranogiad mewn ysgolion symud y tu hwnt i fodel cyngor disgyblion i sicrhau cyfranogiad gweithredol ystod eang o blant mewn penderfyniadau.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, nid oes strwythur ffurfiol o hyd i ddatblygu rôl plant fel cyfranogwyr gweithredol ym myd addysg a hybu lleisiau disgyblion. Dylai'r Adran Addysg greu polisi i sicrhau cyfranogiad ystyrlon disgyblion mewn ysgolion, trwy ofyn bod ysgolion yn sefydlu mecanwaith effeithiol ar gyfer llais y disgybl. Dylid cefnogi hyn gan broses arolygu briodol.

Yng **Nghymru**, canfu arolwg 2018 o 6,392 o blant fod cyfranogiad cyfyngedig ym mhenderfyniadau ysgolion, gan gynnwys cynghorau ysgol,[69] er bod y fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi cyfranogiad plant yn eu hardal leol, o fewn yr ysgol a'r tu hwnt.[70]

Yng **Nghymru**, mae'n rhaid bod gan bob ysgol uwchradd gyngor ysgol, ond dywedodd plant â nodweddion gwarchodedig wrth CPC nad ydynt bob amser yn teimlo eu bod yn cael cyfle cyfartal i gyfranogi mewn penderfyniadau, ac y gallant deimlo bod eu cyngor ysgol yn llai perthnasol iddyn nhw. Mae gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys byrddau iechyd, fecanweithiau sefydledig ar gyfer cyfranogiad ieuenctid, ond mae angen mwy o arweiniad gan Lywodraeth Cymru i wreiddio'r arfer hwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

---

[67] Scottish Youth Parliament, 2021. *Education Reform Consultation response.* https://syp.org.uk/wp-content/uploads/2022/03/SYP-Response-to-Education-Reform-Consultation-November-2021.pdf

[68] CYPCS, 2021. *Education Reform Consultation*. https://www.cypcs.org.uk/resources/education-reform-consultation/

[69] CPC, 2018. *Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2018.* https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/10/Childrens-Rights-Survey.pdf

[70] Llywodraeth Cymru, 2018. *Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc.* https://gov.wales/children-and-young-peoples-national-participation-standards ; Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. https://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/contents

**Argymhelliad**

- Dylid sefydlu mecanweithiau i wreiddio'n gyson gyfranogiad ystyrlon plant yn y system addysg.

**Mynediad at Gymorth Cyfreithiol a chyngor cyfreithiol**

Nid yw cymorth cyfreithiol wedi'i ddatganoli yng **Nghymru.** Mae plant yn cael cymorth cyfreithiol yn awtomatig ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol yn y llys mewn achosion troseddol os ydyn nhw o dan 16 oed (neu o dan 18 oed ac mewn addysg amser llawn). Gall plant a theuluoedd hefyd gael mynediad at gymorth cyfreithiol os ydyn nhw'n destun achos gofal.[71] Mae cymorth cyfreithiol yng nghyswllt achosion cyfraith teulu preifat yn destun prawf modd a rhinwedd, oni bai bod tystiolaeth o gam-drin domestig. Mae Cafcass Cymru yn gweithio i hybu lles pennaf plant a'u profiadau yn y llysoedd teulu. Fodd bynnag, torrwyd yn ôl yn sylweddol ar Gymorth Cyfreithiol ers 2012, ac mae hynny wedi cyfyngu ar ei gwmpas a'i hygyrchedd i lawr, gan danseilio eu mynediad at gyfiawnder.

Yng **Ngogledd Iwerddon** mae plant sy'n destun achosion gofal a'u rhieni yn cael cymorth cyfreithiol yn awtomatig yn yr achosion hynny. Mae cymorth cyfreithiol yng nghyswllt achosion cyfraith teulu preifat yn destun prawf modd a rhinwedd, oni bai bod tystiolaeth o gam-drin domestig. Oherwydd bod cam cyntaf cymorth cyfreithiol (cyngor a chymorth) yn destun prawf modd, gall rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n ceisio cyngor cychwynnol ar faterion cyfreithiol yn ymwneud â phlentyn, nad ydynt yn bodloni'r prawf modd, symud ymlaen heb farn gyfreithiol gychwynnol mewn materion yn ymwneud â sefyllfaoedd addysgol ac achosion teulu. Efallai bydd cymorth cyfreithiol ar gael i blentyn yn y llys, ond yn dibynnu ar y mathau o achosion ac ai'r plentyn yw testun yr achos, gall hyn ddibynnu ar fodd ariannol y rhieni neu'r plentyn.

Yn **yr Alban**, mae cyfranogiad plant mewn penderfyniadau fel rhan o wrandawiadau cyfreithiol a gweinyddol yn galw am gefnogaeth briodol gan eiriolaeth annibynnol a chyngor cyfreithiol cymwys, a ariannir gan gymorth cyfreithiol, er mwyn sicrhau bod modd i'w barn gael ei chlywed. Er bod y *Children (Scotland) Act 2020* yn sicrhau bod barn plant yn cael eu cymryd i ystyriaeth mewn achosion cyfraith teulu yn unol â

---

[71] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, dim dyddiad. *Legal Aid.* https://www.gov.uk/legal-aid/eligibility

CCUHP,[72] mae angen hyfforddiant priodol i weithwyr proffesiynol a darparu cefnogaeth, cyngor ac eiriolaeth i blant i roi hyn ar waith yn llwyddiannus.[73]

**Argymhelliad**

- Dylai fod gan bob plentyn a theulu fynediad gwell at gyfiawnder, gan gynnwys cymorth cyfreithiol, yn arbennig wrth amddiffyn hawliau dynol plant.

## D. Rhyddid a hawliau sifil (erthyglau 7-8 ac 13-17)

**Hawl i brotestio ac ymgynnull yn heddychlon**

Nid yw hawl plant i brotestio ac ymgynnull yn heddychlon bob amser yn cael ei pharchu, ac mae plant wedi wynebu cosbau gan ysgolion am gymryd rhan mewn protestiadau amgylcheddol fel *Fridays for Future*.

Yn **yr Alban**, yn ystod COP26 yn Glasgow, bu plant yn gorymdeithio'n llwyddiannus,[74] ond roedd plant yn bresennol mewn digwyddiadau lle beirniadwyd yr heddlu am fod yn llawdrwm.[75] Roedd plant 16 ac 17 oed yn wynebu risg yn arbennig oherwydd nad yw cyfraith droseddol yr Alban yn eu cydnabod fel plant.

Yng **Nghymru**, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyflwyno Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022,[76] sy'n gosod cyfyngiadau ar orymdeithiau protest a mathau eraill o brotestiadau. Mae hwn yn gynsail sy'n destun pryder o safbwynt hawl plant i ymgynnull yn heddychlon.

Yn ystod pandemig COVID-19, soniodd plant agored i niwed, yn arbennig rhai oedd wedi ymddieithrio o'u teuluoedd ac yn byw'n annibynnol, am orfod cydbwyso cydymffurfio â chyfyngiadau'r cyfnodau clo a goblygiadau ynysu gorfodol o ran eu llesiant meddyliol. Cyn y swigod cymdeithasol, gwnaeth rhai plant benderfyniadau

---

[72] Children (Scotland) Act 2020. https://www.legislation.gov.uk/asp/2020/16/contents/enacted

[73] CYPCS, 2019. *Evidence Submission: Justice Committee Call for Views on the Children (Scotland) Bill*. https://www.cypcs.org.uk/get-help/policy-and-law/our-policy-work/evidence-submission-justice-committee-call-for-views-on-the-children-scotland-bill/

[74] Amnesty International, 2021. *Amnesty Briefing on the policing of protest at COP26.* https://www.amnesty.org.uk/files/2022-08/Policing%20of%20Cop26.pdf?VersionId=El9_3tjHeHQ9fKRdTe5tr6JsMbalkE0l

[75] NetPol, 2021. *Respect or Repression? An independent report of the COP26 Conference in Glasgow.* https://netpol.org/2021/12/16/respect-or-repression-an-independent-report-of-the-cop26-conference-in-glasgow/

[76] Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022. https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2022/32/contents

bwriadol i dorri rheoliadau COVID-19 er mwyn cyfyngu ar y dirywiad yn eu hiechyd meddwl eu hunain neu eiddo eu cyfoedion. Er bod yr heddlu wedi cael cyfarwyddyd i ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar les yn bennaf yn y sefyllfaoedd hyn, yng **Ngogledd Iwerddon** cyflwynwyd cyfanswm o 585 o Hysbysiadau Datrysiadau Cymunedol i blant o dan 18 oed ym mlwyddyn gyntaf yr ymateb i bandemig COVID-19. Yn **yr Alban**, nid oedd plant 16 ac 17 oed yn cael eu cydnabod fel plant gan ddeddfwriaeth frys y Deyrnas Unedig, oedd yn golygu y gallent wynebu erlyniadau troseddol. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, rhoddwyd 476 o hysbysiadau cosb benodol i bobl ifanc 16 ac 17 oed.[77]

Ymhellach, yn arbennig wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, effeithiwyd yn anghymesur ar blant gan newidiadau i gyfyngiadau oedd yn methu cymryd i ystyriaeth wahanol ddulliau cymdeithasu plant. Yn arbennig, daliwyd i gyfyngu ar gynulliadau anffurfiol plant hyd yn oed pan oedd yr ysgolion wedi ailagor a gweithgareddau ffurfiol (fel chwaraeon) wedi ailgychwyn.[78]

Er gwaethaf argymhellion y Pwyllgor,[79] mae dyfeisiau mosgito yn dal i gael eu defnyddio i atal plant rhag ymgynnull yn gyhoeddus.[80] Mae'r dyfeisiau hyn yn cael effaith anghymesur ar grwpiau penodol o blant, gan gynnwys plant ifanc iawn (na fydd eu rhieni o reidrwydd yn ymwybodol o'r ddyfais) a phlant awtistig.

**Argymhellion**

- Sicrhau nad yw deddfwriaeth ac arfer plismona yn cyfyngu ar hawl plant i ymgynnull yn heddychlon.
- Deddfu i wahardd gwerthu a defnyddio dyfeisiau mosgito ar draws pob awdurdodaeth.

---

[77] Gorton et al, 2022. *Police use of COVID-19 Fixed Penalty Notices in Scotland: Trends in enforcement from March 2020 to May 2021.* https://www.scadr.ac.uk/sites/default/files/Fourth%20FPN%20Data%20report%20FINAL%20-%20Aug%202022.pdf

[78] Llywodraeth yr Alban, dim dyddiad. *Coronavirus (COVID-19): strategic approach.* https://www.gov.scot/collections/coronavirus-COVID-19-strategic-approach/

[79] CYPCS, 2020. *Mosquito devices*. https://cypcs.org.uk/positions/mosquito-devices/#what-should-the-scottish-government-do-to-outlaw-mosquito-device

[80] Dyfeisiau electronig 'gwrth-lercian' sy'n cynhyrchu sŵn 'suo' uchel ar amledd na all neb ond plant ei glywed.

**Amddiffyniad rhag niwed yn yr amgylchedd digidol**

Mae mynediad diogel i’r amgylchedd digidol yn hanfodol. Mae’r Bil Diogelwch Ar-lein, sy’n cael ei ystyried ar hyn o bryd yn Senedd y Deyrnas Unedig, yn ceisio rhoi sylw i’r angen hirsefydlog am ddyletswydd gofal statudol i gwmnïau ar-lein amddiffyn plant rhag niwed. Fodd bynnag, bu gohirio droeon ar gynnydd y bil, ac mae amheuon yn parhau y gallai’r mesurau gael eu gwanhau, fel bod amddiffyniadau hanfodol yn dal heb eu rhoi yn eu lle. Rhaid i’r bil sicrhau bod cyfrifoldeb cyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaethau ar-lein i gadw defnyddwyr yn ddiogel, i ddileu deunydd niweidiol, ac i orfodi sancsiynau os bydd cwmnïau’n methu yn y rhwymedigaethau hyn.

Dylai llywodraethau roi argymhellion ar waith o ddatganiad ENOC ar Hawliau Plant yn yr Amgylchedd Digidol: cynnwys plant fel cyfranogwyr gweithredol, sicrhau mynediad at yr amgylchedd digidol ac amddiffyn plant rhag niwed trwy hybu hawliau plant ar-lein.[81]

Rhaid i **bob awdurdodaeth** ddarparu a diweddaru’n barhaus ddeunyddiau addysgol ynghylch preifatrwydd ar-lein ac amddiffyn plant.

Yng **Nghymru**, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu adnoddau *Cadw’n Ddiogel Ar-lein*[82] i blant, yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ar faterion fel cynnwys amhriodol neu dramgwyddus, casineb ar-lein, seiberfwlio a pherthnasoedd iach ar-lein.

Cyhoeddwyd Strategaeth Diogelwch Ar-lein a Chynllun Gweithredu yng **Ngogledd Iwerddon** yn 2021.

Yn **yr Alban**, cynhaliwyd ymgyrchoedd diogelwch ar-lein a diweddariadau i Ganllawiau Amddiffyn Plant trosfwaol, ond nid yw’r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Ddiogelwch y Rhyngrwyd i Blant a Phobl Ifanc wedi’i ddiweddaru ers 2017.[83]

Nodwn nad yw’r Blaid Wladol wedi gallu darparu data mewn ymateb i Q38b yn y rhestr o faterion[84] ar gyfer pob awdurdodaeth, dim ond ar gyfer troseddau a

---

[81] ENOC, 2019. *Children’s Rights in the Digital Environment.* https://enoc.eu/what-we-do/annual-advocacy-areas/enoc-2019-annual-focus-childrens-rights-in-the-digital-environment/

[82] Llywodraeth Cymru, dim dyddiad. *Cadw’n ddiogel ar-lein.* https://hwb.gov.wales/zones/keeping-safe-online

[83] Llywodraeth yr Alban, 2017. *National Action Plan on Internet Safety for Children and Young People*. https://www.gov.scot/publications/national-action-plan-internet-safety-children-young-people/documents/

[84] Achosion cysylltiedig â thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu lle torrwyd hawliau plant a nifer yr achosion o’r fath yr ymchwiliwyd iddynt a’u herlyn

gofnodwyd yng **Ngogledd Iwerddon**. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod nifer y troseddau hyn wedi cynyddu 257% ers 2016-17, o 236 i 842 yn 2020-21.[85]

**Argymhellion**

- Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig roi blaenoriaeth i Basio'r Bil ar Ddiogelwch Ar-lein, gan sicrhau bod plant yn cael amddiffyniad cynhwysfawr rhag niwed ar-lein.

- Dylai plant fod yn gyfranogwyr gweithredol mewn gwaith ar gynyddu amddiffyniad rhag niwed yn yr amgylchedd digidol.

## E. Trais yn erbyn plant (erthyglau 19, 24(3), 28(2), 34, 37(a) a 39)

### 11. Artaith a dulliau eraill creulon, annynol neu ddiraddiol o drin neu gosbi pobl

**Ataliaeth a gosod o'r neilltu ym mhob lleoliad**

Mae ataliaeth, gosod o'r neilltu ac arferion cyfyngol eraill yn cael eu defnyddio ar draws ystod o leoliadau, gan gynnwys ysgolion, cartrefi plant diogel a heb eu diogelu, cyfleusterau iechyd meddwl a lleoliadau cyfiawnder troseddol. Mae tystiolaeth eu bod yn cael eu defnyddio i ddisgyblu neu mewn ymateb i ddigwyddiadau lefel isel fel risgiau i eiddo yn hytrach na phobl, neu beidio â chydymffurfio â rheolau'r ysgol fel y wisg swyddogol.[86] Dylid troi at arferion cyfyngol pan fo popeth arall wedi methu, lle bo angen er mwyn amddiffyn plentyn neu rywun arall rhag niwed difrifol. Yn absenoldeb cofnodion gorfodol, mae'r data a gesglir yn amrywio, ac mae'n anodd canfod i ba raddau mae arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio, er bod arwyddion o ddefnydd eang.

---

[85] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2022. *Data annex to the UK's Response to the UN Committee's List of Issues on the Rights of the Child.* https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=INT%2fCRC%2fADR%2fGBR%2f49033&Lang=en

[86] CYPCS, 2018. *No Safe Place: Restraint and Seclusion in Scotland's Schools.* https://www.cypcs.org.uk/resources/no-safe-place/ and evidence from enquiries ; Who Cares? Scotland, 2019. *Children (Equal Protection from Assault) (Scotland) Bill: Supplementary Evidence on Restraint Framework.* https://www.whocaresscotland.org/wp-content/uploads/2022/06/WCS-Evidence-for-EHRiC-on-Equal-Protection-from-Assault.pdf ; evidence from NICCY's Legal and Investigations casework.

Mae plant anabl yn arbennig o agored i wynebu arferion o'r fath.[87] Mae llawer o blant wedi gorfod brwydro i sicrhau cyfiawnder oherwydd na fu'r heddlu na'r awdurdodau amddiffyn plant yn defnyddio'u hanesion a'u cyfweliadau oherwydd eu hoed a/neu eu hanableddau.[88] Mae angen sicrhau agweddau mwy cadarnhaol a chymesur, gan gynnwys ymyriadau therapiwtig a chefnogaeth ddigonol, mewn lleoliadau prif ffrwd.[89]

Yng **Nghymru**, cyhoeddwyd canllawiau plentyn-ganolog[90], ond mae enghreifftiau clir o beidio â'u dilyn mewn lleoliadau caeedig. Rhaid i Lywodraeth Cymru, arolygiaethau a rheoleiddwyr wneud mwy i sicrhau bod ymarfer mewn lleoliadau caeedig yn cael ei wella, a bod hynny'n cael ei gynnal, er mwyn bod yn hyderus bod plant mor ddiogel ag y gallant fod.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, croesawir ymrwymiad yr Adran Addysg i gyflwyno canllawiau statudol ar y defnydd o arferion cyfyngol a chefnogi mewn lleoliadau, o dan Erthygl 18 1(c) o'r *Education and Libraries (Northern Ireland) Order 2003*. Rhaid mynd ati ar frys i weithredoli'r canllawiau er mwyn cynnwys cofnodi ac adrodd gorfodol ar bob achos o ddefnyddio arferion cyfyngol gan leoliadau addysgol.

Yn **yr Alban**, mae polisïau ac arferion awdurdodau lleol yn anghyson, gan fethu â chydnabod hawliau plant. Mae angen safonau deddfwriaethol cenedlaethol a seiliwyd ar hawliau dynol, canllawiau perthnasol, a monitro ar arferion cyfyngol ar draws pob lleoliad.

**Argymhellion**

- Dylid datblygu canllawiau statudol seiliedig ar hawliau dynol, sy'n cwmpasu pob lleoliad, gan gynnwys addysg, iechyd (a iechyd meddwl), gofal a chyfiawnder.
- Dylai defnydd o ataliaeth, gosod o'r neilltu ac arferion cyfyngol fod yn destun cofnodi a monitro gorfodol.

---

[87] CYPCS, 2018. *No Safe Place: Restraint and Seclusion in Scotland's Schools,* t.18. https://www.cypcs.org.uk/resources/no-safe-place/

[88] Ibid., t.12.

[89] NICCY, 2020. *'Too Little, Too Late,' A Rights Based Review of Special Educational Needs Provision in Mainstream Schools*. https://www.niccy.org/review-of-sen-provision-too-little-too-late/

[90] Llywodraeth Cymru, 2021. *Reducing Restrictive Practices Framework*. https://gov.wales/reducing-restrictive-practices-framework

## 12. Cosb gorfforol

Ers 2016,[91] sicrhawyd diwygio cyfreithiol yn **yr Alban** trwy'r *Children (Equal Protection from Assault) (Scotland) Act 2019*[92] ac yng **Nghymru** trwy Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020.[93] Rhaid i'r ddwy lywodraeth roi blaenoriaeth i weithredu cryf a chefnogaeth sy'n canolbwyntio ar rianta cadarnhaol.

Yng **Ngogledd Iwerddon** mae amddiffyniad cosbedigaeth resymol am ymosod ar blant yn dal i fodoli yn y gyfraith. [94]

**Argymhellion**

- Dylid cynhyrchu rhaglen gynhwysfawr i gynyddu ymwybyddiaeth o rianta cadarnhaol a'i hybu, gan gynnwys gwybodaeth a chymorth i fagu plant, ym mhob awdurdodaeth.
- Dylai Llywodraeth Gogledd Iwerddon ymrwymo i ddileu amddiffyniad "cosbedigaeth resymol" o'r ddeddfwriaeth yn ddi-oed.

## 13. Trais domestig a thrais ar sail rhywedd

Yng **Nghymru**, mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi lansio Strategaeth o'r newydd i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched, gyda ffocws ar wella'r

---

[91] Pan fu'r Pwyllgor yn argymell ddiwethaf wahardd cosb gorfforol ym mhob lleoliad ar draws y Deyrnas Unedig. Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, 2016. *Concluding Observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland.* https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC/C/GBR/CO/5&Lang=En

[92] Children (Equal Protection from Assault) (Scotland) Act 2019. https://www.legislation.gov.uk/asp/2019/16/enacted. Daeth i rym ar 7 Tachwedd, 2020.

[93] Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. https://www.legislation.gov.uk/anaw/2020/3/contents/enacted. Daeth i rym ym mis Mawrth 2022.

[94] Diwygiwyd y gyfraith ynghylch cosb gorfforol i gyfyngu ar amddiffyniad "cosb resymol" neu "gosbedigaeth resymol" yn *Law Reform (Miscellaneous Provisions) (Northern Ireland) Order 2006.* Fodd bynnag, mae'r amddiffyniad yn dal ar gael i rieni o dan rai amgylchiadau yng nghyswllt ymosodiad cyffredin; Law Reform (Miscellaneous Provisions) (Northern Ireland) Order 2006. https://www.legislation.gov.uk/nisi/2006/1945/contents

ymateb cenedlaethol i gefnogi plant sy'n ddioddefwyr a'r rhai sy'n arddangos ymddygiad niweidiol, gyda gwasanaethau priodol.[95]

Nod y *Domestic Abuse and Civil Proceedings (**Northern Ireland**) Act 2021*[96] oedd adlewyrchu'n well ddeinameg cam-drin domestig a'i effaith ar blant, ond nid oedd yn rhoi sylw priodol i'r angen am ddarparu amddiffyniad llawn i bawb o dan 18 oed, gyda rhai plant, yn lle hynny, yn cael eu hamddiffyn trwy ddeddfwriaeth a ddaeth i rym yn y 1970au. Dylid adolygu hyn ar frys.[97]

Mae'r *Domestic Abuse (**Scotland**) Act 2018* yn adlewyrchu dealltwriaeth o gam-drin domestig fel llwybr ymddygiad. Mae'r Ddeddf yn cydnabod effaith cam-drin domestig ar blant trwy gyflwyno ffactorau gwaethygol statudol lle mae cam-drin domestig yn effeithio ar blant, fodd bynnag, nid oes trosedd benodol mewn perthynas â phlant.

**Argymhelliad**

- Dylai plant sy'n profi cam-drin domestig gael amddiffyniad cyfreithiol cynhwysfawr a mynediad at gefnogaeth briodol.

## 14. Cam-drin Plant yn Rhywiol (CSA)

Cyhoeddodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ei adroddiad terfynol ym mis Hydref 2022.[98] Bu'r ymchwiliad yn sôn am raddfa aruthrol yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol na hysbyswyd yn eu cylch yng Nghymru a Lloegr, ac amlygodd themâu cyffredin oedd yn codi ar draws ei waith, megis: sefydliadau yn rhoi blaenoriaeth i'w henw da yn hytrach nag amddiffyn plant; diffyg cyffredinol o bolisïau a gweithdrefnau priodol; y risg a achosir gan ofodau ar-lein; a phroblemau o ran casglu data annigonol ac anghyson. Mae'r Ymchwiliad yn cynnwys argymhellion pwysig i bob llywodraeth.

---

[95] Llywodraeth Cymru, 2022. *Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026*. https://gov.wales/violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-strategy-2022-2026-html

[96] Domestic Abuse and Family Proceedings Bill. http://www.niassembly.gov.uk/assembly-business/legislation/2017-2022-mandate/primary-legislation---bills-2017---2022-mandate/domestic-abuse-bill/bill---as-introduced/

[97] NICCY, 2020. *Domestic Abuse and Family Proceedings Bill: Written submission to the Justice Committee*. https://www.niccy.org/publications/domestic-abuse-and-family-proceedings-bill/

[98] Independent Inquiry Into Child Sexual Abuse, 2022. *The Report of the Independent Inquiry Into Child Sexual Abuse.* https://www.iicsa.org.uk/key-documents/31216/view/report-independent-inquiry-into-child-sexual-abuse-october-2022_0.pdf

Yng **Nghymru**, mae'r Comisiynydd wedi argymell yn ffurfiol yn ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22[99] bod Llywodraeth Cymru yn cydlynu ac yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu i Gymru er mwyn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o'r adroddiad hwn a'i argymhellion yn cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus.

Nid yw **Llywodraeth yr Alban** yn nodi yn achos pob trosedd rywiol a gawsant eu cyflawni yn erbyn plentyn, yn arbennig os yw'r dioddefydd yn 16 neu'n 17 oed.[100] Yn yr un modd, mae gwasanaethau cefnogi dioddefwyr troseddau yn aml yn trin plant 16 ac 17 oed fel oedolion, heb ddarparu ar eu cyfer yr amddiffyniadau ychwanegol a roddir i blant o dan CCUHP.[101]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae dros hanner yr holl droseddau rhywiol a gofnodir yn cael eu cyflawni yn erbyn plant o dan 18 oed.[102]

**Argymhellion**

- Dylai pob llywodraeth weithredu ar sail yr argymhellion a wnaed gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- Dylai Llywodraeth Cymru gydlynu a chyhoeddi Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o adroddiad IICSA a'i argymhellion yn cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus.

**Cefnogaeth plentyn-ganolog i blant sydd wedi dioddef effaith cam-drin rhywiol (Barnahus) (erth. 39)**

Yn ogystal â'r amddiffyniadau cyfreithiol a amlinellir uchod, mae angen i bob plentyn sydd wedi profi cam-drin rhywiol gael mynediad at wasanaethau cyfannol sy'n eu

---

[99] CPC, 2022. *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22*. https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/10/Annual-Report-and-Accounts-2021-22-v2.pdf

[100] Llywodraeth yr Alban, 2022. *Recorded Crime in Scotland: 2021-22*. https://www.gov.scot/publications/recorded-crime-scotland-2021-2022/ ; Canfu cais Rhyddid Gwybodaeth i Heddlu'r Alban gan yr NSPCC fod 5,311 o droseddau rhywiol wedi'u cofnodi yn erbyn plant yn 2019/20, gan gynnwys achosion o dreisio, ymosodiadau rhywiol a pharatoi amhriodol. https://tfn.scot/news/child-sexual-offences-rise-by-a-third-over-five-years

[101] CYPCS, 2019. *Consultation response: Clinical pathway for children and young people who have disclosed sexual abuse*. https://www.cypcs.org.uk/resources/consultation-response-clinical-pathway-disclosure-sexual-abuse/

[102] Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon, 2022. *Police Recorded Crime Statistics.* https://www.psni.police.uk/about-us/our-publications-and-reports/official-statistics/police-recorded-crime-statistics

cefnogi trwy brosesau cyfiawnder troseddol ac yn darparu cefnogaeth barhaus ar gyfer eu hadferiad corfforol a seicolegol.

Yn **yr Alban**, mae Bairns' Hoose peilot yn cael ei ddatblygu, ar sail model Barnahus.[103] Mae CYPCS yn credu bod rhaid rhoi ystyriaeth ehangach i sut bydd anghenion a hawliau'r holl blant sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn cael eu diwallu, trwy gynnal CRIA llawn. Gallai fod perygl y bydd y meini prawf cymhwysedd ar gyfer mynediad i'r Bairns' Hoose yn cyfrannu at system ddwy haen.[104] Hefyd mae angen i Lywodraeth yr Alban sicrhau bod y Bairns' Hoose yn cael ei sefydlu gyda chyllid cynaliadwy tymor hir.[105]

O dan Gynllun Gweithredu Cenedlaethol 2019,[106] mae rhaid i fyrddau diogelu rhanbarthol yng **Nghymru** adolygu'r gefnogaeth therapiwtig sydd ar gael i blant er mwyn canfod a rhoi sylw i fylchau yn y ddarpariaeth. Mae Rhaglen Gwasanaeth Ymosodiadau Rhywiol Cymru ar waith i wella mynediad at gefnogaeth i blant. Yn dilyn cyhoeddi'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, yn ogystal â nodi sut byddant yn ymateb i'w argymhellion i gryfhau eu hymateb a'r gefnogaeth sydd ar gael i blant y mae cam-drin rhywiol wedi effeithio arnynt, fynd ati hefyd i gryfhau ymhellach fesurau i atal y niwed hwn.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, cyflawnir dros hanner yr holl droseddau rhywiol a gofnodir yn erbyn plant o dan 18 oed.[107] Argymhelliad Adolygiad yn 2018 o'r gyfraith a gweithdrefnau yng nghyd-destun troseddau rhywiol difrifol yng Ngogledd Iwerddon ('Adolygiad Gillen') oedd y dylid ystyried o ddifri gyflwyno model Barnahus. Mae

---

[103] Health Improvement Scotland, 2022. *Bairns' Hoose Standards.* https://www.healthcareimprovementscotland.org/our_work/standards_and_guidelines/stnds/bairns_hoose_standards.aspx

[104] Lightowler, C., 2021. *Rights Respecting? Scotland's approach to children in conflict with the law.* https://cycj.org.uk/wp-content/uploads/2020/01/Rights-Respecting-Scotlands-approach-to-children-in-conflict-with-the-law.pdf

[105] Children First, 2022. *Transforming Care, Justice and Recovery for Children.* https://www.children1st.org.uk/help-for-families/bairns-hoose/

[106] Llywodraeth Cymru, 2019. *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol – Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol.* https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/national-action-plan-preventing-and-responding-to-child-sexual-abuse.pdf

[107] Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon, 2022. *Police Recorded Crime Statistics.* https://www.psni.police.uk/about-us/our-publications-and-reports/official-statistics/police-recorded-crime-statistics

adroddiad NICCY, *Putting the Child at the Centre*,[108] yn cynnwys canllawiau manwl ar sut dylid symud ymlaen i wneud hyn. Ni ddylai'r ansefydlogrwydd gwleidyddol presennol yng Ngogledd Iwerddon achosi oedi o ran y newid brys sy'n ofynnol ar gyfer plant a fu'n wynebu cam-drin rhywiol.

**Argymhelliad**

- Dylai plant sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol gael mynediad at gefnogaeth plentyn-ganolog, megis model Barnahus, gyda llywodraethau'n ymrwymo i adnoddau a chyllid cynaliadwy.

## 15. Diogelu ym myd addysg

Ar hyn o bryd nid oes rhaid i athrawon mewn ysgolion preifat yng **Nghymru** gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, ac nid oes rhaid i ysgolion preifat arddangos cydymffurfiaeth â phrosesau diogelu cenedlaethol. Yn 2022, daeth Llywodraeth Cymru â rheoliadau newydd i rym yn galluogi Cyngor y Gweithlu Addysg i orfodi gorchmynion atal dros dro mewn ysgolion annibynnol. Mae CPC yn annog Llywodraeth Cymru i gadw at eu hymrwymiad, sef gofyn bod holl staff ysgolion annibynnol yn cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg erbyn mis Ebrill 2023.

Yn **yr Alban,** mae'r holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion yn sector y wladwriaeth a'r sector annibynnol yn destun gwiriadau o dan y system Amddiffyn Grwpiau Agored i Niwed, a rhaid bod pob athro wedi'u cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban. Yn ysgolion y wladwriaeth, cynorthwywyr dosbarth a chynorthwywyr cefnogi disgyblion[109] yw'r grŵp mwyaf o staff sy'n weddill nad oes rhaid iddynt gofrestru'n statudol. Mae hynny'n golygu nad yw'n ofynnol bod y staff hynny yn derbyn safon ofynnol o hyfforddiant parhaus.[110]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, ni fu corff llywodraethu yn goruchwylio cofrestriad athrawon ers i Gyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon gael ei ddiddymu yn 2021. Er bod mecanweithiau interim wedi cael eu rhoi ar waith gan ddisgwyl i'r ddeddfwriaeth gael ei diwygio, codwyd pryderon diogelu yn dilyn adroddiadau am rai ysgolion yn cyflogi athrawon nad ydynt wedi cwblhau gwiriadau cofnodion troseddol

---

[108] NICCY, 2022. Putting the child at the centre: Barnahus, a one door approach to supporting children who have been sexually abused in Northern Ireland. https://www.niccy.org/a-barnahus-model-for-ni/

[109] Mae teitlau swyddi'n amrywio ar draws awdurdodau lleol.

[110] CYPCS, 2018. *Response to Empowering Schools: a consultation on the provisions of the Education (Scotland) Bill.* https://www.cypcs.org.uk/resources/empowering-schools-consultation-provisions-education/

yn llawn. Ymhellach, mae eithrio tiwtoriaid o gofrestru a rheoleiddio yn fwlch sy'n achosi pryder.

**Argymhelliad**

- Dylai Llywodraeth Cymru ofyn bod holl staff ysgolion annibynnol yn cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg erbyn mis Ebrill 2023.
- Dylai Llywodraeth yr Alban archwilio ffyrdd o sicrhau bod cynorthwywyr dosbarth a chynorthwywyr cefnogi disgyblion yn wynebu'r un gofynion o ran hyfforddiant gofynnol a pharhaus, er enghraifft trwy gofrestru.
- Yng Ngogledd Iwerddon, rhaid rhoi sylw i absenoldeb corff llywodraethu sy'n goruchwylio cofrestriad athrawon yn ddi-oed.

## F. Amgylchedd y teulu a gofal amgen (erthyglau 5, 9-11, 18(1)-(2), 20-21, 25, 27(4)

## 16. Diffyg gwasanaethau effeithiol cymorth i deuluoedd, ymyrraeth gynnar a gofal plant

**Ymyrraeth Gynnar a Chymorth i Deuluoedd**

Mae polisïau cyfredol Llywodraeth y Deyrnas Unedig o gyni a thorri nôl ar fudd-daliadau (gweler adran 20 ar dlodi plant a diwygio lles) wedi golygu bod angen cymorth ar fwy a mwy o deuluoedd. Ond mae toriadau i gyllid awdurdodau lleol wedi cael effaith ar ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar er mwyn cynnal plant a'u teuluoedd yn briodol. Mae cyrff trydydd sector yn fwyfwy pwysig, ond mae llawer o sefydliadau yn wynebu cynnydd anghynaliadwy yn eu costau cynnal.[111] Ni oroesodd rhai elusennau y pandemig, ac mae llawer o wasanaethau yn dal i gynnig gwasanaethau llai a/neu o bell.[112]

**Argymhelliad**

- Dylid rhoi blaenoriaeth i fwy o fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliaeth ac ymyrraeth gynnar, yn arbennig yn y blynyddoedd cynnar.

---

[111] SCVO, 2022. Cost of Living and the #RunningCostsCrisis https://scvo.scot/policy/campaigns/running-costs-crisis

[112] Plant yng Nghymru, 2022. *Adroddiad ar 6ed Arolygon Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd 2022.* https://www.childreninwales.org.uk/application/files/6416/6487/3691/CIW_Poverty_report_2022_English.pdf

**Gofal Plant**

Mae costau gofal plant yn y Deyrnas Unedig ymhlith yr uchaf yn yr OECD (Sefydliad ar gyfer Cydweithio a Datblygu Economaidd). Nid yw gofal plant di-dreth a chyfraniad gofal plant Credyd Cynhwysol yn talu am gostau gofal plant ar gyfartaledd[113] ac mewn rhai ardaloedd nid oes digon o ofal plant i ymateb i'r galw. Gall costau gofal plant uchel, anhawster cyrchu gofal plant o safon, a darpariaeth a ariannir yn annigonol gadw rhieni allan o waith, ac mae hyn yn fwy tebygol o effeithio ar famau.[114]

Yng **Nghymru**, dylai'r cynnig gofal plant o hyd at 30 awr yr wythnos ar gyfer rhieni sy'n gweithio sydd â phlant 3-4 oed fod ar gael i bob plentyn, beth bynnag yw statws gwaith eu rhieni. O ganlyniad i'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru,[115] mae ymrwymiad i ehangu'r cynnig Dechrau'n Deg (gofal plant wedi'i dargedu i deuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig) i bob plentyn 2 oed. O 2022 ymlaen, bydd y cynnig gofal plant i blant 3-4 oed hefyd yn cael ei ehangu er mwyn cefnogi teuluoedd lle mae'r rhieni mewn addysg neu hyfforddiant.[116] Er bod y datblygiadau hyn i'w croesawu, mae angen camau pellach i sicrhau bod plant o deuluoedd di-waith yn cael eu cynnwys yn y cynnig gofal plant.

Yn **yr Alban**, cyhoeddwyd canllawiau statudol newydd ar ddysgu cynnar a gofal plant yn 2020. Achoswyd oedi i'r bwriad i ehangu hyn i 1,140 awr o ddysgu cynnar a gofal plant y flwyddyn gan y pandemig, ond mae bellach ar gael i bob plentyn 3-4 oed a rhai plant 2 oed. Mae hyn yn cyfateb i 30 awr yr wythnos yn ystod y tymor neu 22 awr yr wythnos os cymerir ef ar hyd y flwyddyn.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, ni chafwyd darpariaeth gyfatebol o ofal plant am ddim i blant ifanc hyd yma. Fodd bynnag, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg blaenorol ym mis Medi 2022 fod gwaith yn parhau i ddatblygu Strategaeth Dysgu Cynnar a Gofal

---

113 Coram Family and Childcare, 2022. *Childcare Survey 2022.* https://www.coram.org.uk/sites/default/files/resource_files/Coram%20Childcare%20Survey%20-%202022.pdf

114 Ibid; Employers for Childcare, 2021. *Northern Ireland Childcare Survey 2021.* https://www.employersforchildcare.org/report/northern-ireland-childcare-survey-2021/

115 Llywodraeth Cymru, 2021. *Y Cytundeb Cydweithio.* https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-11/cooperation-agreement-2021.pdf

116 Llywodraeth Cymru, 2022. *Datganiad Ysgrifenedig: Ehangu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru*. https://gov.wales/written-statement-expansion-childcare-offer-wales

Plant integredig, a fyddai'n cynnwys isafswm o 22.5 awr o addysg cyn ysgol a ariannir yr wythnos ar gyfer pob plentyn 3-4 oed.[117]

**Argymhelliad**

- Dylai pob teulu gael mynediad at ofal plant fforddiadwy, o safon, gyda darpariaethau a ariannir yn cael eu seilio ar angen yn hytrach na statws cyflogaeth.

## 17. Plant a amddifadir o amgylchedd teulu

Ym mhob un o'r tair awdurdodaeth, mae plant mewn gofal amgen yn profi ansefydlogrwydd ac ansicrwydd, ac yn aml maent yn methu cynnal cysylltiadau â'u teulu, eu ffrindiau a'u cymuned.

Yng **Nghymru** yn 2021, roedd 115 o blant o bob 10,000 yn derbyn gofal, tuedd sydd wedi bod yn cynyddu.[118] Er y bydd achosion yn codi bob amser lle mae'n ddiogel ac yn briodol i blant ddechrau derbyn gofal, yn rhy aml mae'r system ofal yn amharu ar fywydau plant, eu perthynas â'u teulu, siblingiaid a ffrindiau. Mae angen diwygio'r system ofal ar frys, ac er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i 'ddiwygio gofal cymdeithasol i blant yng Nghymru', a fydd yn canolbwyntio ar leihau nifer y plant sy'n mynd i ofal trwy wella'r gefnogaeth i ymyrraeth gynnar, nid oes fawr ddim ar gael yn gyhoeddus ar adeg ysgrifennu i bennu sut bydd y newid hwn yn cael ei gyflawni.

Mae CPC yn pryderu bod rhai o'r plant mwyaf agored i niwed weithiau'n cael eu rhoi gan awdurdodau lleol mewn lleoliadau nad ydynt wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Rhaid i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod yr opsiynau lleoli hyn yn cael eu rheoleiddio gan AGC.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dileu'r gallu i wneud elw o wasanaethau gofal plant, ac mae cynigion deddfwriaethol yn destun ymgynghori ar hyn o bryd, er mwyn helpu i symud i ffwrdd oddi wrth fodelau gofal sy'n gwneud elw. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau maeth a phreswyl. Rhaid canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Nid-er-Elw, gyda threfniadau pontio cadarn yn eu lle i sicrhau dilyniant i blant mewn gofal.

---

[117] Adran Addysg Gogledd Iwerddon, 2022. *McIlveen announces move towards 22.5 hours of funded pre-school for all children*. https://www.education-ni.gov.uk/news/mcilveen-announces-move-towards-225-hours-funded-pre-school-all-children

[118] Llywodraeth Cymru, 2022. *Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth fesul 10,000 o boblogaeth o dan 18 oed fesul awdurdod lleol a blwyddyn, Tachwedd 2021*. https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31marchper10000population-localauthority-year

Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd gyflawni ymrwymiadau i gryfhau deddfwriaeth ynghylch Rhianta Corfforaethol a Chefnogaeth i Ymadawyr Gofal.

Yn **yr Alban**, gwnaeth yr Adolygiad Gofal Annibynnol, 'The Promise', argymhellion sylweddol ar gyfer gwella'r system ofal, gan gynnwys trawsffurfio gwasanaethau i gefnogi plant a theuluoedd, gyda ffocws ar ymyrraeth gynnar a systemau defnyddiwr-ganolog.[119] Er mai nod y system Gwrandawiadau Plant[120] yw defnyddio dull plentyn-ganolog, mae plant yn dal i adrodd nad ydynt bob amser yn cael eu cefnogi'n ddigonol i gymryd rhan mewn gwrandawiadau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i blant iau a phlant hŷn sydd mewn gwrthdaro â'r gyfraith.[121]

Mae CYPCS yn pryderu y gallai plant o'r tu allan i'r Alban sy'n cael eu gosod mewn lleoliadau preswyl neu ofal diogel yn yr Alban gael eu hamddifadu o'u rhyddid, neu fod yn destun cyfyngiadau sy'n cyfateb i amddifadu o ryddid, heb fynediad at yr un hawliau, amddiffyniadau a mesurau diogelu sydd ar gael i blant sy'n byw yn yr Alban fel arfer.[122]

Croesawir cyflwyno'r *Adoption and Children Act (Northern Ireland) 2022* a'r diweddariad i'r Strategaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng **Ngogledd Iwerddon**, fel ei gilydd, a dylid eu rhoi ar waith yn llawn. Mae nifer y plant sydd mewn gofal yn uwch nag y bu ers cyflwyno'r Gorchymyn Plant yn 1995.[123]

Ers 2017, mae'r Adran Gyfiawnder a'r Adran Iechyd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i ddiwygio gofal diogel a chystodaeth, a datblygu campws a rennir, yn rhannol mewn ymateb i'r niferoedd annerbyniol o uchel o'r rhai sydd yn y ddalfa sy'n derbyn gofal gan y Wladwriaeth. Gwaetha'r modd, bu cynnydd yn araf.

---

[119] Independent Care Review, 2020. *The Promise*. https://www.carereview.scot/wp-content/uploads/2020/02/The-Promise.pdf

[120] Mae'r System Gwrandawiadau Plant seiliedig ar les yn gwneud penderfyniadau ar ran plant sydd angen mesurau goruchwyliaeth, gofal ac amddiffyniad gorfodol, gan gynnwys y rhai a gyhuddwyd o gyflawni trosedd. https://www.chscotland.gov.uk/

[121] Independent Care Review, 2020. *The Promise,* pp.39-44. https://www.carereview.scot/wp-content/uploads/2020/02/The-Promise.pdf

[122] CYPCS, 2022. *Scottish Government's Policy Position Paper on Cross-border Placements of Children and Young People – consultation response*. https://www.cypcs.org.uk/resources/cross-border-placements/

[123] Department of Health, 2022. *Children's Social Care Statistics 2021/2022*. https://www.health-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/health/child-social-care-21-22.pdf

**Argymhellion:**

- Rhaid i Lywodraeth yr Alban gadw 'Yr Addewid' trwy roi argymhellion yr Adolygiad Gofal Annibynnol ar waith erbyn 2030.
- Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurhad a manylion ynghylch eu rhaglen arfaethedig o ddiwygio gofal cymdeithasol.
- Rhaid i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon ddiwygio gofal diogel a chystodaeth fel mater o frys.

## G. Iechyd a lles sylfaenol (erthyglau 6, 18 (3), 24, 26, 27 (1)– (3) a 33)

## 18. Iechyd a gwasanaethau iechyd

### Amserau aros

Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at gynnydd yn yr amserau aros pediatrig ar draws gwasanaethau iechyd pob awdurdodaeth, a gwaethygir hynny gan brinder staff parhaus. Bydd y sefyllfa hon yn dirywio ymhellach os bydd gwasanaethau iechyd yn destun toriadau cyllid pellach.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae'r amserau aros yn llawer hwy nag yn awdurdodaethau eraill y Deyrnas Unedig,[124] ac mae'r ffigurau sydd ar gael ynghylch amserau aros pediatrig yn dangos tuedd didostur ar i fyny. Ym mis Ebrill 2022, roedd 38,628 o blant yn aros am apwyntiad cyntaf gydag ymgynghorydd fel claf allanol, ac roedd 41% o'r rheiny wedi aros dros flwyddyn, gyda rhai'n aros am bedair blynedd neu fwy.[125] Nid yw'r un Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSCT) yn cyflawni ei Thargedau Gweinidogol o ran amserau aros.[126] Nid yw'r ystadegau a gyhoeddir yn swyddogol yn cael eu dadelfennau i'r lefel sy'n ofynnol i ddeall amserau aros yn llawn ar gyfer plant ar draws y system gofal iechyd i blant; mae gwasanaethau iechyd cymunedol yn arbennig o wael.[127]

---

[124] Cyngor Ariannol Gogledd Iwerddon, 2022. *Sustainability Report 2022: special focus – Health.* https://www.nifiscalcouncil.org/publications/sustainability-report-2022-special-focus-health

[125] NICCY, 2022. *More than a Number – One Year On Monitoring Report*. https://www.niccy.org/more-than-a-number-one-year-on-resources/

[126] Yr Adran Iechyd, 2022. *Hospital Waiting Times Statistics.* https://www.health-ni.gov.uk/topics/dhssps-statistics-and-research/hospital-waiting-times-statistics

[127] NICCY, 2021. *More Than A Number: Rights Based Review of Child Health Waiting Times*. https://www.niccy.org/more-than-a-number-a-rights-based-review-of-health-waiting-lists-in-northern-ireland/

Yng **Nghymru**, cyrhaeddodd 95% o'r amserau aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer pediatreg y targed o 26-wythnos rhwng mis Rhagfyr 2019 a Chwefror 2020. O isafbwynt o 76.5% ym mis Medi 2020, ym mis Awst 2022 roedd yn 83.2%. Yn achos llawdriniaeth pediatrig, yn anterth effaith y pandemig ar wasanaethau, roedd llai na hanner y plant yn cael eu trin o fewn y targed o 26-wythnos. Ym mis Awst 2022, roedd y ffigur yn 68.5%.[128] Dylai cynlluniau GIG Cymru ar gyfer adfer wedi COVID-19 ganolbwyntio ar ailsefydlu gwasanaethau hanfodol i blant i'r lefelau oedd yn bodoli cyn y pandemig.

Nid yw Iechyd Cyhoeddus **yr Alban** yn cyhoeddi ystadegau manwl ar gyfer amserau aros pediatreg (ac eithrio Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc) ac mae angen gwella'r adroddiadau a'r cofnodi ar y data.

**Gwasanaethau Gofal Iechyd eraill**

Dylai pob plentyn fwynhau mynediad cyfartal at eiriolaeth annibynnol ynghylch eu gofal iechyd. Nid yw **Llywodraeth Cymru** wedi symud gwaith ymlaen i estyn eiriolaeth annibynnol ar draws gwasanaethau gofal iechyd.[129]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae angen mwy o ffocws ar ofal iechyd plant o fewn y broses ehangach o ddiwygio Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae hynny'n cynnwys rhoi sylw i faterion capasiti brys er mwyn diwallu angen ar draws y system iechyd plant. Er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hystyried yn llawn yn y broses hon, mae angen cymryd camau i wella gwelededd iechyd plant, ac atebolrwydd amdano, mewn adrannau ac asiantaethau allweddol, ac yng nghyswllt data iechyd a chyllidebu.

Galwodd paragraffau 84 ac 85 o adroddiad ymchwiliad CEDAW yn 2018 ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gymryd camau mewn perthynas ag ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau erthylu cyfreithlon i fenywod a merched yng Ngogledd Iwerddon.[130] Er bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi pasio deddfwriaeth i roi'r

---

[128] StatsWales, 2022. *Referral to Treatment*. https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/Referral-to-Treatment

[129] CPC, 2022. *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22.* https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/10/Annual-Report-and-Accounts-2021-22.pdf

[130] CEDAW, 2018. *Report of the inquiry concerning the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland under article 8 of the Optional Protocol to the Convention on the Elimination of All Forms of Discrimination against Women.* https://tbinternet.ohchr.org/Treaties/CEDAW/Shared%20Documents/GBR/INT_CEDAW_ITB_GBR_8637_E.pdf

argymhellion hyn ar waith,[131] (FN2) mae darpariaeth gwasanaethau ar draws Gogledd Iwerddon yn anghyson. Mae merched yn dal i orfod teithio y tu allan i'r awdurdodaeth i sicrhau erthyliad; yn 2021, cofnodwyd bod 161 o fenywod a merched wedi teithio i Brydain at y diben hwn. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig, trwy Swyddfa Gogledd Iwerddon, wedi ymyrryd i ddweud y bydd yn comisiynu'r gwasanaethau gofynnol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Yn **yr Alban**, yn dilyn adolygiad o wasanaethau ymwelwyr iechyd, mae nifer y plant sy'n mynychu'r adolygiadau ychwanegol yn 13-15 mis a 4-5 oed wedi cynyddu'n gyson.[132] Fodd bynnag, mae anghydraddoldebau sylweddol yn parhau o ran y nifer sy'n manteisio ar frechiadau plentyndod, gyda phlant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o dderbyn yr ystod lawn o frechiadau.[133]

**Argymhellion**

- Dylai ystadegau cynhwysfawr ynghylch amserau aros pediatrig fod ar gael ym mhob awdurdodaeth.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod plant yn cael mynediad at eiriolaeth annibynnol cysylltiedig â iechyd trwy ganllawiau statudol.
- Yng Ngogledd Iwerddon, dylai paragraffau 84 ac 85 o adroddiad Ymchwiliad CEDAW gael eu gweithredu'n llawn, gan gynnwys darparu gwasanaethau gofal iechyd atgenhedlu i fenywod a merched yn unol ag Adran 9 o'r *Northern Ireland (Executive Formation etc) Act 2019.*
- Rhaid i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon gymryd camau i wella gwelededd iechyd plant mewn adrannau ac asiantaethau allweddol, ac atebolrwydd amdano, gan gynnwys data iechyd a chyllidebu.

## 19. Iechyd meddwl

Yn 2018, dangosodd PISA OECD mai 18% yn unig o'r blant a fu'n cymryd rhan ar draws y Deyrnas Unedig a ddywedodd fod ganddynt lesiant cadarnhaol.[134]

---

[131] Northern Ireland (Executive Formation etc) Act 2019 section 9. https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2019/22/enacted

[132] Public Health Scotland, 2022. *Child health pre-school review coverage.* https://publichealthscotland.scot/publications/child-health-pre-school-review-coverage/child-health-pre-school-review-coverage-statistics-2020-to-2021/

[133] Scottish Public Health Observatory, 2022. *Immunisations: Inequalities in uptake in children.* https://www.scotpho.org.uk/health-wellbeing-and-disease/immunisations/data/children/

[134] OECD, 2018. *PISA 2018 Results.* https://www.oecd.org/pisa/publications/pisa-2018-results.htm

Cynyddodd pryderon ynghylch llesiant meddyliol plant yn ystod pandemig COVID-19. Ar draws pob awdurdodaeth, mae mynediad at wasanaethau iechyd meddwl cymunedol yn anghyson ac yn aml yn annigonol, ac mae amserau aros hir ar gyfer gofal arbenigol trwy Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn bryder parhaus.

Yn **yr Alban**, canfu'r Archwilydd Cyffredinol yn 2018 fod gwasanaethau iechyd cymunedol yn "gymhleth ac yn ddarniog", gyda'r gefnogaeth "yn canolbwyntio'n bennaf ar ofal arbenigol ac ymateb i argyfwng".[135] Cafodd y gefnogaeth iechyd meddwl mewn ysgolion ei gwella trwy ychwanegu 350 o gwnselwyr mewn ysgolion uwchradd ym mis Hydref 2020, fodd bynnag, nid oedd hynny ond yn ymateb i lefel y galw oedd heb ei ddiwallu cyn y pandemig.[136] Mae plant anabl, y rhai ag anghenion iechyd cymhleth, a'r rhai sy'n profi sefyllfaoedd andwyol eraill yn llai tebygol o fedru cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl cymunedol priodol.

Yn ôl data amserau aros chwarterol diweddaraf CAMHS, gwelwyd 68.4% o blant o fewn 18 wythnos o'u hatgyfeirio. Mae nifer y plant mae CAMHS yn eu gweld yn cynyddu, ond mae'r rhestrau aros yn dal i ymestyn.[137] Mae hwn yn batrwm sy'n achosi pryder, ac mae angen mwy o wybodaeth amdano. Mae pryderon yn parhau i fodoli ynghylch cyfraddau uchel o atgyfeiriadau a wrthodwyd.[138]

Caiff plant 16 ac 17 oed eu trin fel oedolion o dan y *Mental Health (Care and Treatment) (Scotland) Act 2003.* Yn 2022 argymhelliad yr Adolygiad annibynnol o Gyfraith Iechyd Meddwl yn yr Alban oedd y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth dan sylw yn helaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith hawliau dynol, ac er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau craidd gofynnol CAMHS yn cynnwys argaeledd i blant hyd at 18 oed.[139]

Yng **Nghymru**, bu gwelliant yn yr amser rhwng atgyfeiriad ac apwyntiad cyntaf yn y cyfnod yn arwain at wanwyn 2020, ond mae'r pandemig wedi cael effaith wael ar yr amserau aros hyn. Ym mis Rhagfyr 2021, 22% yn unig o blant gafodd eu hapwyntiad

---

[135] Audit Scotland, 2018. *Children and young people's mental health*. https://www.audit-scotland.gov.uk/uploads/docs/report/2018/nr_180913_mental_health.pdf

[136] CYPCS, 2022. *Mental health investment needs to be targeted so it can make a difference*. https://www.cypcs.org.uk/news-and-stories/mental-health-investment-needs-to-be-targeted-so-it-can-make-a-difference/

[137] Public Health Scotland, 2022. *Child and Adolescent Mental Health Services Waiting Times in NHS Scotland.* https://www.publichealthscotland.scot/media/14866/2022-09-06-camhs-waiting-times-summary.pdf

[138] SAMH, 2022. *SAMH Comments on Latest* CAMHS *stats.* https://www.samh.org.uk/about-us/news-and-blogs/samh-comment-on-latest-camhs-stats

[139] Scottish Mental Health Law Review, 2022. *Final report*. https://www.mentalhealthlawreview.scot/

CAMHS arbenigol o fewn y targed o bedair wythnos. Ym mis Gorffennaf 2022 roedd y ffigwr yn 43.1%.[140] Yn achos y plant hynny sydd angen gofal iechyd meddwl preswyl arbenigol, mae CPC yn pryderu bod plant, yn rhy aml, ddim yn cael gofal mewn amgylchedd therapiwtig.

Mae'r fframwaith NEST/NYTH[141] yn annog dull 'dim drws anghywir' o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys ffocws mwy pendant ar gymorth cynnar ar draws yr ystod o leoliadau mae plant yn dod ar eu traws yn eu bywydau beunyddiol. Mae'r fframwaith yn annog yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â bywydau plant i gydweithio i greu dull system gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant. Mae gwaith yn parhau i estyn y fframwaith ledled Cymru, ond rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y realiti yn adlewyrchu'r rhethreg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar ddull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant, sy'n gofyn bod ysgolion yn arddangos cynlluniau ar gyfer gwelliant parhaus.[142] Dim ond i rai ysgolion mae hyn wedi cael ei gyflwyno hyd yma, ac mae'n rhaid gwneud mwy i wreiddio dull gweithredu ysgol gyfan ym mhob ysgol. Anogodd CPC Lywodraeth Cymru hefyd i wneud gofynion allweddol y fframwaith yn fwy gweladwy a hygyrch i blant a staff ysgolion.

Roedd cyfradd y marwolaethau o dan 18 oed yn sgîl hunanladdiad tebygol / posibl yn 2021 yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol, ond nid oedd y ffigwr uwch yn ystadegol arwyddocaol.[143] Fodd bynnag, mae cyfradd hunanladdiad yn 2021 ymhlith plant 15-19 oed yng Nghymru yn 9.8 fesul 100,000, y gyfradd uchaf ers 2017.[144]

---

[140] Llywodraeth Cymru, 2022. *Amseroedd aros am apwyntiad cyntaf Gwasanaethau Iechyd Meddwl a'r Glasoed Arbenigol*. https://gov.wales/specialist-children-and-adolescent-mental-health-service-first-appointment-waiting-times

[141] GIG Cymru, dim dyddiad. Fframwaith NYTH. https://collaborative.nhs.wales/networks/wales-mental-health-network/together-for-children-and-young-people-2/the-nest-framework/

[142] Llywodraeth Cymru, 2021. *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol.* https://gov.wales/framework-embedding-whole-school-approach-emotional-and-mental-wellbeing

[143] Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022. *Patrymau a thueddiadau marwolaethau plant yng Nghymru 2011-2020*. https://phw.nhs.wales/publications/publications1/patterns-and-trends-of-child-deaths-in-wales-2011-2020/

[144] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), 2022. *Suicides in England and Wales*. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/datasets/suicidesintheunitedkingdomreferencetables

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau sydd i'w croesawu i helpu ysgolion i gefnogi dysgwyr ac atal hunanladdiad a hunan-niweidio.[145]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae'r amserau aros ar gyfer mynediad at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol yn dal yn destun pryder. Rhwng 2019/20 a 2020/21 cynyddodd yr atgyfeiriadau i CAMHS o Adrannau Achosion Brys 24% (o 765 i 949).[146] Mae'r ffigurau ar gyfer gwasanaeth Cam 3 CAMHS yn dangos, yn Ebrill 2022, fod 2,223 o blant yn aros, a bod 52 ohonynt wedi bod yn aros dros flwyddyn am apwyntiad cyntaf.[147]

Croesawir y Strategaeth Iechyd Meddwl 10-mlynedd ar gyfer Gogledd Iwerddon, gan ei bod yn cynnwys ymrwymiadau pendant at gyflawni system gofal iechyd gynhwysfawr i blant. Mae angen penodol am gryfhau dulliau gweithredu o ran ataliaeth ac ymyrraeth gynnar, gan wella gwasanaethau yn y gymuned a sicrhau bod gwasanaethau arbenigol sy'n addas o ran oed a chyfnod datblygiad ar gael. Mae'r gefnogaeth Iechyd Meddwl ar gyfer plant ag anabledd dysgu a'r rhai sydd â chyd-forbidrwydd alcohol a chyffuriau mwy difrifol a chymhleth yn destun pryder arbennig.[148] Mae plant yn dal i gael eu hamddifadu o'u hawliau wrth i rai o dan 18 oed gael eu derbyn i wardiau iechyd meddwl oedolion. Gwaetha'r modd, ni sicrhawyd y buddsoddiad angenrheidiol i gyflawni ymrwymiadau'r Strategaeth i blant.

Mae'r *Mental Capacity (Northern Ireland) Act 2016* yn darparu mesurau diogelu ac amddiffyniadau pwysig i bobl sydd heb y gallu i wneud penderfyniadau, gan arwain at Amddifadu o Ryddid. Yn ystod y broses o graffu ar y ddeddfwriaeth ac ers iddi gael ei phasio, mae NICCY yn gyson wedi amlinellu pryderon i'r llywodraeth ynghylch eithrio rhai o dan 16 oed a chadw'r *Mental Health (Northern Ireland) Order 1986* ar gyfer y grŵp oed yma,[149] er bod hwnnw'n ddarn o ddeddfwriaeth y nodwyd nad yw'n bodloni safonau hawliau dynol.

---

[145] Llywodraeth Cymru, 2019. *Lansio canllawiau ar hunanladdiad a hunan-niweidio i gefnogi ysgolion*. https://gov.wales/suicide-and-self-harm-guidance-launched-support-schools

[146] Health and Social Care Board, 2022. *Monthly Board Minutes- Performance Reports.* https://hscboard.hscni.net/meeting/hscb-board-meetings-2021-2022/

[147] NICCY, 2022. *More than a Number – One Year On Monitoring Report*. https://www.niccy.org/more-than-a-number-one-year-on-resources/

[148] NICCY, 2022. *Still Waiting Monitoring Report*. https://www.niccy.org/wp-content/uploads/media/4048/niccy-2022-monitoring-report-070222.pdf

[149] NICCY, 2019. *NICCY response on the Mental Capacity Act (Northern Ireland) 2016 Code of Practice.* https://www.niccy.org/publications/niccy-response-on-the-mental-capacity-act-northern-ireland-2016-code-of-practice/ https://www.niccy.org/publications/2019/february/22/mental-capacity-act/

Cyhoeddodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon Fframwaith Iechyd a Llesiant Emosiynol ym mis Chwefror 2021, gyda chyllid ailadroddol ar y cyd rhwng yr Adrannau Iechyd ac Addysg.[150] Fel rhan o'r gwaith hwn, cyflwynwyd gwasanaeth therapiwtig a chwnsela arbrofol i ddisgyblion ysgol gynradd, sy'n golygu bod gwasanaethau tebyg i gwnsela ar gael mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Ngogledd Iwerddon. Wedi cryn oedi, daeth yr *Addressing Bullying in Schools Act (Northern Ireland) 2016* i rym ym mis Medi 2022.[151] Nid oes dull cyson o fesur llesiant ar draws ysgolion yng Ngogledd Iwerddon.

**Argymhellion**

- Dylai plant gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl sydd ag adnoddau digonol, fel eu bod yn derbyn cefnogaeth mewn modd amserol ac effeithiol.

- Dylid diwallu anghenion cyfannol plant trwy gydweithio gan asiantaethau a sectorau lluosog, yn cynnwys ystod gynhwysfawr o wasanaethau megis ataliaeth ac ymyrraeth gynnar; cymunedol arbenigol; gofal arbenigol a chleifion mewnol.

- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod plant sy'n profi trallod emosiynol neu salwch meddwl yn derbyn yr ymateb amlasiantaeth 'Dim Drws Anghywir' i'w hanghenion, heb orfod aros am asesiad.

- Dylai Llywodraeth yr Alban sicrhau bod plant ym mhob ardal yn cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl cymunedol o safon uchel.

- Rhaid i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon sicrhau bod deddfwriaeth capasiti meddyliol yn darparu mynediad i bob plentyn o dan 18 oed at amddiffyniadau cyfreithiol sy'n cydymffurfio ag ECHR a CCUHP.

---

[150] Department of Education (Northern Ireland), 2021. *Children and Young People's Emotional Health and Wellbeing in Education Framework.* https://www.education-ni.gov.uk/articles/emotional-health-and-wellbeing

[151] Addressing Bullying in Schools Act (Northern Ireland) 2016. https://www.legislation.gov.uk/nia/2016/25/pdfs/nia_20160025_en.pdf

## 20. Safon byw

### Cyni a diwygio lles

Mae cyfraddau tlodi plant yn parhau'n uchel ar draws Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru.[152] Rhagwelir y bydd y polisi diwygio lles y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei ddilyn a'r argyfwng costau byw yn arwain at gynnydd yn nifer y plant sy'n byw mewn tlodi.[153]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, amcangyfrifir bod 23% o blant yn 2019/20 mewn tlodi cymharol (ar ôl costau tai).[154] Mae'r ffigur hwn wedi amrywio rhwng 23% a 28% yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, ond ni welwyd gostyngiad yn cael ei gynnal. Plant o hyd yw'r grŵp oedran sydd â'r lefelau uchaf o dlodi, gan eu bod ar hyn o bryd wyth pwynt canradd yn uwch nag oedolion oedran gwaith a 10 pwynt canradd yn uwch na phobl hŷn.[155] Nod Strategaeth Tlodi Plant 2016-2019 oedd lleihau tlodi plant, ond er iddi gael ei hestyn tan fis Mai 2022,[156] nid yw wedi arwain at ostyngiad yn nifer y plant sydd mewn tlodi. Yn 2020, ymrwymodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i Strategaeth Gwrthdlodi newydd gynhwysfawr.[157] Er gwaethaf yr oedi gyda'r strategaeth hon, mae'n gyfle i'r Weithrediaeth gymryd camau pendant i leihau tlodi plant.

Yn **yr Alban**, amcangyfrifir bod 24% o blant yn byw mewn tlodi cymharol yn 2016-19.[158] Mae hyn wedi parhau'n sefydlog, er bod y *Child Poverty (Scotland) Act 2017* wedi ailgyflwyno targedau statudol. Mae'r Ddeddf yn gofyn bod Llywodraeth yr Alban

---

[152] Gweler tablau data Q411 yn ymateb y Deyrnas Unedig i Restr Materion Pwyllgor y CU, Atodiad E: III. Statistical information and data.

[153] Resolution Foundation, 2022. *'Inflation Nation'.* https://www.resolutionfoundation.org/app/uploads/2022/03/Inflation-nation.pdf

[154] Department for Communities, Northern Ireland Statistics and Research Agency (NISRA), 2021. *Households Below Average Income: Northern Ireland 2019-20 Poverty.* https://www.communities-ni.gov.uk/publications/households-below-average-income-northern-ireland-201920

[155] Cyfradd tlodi cymharol oedolion oedran gwaith oedd 19%, a 15% yn achos pensiynwyr.

[156] Department for Communities, 2016. *The Child Poverty Strategy.* https://www.communities-ni.gov.uk/publications/child-poverty-strategy#:~:text=The%20Executive's%20Child%20Poverty%20Strategy,their%20lives%20and%20life%20chances

[157] Swyddfa Gogledd Iwerddon, 2020. *New Decade, New Approach.* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/856998/2020-01-08_a_new_decade__a_new_approach.pdf

[158] Llywodraeth yr Alban, 2020. *Poverty & Income Inequality in Scotland: 2016-19*. https://www.gov.scot/publications/poverty-income-inequality-scotland-2016-19/pages/3/#:~:text=Relative%20poverty%20for%20working%2Dage,to%20530%2C000%20before%20housing%20costs.

yn gweithredu i ostwng cyfran y plant sy’n byw mewn tlodi cymharol i lai na 10% erbyn 2030.[159] Sefydlwyd Comisiwn Tlodi ac Anghydraddoldeb, sy’n rhoi cyngor annibynnol i Weinidogion yr Alban ar dlodi ac anghydraddoldeb, yn monitro cynnydd, ac yn cynnig atebion i leihau tlodi ac anghydraddoldeb yn yr Alban.[160]

Yng **Nghymru**, mae cyfraddau tlodi plant wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd tua 31% o blant yn byw mewn tlodi yn ôl ffigurau Llywodraeth Cymru rhwng 2017 a 2020.[161] Fodd bynnag, roedd astudiaeth gan Brifysgol Loughborough yn nodi ffigur o 34% ar sail ystadegau o 2020-21.[162] Dyma’r ffigurau uchaf ar draws awdurdodaethau’r Deyrnas Unedig.

Mae polisïau cyni a diwygio lles ar draws y Deyrnas Unedig yn dal i gael effaith anghymesur ar blant. Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cynnal asesiad cynhwysfawr o effaith gronnol y diwygiadau nawdd cymdeithasol a chredyd treth a gyflwynwyd; mae nifer ohonynt yn cael effaith niweidiol ar blant.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyfyngu ar y gefnogaeth i deuluoedd sy’n derbyn Credyd Cynhwysol sydd â mwy na dau o blant, yng nghyswllt plant a aned ers 6 Ebrill 2017.[163] Mae rhai eithriadau’n bodoli i’r terfyn dau blentyn, gan gynnwys lle gall y fam ddangos ei bod wedi beichiogi o ganlyniad i gael ei threisio.

Mae terfyn hefyd ar gyfanswm y cymorth y gall teulu ei dderbyn trwy ddefnyddio’r Cap Budd-daliadau. Gan nad yw hyn yn cymryd nifer y plant i ystyriaeth, mae’n cael effaith anghymesur ar deuluoedd mwy. Mae teuluoedd sydd â phlentyn neu oedolyn anabl wedi’u heithrio. Ers ei gyflwyno yn 2013, mae’r Cap Budd-daliadau wedi gostwng o £26,000 i £20,000 y flwyddyn ar gyfer cwpl neu riant sengl sydd â phlant yn byw gyda nhw.[164] Yn 2019 adroddodd Rapporteur Arbennig y CU ar Dlodi Eithafol a Hawliau Dynol am effaith cyni, gan gynnwys torri’n ôl ar nawdd cymdeithasol a’r mesurau cynnal a’r gwasanaethau i’r bobl fwyaf bregus yn y Deyrnas Unedig:

---

[159] Child Poverty (Scotland) Act 2017. https://www.legislation.gov.uk/asp/2017/6/contents/enacted

[160] Poverty and Inequality Commission Scotland. https://povertyinequality.scot/

[161] StatsWales, 2020. *Children in Relative Income Poverty by Number of Children in the Household.* https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/childreninrelativeincomepoverty-by-numberofchildreninthehousehold

[162] Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant, 2022. *Child Poverty in your area.* https://endchildpoverty.org.uk/child-poverty/

[163] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2021. *Universal Credit: support for a maximum of 2 children.* https://www.gov.uk/guidance/universal-credit-and-families-with-more-than-2-children-information-for-claimants

[164] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, dim dyddiad. *Benefit cap: Benefit cap amounts.* https://www.gov.uk/benefit-cap

*“Considering the significant resources available in the country and the sustained and widespread cuts to social support, which have resulted in significantly worse outcomes, the policies pursued since 2010 amount to retrogressive measures in clear violation of the country’s human rights obligations.*

*The ideological rather than economic motivation for the cutbacks is demonstrated by the fact that the United Kingdom spends £78 billion per year to reduce or alleviate poverty, quite apart from the cost of benefits; £1 in every £5 spent on public services goes to repair what poverty has done to people’s lives. Cuts to preventive services mean that needs go unmet and people in crisis are pushed toward services that cannot turn them away but cost far more, like emergency rooms and expensive temporary housing.”*[165]

Mae newidiadau i’r system nawdd cymdeithasol yng **Ngogledd Iwerddon** wedi parhau ers 2016, ac mae hynny wedi effeithio fwyaf ar deuluoedd sydd â phlant.[166] Yn 2015, sefydlodd y Weithrediaeth becyn lliniaru, gan sicrhau bod y rhai sydd â’r angen mwyaf yn cael eu hamddiffyn rhag rhai o’r mesurau diwygio lles llymaf, gan gynnwys y ‘Dreth Ystafell Wely’ a’r Cap Budd-daliadau. Fodd bynnag, ni lwyddodd hyn i leddfu newidiadau dilynol i’r system nawdd cymdeithasol, gan gynnwys y terfyn dau blentyn a dileu elfen teulu credydau treth neu Gredyd Cynhwysol. Er i’r pecyn o fesurau lliniaru barhau wedi 2020, nid yw wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys mesurau fydd yn lleddfu’r newidiadau sydd wedi cael yr effaith negyddol fwyaf ar deuluoedd â phlant.

Cyflwynodd Deddf **yr Alban** yn 2016 bwerau lles cymdeithasol wedi’u datganoli i Lywodraeth yr Alban, ond ni ddatganolwyd budd-daliadau allweddol, gan gynnwys Credyd Cynhwysol. Bellach mae budd-daliadau anabledd newydd wedi cael eu cyflwyno i blant ac oedolion, ond ar hyn o bryd mae’r meini prawf cymhwysedd a’r taliadau yn dal yr un fath ag o dan fudd-daliadau blaenorol y Deyrnas Unedig.[167] Mae Llywodraeth yr Alban wrthi’n raddol yn cyflwyno Taliad Plant newydd yn yr

---

[165] Y Rapporteur Arbennig ar dlodi eithafol a hawliau dynol, 2019. Report of the Special Rapporteur on extreme poverty and human rights on his visit to the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland. https://documents-dds-ny.un.org/doc/UNDOC/GEN/G19/112/13/PDF/G1911213.pdf?OpenElement

[166] Reed, H., a Portes, J., 2019. *Cumulative impact assessment of tax and social security reforms in Northern Ireland*. https://nihrc.org/publication/detail/cumulative-impact-assessment-of-tax-and-social-security-reforms-in-northern

[167] Llywodraeth yr Alban, 2022. *Social Security – Disability Assistance.* https://www.gov.scot/policies/social-security/benefits-disabled-people-ill-health/

Alban (SCP),[168] ond mae angen sicrhau bod yr holl deuluoedd cymwys yn derbyn y budd-dal a bod taliadau'n cynyddu'n unol â chwyddiant.[169] Gall Llywodraeth yr Alban hefyd liniaru'r argyfwng costau byw trwy roi sylw i faterion fel dyled gyhoeddus, costau tai a defnyddio Cronfa Les yr Alban.[170]

Yng **Nghymru**, ymhlith y datblygiadau diweddar i'w croesawu mae estyn ymhellach fwyd gwyliau ysgol (gweler isod) a darparu gweithgareddau ar gyfer plant oed ysgol.[171] Mae Cynllun Mwyafu Incwm Tlodi Plant Llywodraeth Cymru[172] hefyd i'w groesawu ac yn cynnwys ymgyrchoedd penodol i gynyddu ymwybyddiaeth o fudd-daliadau a'r hyn y gellir ei hawlio, sydd wedi arwain at fwy o bobl yn manteisio ar hynny. Fodd bynnag, fel y clywir droeon yng ngalwadau CPC, dylid rhoi mentrau ar waith trwy gynllun cyflawni sydd â chanlyniadau mesuradwy ar gyfer tlodi plant.[173]

### Tlodi yn ystod yr ymateb i bandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw

Er i'r pandemig gael effaith ddifrifol ar yr economi, gostyngodd tlodi plant rywfaint yn 2020-21. Roedd hyn yn rhannol oherwydd gostyngiad cyffredinol yn y canolrif incwm, ond hefyd o ganlyniad i ymyriadau sylweddol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ar ffurf Cynllun Cadw Swyddi'r Coronafeirws, Cynllun Cynnal Incwm i'r Hunangyflogedig, ac ychwanegiad o £20 i lwfans safonol Credyd Cynhwysol.[174] Mae dileu'r ychwanegiad hwnnw ym mis Hydref 2021 cyn yr argyfwng costau byw, er gwaethaf galwadau gan y Comisiynwyr i'w gadw, wedi golygu bod aelwydydd incwm

---

168 Llywodraeth yr Alban, 2022. *Scottish Child Payment.* https://www.mygov.scot/scottish-child-payment

169 CYPCS, CPC a NICCY, 2022. *Statement: Scotland, Wales and Northern Ireland Commissioners call on Governments to address cost-of-living.* https://www.cypcs.org.uk/news-and-stories/statement-scotland-wales-and-northern-ireland-commissioners-call-on-governments-to-address-cost-of-living/

170 Llywodraeth yr Alban, 2022. *Scottish Welfare Fund - help with living costs*. https://www.mygov.scot/scottish-welfare-fund

171 Dyrannodd cynlluniau'r Haf o Hwyl a'r Gaeaf Llawn Lles yn 2021-22 arian i gefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon, diwylliannol a seiliedig ar chwarae. Dyrannodd cynlluniau'r Haf o Hwyl a'r Gaeaf llawn Lles yn 2021-22 gronfeydd i gefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon, diwylliannol a chwarae.

172 Llywodraeth Cymru, 2022. *Tlodi Plant: cynllun mwyafu incwm 2020 i 2021.* https://gov.wales/child-poverty-income-maximisation-action-plan-2020-2021-html

173 CPC, 2019. *Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn Plant Cymru rhag Effaith Tlodi.* https://www.childcomwales.org.uk/a-charter-for-change-protecting-welsh-children-from-the-impact-of-poverty-2/ ; CPC, 2022. *Adroddiad blynyddol a Chyfrifon 2021-22.* https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/10/Annual-Report-and-Accounts-2021-22.pdf

174 Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 2022. *Poverty in the UK: statistics* https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/sn07096/

isel a fu o bosib yn llwyddo i ymdopi o drwch blewyn yn y gorffennol, yn awr yn methu fforddio costau cynyddol hanfodion sylfaenol, gan gynnwys bwyd a thanwydd.

Wedi i'r rhan fwyaf o fesurau yng 'nghyllideb fechan' Medi 2022 gael eu gwyrdroi, cadarnhaodd Datganiad hydref mis Hydref 2022 y byddai budd-daliadau oedran gwaith yn cael eu codi 10.1%, ond nid tan fis Ebrill 2023. Fodd bynnag, mae'r terfyn dau blentyn a'r cap budd-daliadau yn dal yn eu lle[175] [176]. Mae'r Comisiynwyr yn pryderu y bydd anghydraddoldeb a thlodi yn dal eu tir, ac mai plant fydd yn cario'r baich.[177]

Mae'r tri Chomisiynydd wedi galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig i roi sylw i effaith yr argyfwng costau byw ar blant a'u teuluoedd, gan gynnwys trwy ddiwygio lles:

> *"The UK and devolved Governments are failing in their obligation to use all available resources to the maximum extent possible to ensure children's rights. Every Government must take a children's rights-based approach to how it monitors and responds to this crisis over the coming months. We must see deliberate and targeted action to mitigate its impact on children and their ability to access and experience their rights."*[178]

Mae prisiau ynni yn y cartref wedi codi'n sydyn yn y Deyrnas Unedig yn ystod y 18 mis diwethaf. Mae'r rheoleiddiwr ynni, Ofgem, yn gosod capiau pris ar gyfer y cyflenwad ynni yn yr Alban a Chymru.[179] Mae trefniadau gwahanol mewn grym yng Ngogledd Iwerddon.[180] Ym mis Awst 2021, roedd y cap pris yn £1,277 yn achos

---

[175] Er ei fod wedi cynyddu 10.1%, hwn oedd y cynnydd cyntaf ers iddo gael ei ostwng o £26,000 i £22,000 yn 2016. O fis Ebrill 2023 bydd yn £22,020.

[176] Llywodraeth y Deyrnas Unedig. 2022. Autumn Statement 2022. https://www.gov.uk/government/publications/autumn-statement-2022-documents/autumn-statement-2022-html

[177] CYPCS, CPC ac NICCY, 2022. *Children's Commissioners warn that poverty persists and children will bear the burden.* https://www.cypcs.org.uk/news-and-stories/childrens-commissioners-warn-poverty-persists-and-children-will-bear-the-burden/

[178] CYPCS, CPC ac NICCY, 2022. *Statement: Scotland, Wales and Northern Ireland Commissioners call on Governments to address cost-of-living.* https://www.cypcs.org.uk/news-and-stories/statement-scotland-wales-and-northern-ireland-commissioners-call-on-governments-to-address-cost-of-living/

[179] Ofgem, 2022. Energy price cap explained. https://www.ofgem.gov.uk/information-consumers/energy-advice-households/check-if-energy-price-cap-affects-you DS mae'r dudalen hon yn cynnwys gwybodaeth anghywir am y Gwarant Pris Ynni.

[180] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 1 Tachwedd 2022. Energy Bill support for Northern Ireland households launches. https://www.gov.uk/government/news/energy-bill-support-for-northern-ireland-households-launches

aelwyd nodweddiadol. Ym mis Medi 2022 rhoddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei le Warant Pris Ynni o £2,500 ar gyfartaledd[181]. Mae cyfathrebu aneglur wedi achosi dryswch, gan fod llawer yn deall y bydd hynny'n golygu na fyddant yn talu mwy na £2,500. Mewn gwirionedd, bydd llawer o aelwydydd yn talu mwy na hynny, a bydd nifer anghymesur o'r rheiny yn deuluoedd sydd â phlant.[182] Bydd y Gwarant Pris Ynni yn codi i £3,000 ym mis Ebrill 2023.[183] Mae llywodraethau datganoledig wedi rhoi mesurau lliniaru wedi'u targedu ar waith, ond mae llawer o deuluoedd yn wynebu biliau anfforddiadwy a'r posibilrwydd o gael eu datgysylltu, neu eu gorfodi i ddefnyddio mesurydd rhagdal, os byddant yn llithro i ôl-ddyledion.[184]

Yn achos rhai teuluoedd, mae dyled i gyrff cyhoeddus yn cael effaith sylweddol ar wariant yr aelwyd. Mae hyn yn cynnwys ôl-ddyledion rhent a threth y cyngor; dyled prydau ysgol; a gofynion i ad-dalu gordaliadau Credyd Cynhwysol a budd-daliadau eraill.[185]

**Argymhellion**

- Dylai plant gael mynediad at system nawdd cymdeithasol sy'n rhwyd ddiogelwch effeithiol i bawb yn y gymdeithas, yn arbennig plant a'u teuluoedd.
- Dylid diddymu'r terfyn dau blentyn a'r cap budd-daliadau, ac ailgychwyn yr ychwanegiad wythnosol o £20 i Gredyd Cynhwysol.
- Dylid codi pob budd-dal, o leiaf i gyfateb i chwyddiant.
- Dylid gweithredu'n llawn argymhellion Rapporteur Arbennig y CU ar Dlodi Eithafol a Hawliau Dynol.

---

[181] Ar adeg ysgrifennu, mae cyhoeddiad newydd ei wneud y bydd y cap yn codi i £4,279 ym mis Ionawr 2023.

[182] Independent, 30 Medi 2022. *Truss accused of 'repeatedly misleading' public over energy bills.* https://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/martin-lewis-energy-price-cap-b2177884.html

[183] Fraser of Allander Institute, 18 Tachwedd 2022. *Energy Price Guarantee is now less generous but will play a role in fighting inflation.* https://fraserofallander.org/energy-price-guarantee-is-now-less-generous-but-will-play-a-role-in-fighting-inflation/

[184] CYPCS, 2022. *Children's Commissioner urges Ofgem to ban compulsory installations of pre-payment meters, warning of dire consequences for children*. https://www.cypcs.org.uk/news-and-stories/childrens-commissioner-urges-ofgem-to-ban-compulsory-installations-of-pre-payment-meters-warning-of-dire-consequences-for-children/

[185] Aberlour, 2022. *Low-Income Families in Scotland Are Facing Soaring Debt To Public Bodies.* https://www.aberlour.org.uk/news-item/new-report-debt-to-public-bodies

- Yng Ngogledd Iwerddon, dylid datblygu Strategaeth Gwrthdlodi, gyda ffocws ar ddileu tlodi plant, gan gynnwys trwy gyflwyno taliad newydd i'r plentyn, lliniaru newidiadau i Nawdd Cymdeithasol, lleihau costau cysylltiedig ag addysg, a gofal plant hygyrch a fforddiadwy.
- Dylai Llywodraeth Cymru osod targedau uchelgeisiol ar gyfer lleihau tlodi plant a datblygu a gweithredu cynllun cynhwysfawr i ddelio â thlodi plant, gyda chanlyniadau y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn.
- Yn ystod yr argyfwng costau byw presennol, dylai llywodraethau weithredu i sicrhau bod pob teulu ar incwm isel yn gallu cynnal safon byw sy'n ddigonol.
- Ni ddylid adennill dyledion i gyrff cyhoeddus mewn modd sy'n gweithredu yn erbyn lles pennaf plant.

**Tai digonol**

Mae'n anodd canfod beth yw gwir lefel digartrefedd ac ansicrwydd tai ymhlith plant, teuluoedd a phobl ifanc, oherwydd bod hynny'n aml yn 'guddiedig' neu'n 'anffurfiol ei natur'.

Mae diffyg tai addas yn aml yn golygu bod plant a'u teuluoedd yn treulio cyfnodau hir mewn llety dros dro. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar deuluoedd sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid, ac eraill sy'n destun rheoli mewnfudo. Mae pobl ifanc[186] sy'n byw'n annibynnol, y mae gan lawer ohonynt brofiad o ofal, yn wynebu rhwystrau i sicrhau tenantiaethau tymor hir priodol. Mae diffyg tai teulu hygyrch i blant ag anabledd a'u teuluoedd yn golygu bod llawer o deuluoedd yn byw mewn tenantiaethau ansicr neu dai amhriodol.[187]

Yng **Nghymru**, mae mynediad at gymorth tai yn gofyn bod yr Awdurdod Tai Lleol yn penderfynu a yw'r ymgeisydd yn un ag 'angen blaenoriaeth', ac os felly, a yw'n 'fwriadol ddigartref'. Mae canfyddiad o fwriad yn arwain at oblygiadau o ran mynediad at dai cymdeithasol a chymorth parhaus. Mae hynny'n effeithio ar blant ac yn eu cosbi heb gydnabod eu hanghenion.

Amlygodd ymchwiliad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr bryderon sylweddol ynghylch safon

---

[186] Gan gynnwys plant 16 ac 17 oed.

[187] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), 2018. Housing *and Disabled People: Scotland's Hidden.* https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/housing-and-disabled-people-scotland-hidden-crisis-long-summary.pdf; Homelessness and Housing Insecurity impacting Children and Young People- Scoping Study April 2022- NICCY, pending.

cyfleusterau, argaeledd a lleoliad y safleoedd sy'n cael eu darparu, a lefel yr hiliaeth a'r gwahaniaethu yn eu herbyn yr adroddwyd amdanynt.[188] Er ein bod yn croesawu ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn wrth dderbyn yr argymhellion,[189] rhaid gweithredu ar frys i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal.

Yn **yr Alban**, mae'r rhestrau aros ar gyfer tai cymdeithasol a chyhoeddus yn dal yn uchel.[190] Mae plant sy'n byw mewn tai a osodir yn breifat yn fwy tebygol o deimlo effaith y Cap Budd-daliadau oherwydd bod y rhenti'n sylweddol uwch yn y sector yma. Mewn ymateb i'r argyfwng costau byw presennol, mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi amddiffyniadau dros dro i denantiaid preifat a chymdeithasol y gaeaf yma,[191] ond mae angen gweithredu yn y tymor hir i roi sylw i brinder tai addas ar gyfer teuluoedd. Mae angen sicrhau bod o leiaf dwywaith cymaint o dai cymdeithasol newydd yn cael eu hadeiladu i ymateb i'r galw.[192]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae'r ystadegau cyfyngedig sydd ar gael yn dangos bod plant dibynnol gan 27% o'r aelwydydd a dderbyniwyd fel rhai statudol ddigartref rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2021. Bydd cynnydd o 55% yn nifer y plant sydd mewn llety dros dro rhwng 2019 a 2022.[193]

**Argymhelliad**

- Dylai pob llywodraeth wella argaeledd tai fforddiadwy ar draws deiliadaethau, gyda ffocws arbennig ar deuluoedd sydd ag angen blaenoriaeth a phlant sy'n byw'n annibynnol.

---

[188] Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru, 2022. *Darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr.* https://senedd.wales/media/lktpwocm/cr-ld15300-e.pdf

[189] Llywodraeth Cymru, 2022. Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Ddarparu Safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr. https://business.senedd.wales/documents/s130158/Welsh%20Government%20response%20to%20report.pdf

[190] Llywodraeth yr Alban, 2022. *Housing* Statistics *2020 & 2021: Key Trends Summary.* https://www.gov.scot/publications/housing-statistics-2020-2021-key-trends-summary/

[191] Shelter Scotland, 2022. *Your housing rights in the cost of living crisis.* https://scotland.shelter.org.uk/housing_advice/cost_of_living

[192] Joseph Rowntree Foundation, 2020. *Poverty in Scotland 2020.* https://www.jrf.org.uk/report/poverty-scotland-2020

[193] Department for Communities, 2022. *Northern Ireland Homelessness Bulletin July-December 2021*. https://www.communities-ni.gov.uk/publications/northern-ireland-homelessness-bulletin-july-december-2021

**Ansicrwydd bwyd**

Mae ansicrwydd bwyd yn dal yn broblem ddifrifol i blant ar draws y Deyrnas Unedig, ac mae hynny bellach wedi gwaethygu yn sgîl yr argyfwng costau byw. Ym mis Medi 2022, roedd y Sefydliad Bwyd (Food Foundation) yn amcangyfrif bod mwy nag un o bob pedair aelwyd â phlant wedi profi ansicrwydd bwyd yn ystod y mis diwethaf – amcangyfrifir bod hynny'n 4 miliwn o blant ar draws y Deyrnas Unedig.[194]

Er bod y Trussell Trust wedi sôn am ostyngiad rhwng 2019/20 a 2021/22 yn nifer y parseli bwyd a ddosbarthwyd i blant gan ei rwydwaith yn **yr Alban** a **Chymru**, dangosodd data a gasglwyd ar ran yr Ymddiriedolaeth ynghylch defnydd o'r holl fanciau bwyd yn y ddwy wlad (gan gynnwys rhai y tu allan i rwydwaith Trussell Trust) fod yr angen ar gyfartaledd yn yr Alban a Chymru mewn gwirionedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gwelwyd y cynnydd mwyaf ar draws y Deyrnas Unedig yng **Ngogledd Iwerddon**, lle dosbarthwyd 39% yn fwy o barseli i blant ers 2019.[195]

Mae prydau ysgol am ddim ar gael i ryw raddau ar draws yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, ac mae'r meini prawf cymhwysedd yn amrywio. Nid yw pob plentyn sydd mewn tlodi yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Dylid adolygu'r meini prawf cymhwysedd i sicrhau bod pob plentyn mewn angen yn derbyn prydau ysgol am ddim. Er i ddarpariaeth yn lle prydau ysgol am ddim gael ei threfnu dros dro o ganlyniad i bandemig COVID-19, mae angen gwneud hynny'n rhywbeth parhaol.

Bu oedi wrth estyn prydau ysgol am ddim i'r holl blant ysgol gynradd yn **yr Alban**, ac er bod CYPCS yn cefnogi estyn hynny i blant ysgol uwchradd, mae angen ystyried hynny ymhellach, gan roi sylw i farn plant.[196] Gallai cynyddu'r ddarpariaeth gyffredinol, ynghyd â'r trothwy isel ar gyfer prydau ysgol am ddim, effeithio ar y rhai sy'n manteisio ar gefnogaeth yn ystod gwyliau'r ysgol.[197]

---

[194] The Food Foundation, 2022. *New data show 4 million children in households affected by food insecurity.* https://foodfoundation.org.uk/publication/new-data-show-4-million-children-households-affected-food-insecurity

[195] The Trussell Trust, 2022. *Trussell Trust data briefing on end-of-year statistics relating to use of food banks: April 2021 – March 2022.* https://www.trusselltrust.org/wp-content/uploads/sites/2/2022/04/EOY-Stats-2022-Data-Briefing.pdf

[196] CYPCS, 2022. Expanding universal school meals for all nursery, primary and secondary pupils (Submission to Scottish Parliament Citizen Participation and Public Petitions Committee). https://www.cypcs.org.uk/resources/pe1926-expand-universal-school-meals-for-all-nursery-primary-and-secondary-school-pupils/

[197] CYPCS, 2022. Expanding universal school meals for all nursery, primary and secondary pupils (Submission to Scottish Parliament Citizen Participation and Public Petitions Committee). https://www.cypcs.org.uk/resources/pe1926-expand-universal-school-meals-for-all-nursery-primary-and-secondary-school-pupils/

Yng nghytundeb cydweithio **Llywodraeth Cymru** gyda Phlaid Cymru, maen nhw wedi ymrwymo i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd erbyn 2024.[198]

Yng **Ngogledd Iwerddon** nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i ddarparu prydau ysgol am ddim yn gyffredinol i unrhyw grŵp oedran o blant.

**Argymhellion**

- Dylai plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim barhau i dderbyn cefnogaeth yn ystod gwyliau'r ysgol, i sicrhau nad yw plant yn llwglyd pan na fyddant yn yr ysgol.

- Dylid adolygu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim a chefnogaeth arall er mwyn sicrhau, o leiaf, bod pob plentyn sydd mewn tlodi yn gymwys.

## 21. Effaith y newid yn yr hinsawdd ar hawliau'r plentyn

Mae diraddio amgylcheddol a'r newid yn yr hinsawdd yn faterion pwysig i blant, ac maen nhw wedi ymarfer eu hawl o ran rhyddid i ymgynnull a chyfranogi, gan ymgyrchu dros weithredu ar frys.

Yng **Ngogledd Iwerddon** ni fu fawr ddim ymgysylltu â phlant ynghylch materion amgylcheddol, ac mae'r cynnydd o ran y newid yn yr hinsawdd wedi bod yn araf. Rhaid i ymrwymiadau gan y weithrediaeth i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a diraddio amgylcheddol[199] fod yn blentyn-ganolog, a chynnwys ymgysylltu ystyrlon â phlant.

Cyflwynwyd y Ddeddf Teithio Llesol (2013) yng **Nghymru**, ond canfu Pwyllgor Seneddol yn 2018 fod teithio llesol wedi lleihau ymhlith plant oedd yn teithio i'r ysgol.[200] Pasiodd Senedd Cymru ddeddfwriaeth i ostwng y terfyn cyflymder

---

[198] Llywodraeth Cymru, 2022. *Y cynllun prydau ysgol am ddim i bawb yn cychwyn cael ei weithredu ym mis Medi*. https://gov.wales/universal-free-school-meals-roll-out-commence-september

[199] Swyddfa Gogledd Iwerddon, 2020. *New Decade, New Approach*. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/856998/2020-01-08_a_new_decade__a_new_approach.pdf

[200] National Assembly for Wales, Economy, Infrastructure and Skills Committee, 2018. *Post Legislative Scrutiny of the Active Travel (Wales) Act 2013.* https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11566-r/cr-ld11566-r-e.pdf

cenedlaethol diofyn ar ffyrdd preswyl a strydoedd cerddwyr o 30 mya i 20 mya. Bydd hyn yn dod i rym ym mis Medi 2023.[201]

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bump o filiau fel rhan o'i rhaglen ddeddfwriaethol, gyda ffocws ar gefnogi'r amgylchedd a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.[202] Roedd hyn yn cynnwys Bil Aer Glân a fydd yn ceisio gwella ansawdd aer a gostwng lefel allyriadau. Dylai hyn geisio ymdrin ag effaith anghymesur llygredd aer ar deuluoedd incwm isel a chymunedau Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig.[203]

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi cynllun ymgysylltu mewn ymateb i argyfwng yr hinsawdd, ond dylent gymryd camau pellach i amlinellu sut yn union bydd hyn yn cynnwys plant.[204]

Yn 2021, croesawyd Cynhadledd Newid Hinsawdd y CU (COP26) i Glasgow. Bu hyn yn ganolbwynt pwysig ar gyfer ymgysylltu â phlant yn **yr Alban**, gan gynnwys cefnogaeth gan CYPCS i amlygu hawl plant i brotestio. Ar 29 Hydref 2021, bu dros 2000 o blant yn yr Alban yn cymryd rhan yn 'The Moment' ac yn cwrdd â llunwyr penderfyniadau ar draws yr Alban i siarad am eu galwadau i weithredu ynghylch yr hinsawdd.[205] Er bod canolbwyntiau ymgysylltu i'w croesawu, mae rhwystredigaeth ynghylch arafwch y camau yn sgîl hynny.

Mae gan blant syniadau clir ynghylch sut mae diogelu eu hiechyd eu hunain a iechyd y blaned, a sicrhau eu hawl i gael amgylchedd iach. Rhaid iddynt chwarae rhan weithredol wrth ganfod atebion a newidiadau polisi a deddfwriaeth i argyfwng yr hinsawdd.

**Argymhellion:**

- Dylid ystyried hawliau plant wrth ddatblygu a gweithredu pob strategaeth i leihau diraddio amgylcheddol a'r newid yn yr hinsawdd.

---

[201] Llywodraeth Cymru, 2022. *Y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig – Senedd Cymru yn cymeradwyo deddfwriaeth 20 mya*. https://gov.wales/uk-first-welsh-senedd-gives-green-light-20mph-legislation

[202] Llywodraeth Cymru, 2022. *Agenda werdd Cymru.* https://gov.wales/wales-green-agenda-first-minister-announces-welsh-governments-legislative-programme

[203] Friends of the Earth Cymru, 2022. *Research shows link between income and air pollution.* https://foe.cymru/research-shows-link-between-income-and-air-pollution

[204] Llywodraeth Cymru, 2022. *Y Newid yn yr Hinsawdd: Dull Ymgysylltu Llywodraeth Cymru 2022-26.* https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-08/engagement-approach-around-climate-change-2022-26.pdf

[205] Children's Parliament, 2021. *The Moment.* https://climatechangemakers.childrensparliament.org.uk/the-moment/

- Dylai pob plentyn gael cyfle i fod yn gyfranogwyr gweithredol wrth ddatblygu polisi.

- Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir gynllun ar gyfer sut bydd plant yn cyfranogi yn ymateb Llywodraeth Cymru i argyfwng yr hinsawdd.

## H. Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol (erthyglau 28–31)

### 22. Addysg

Cafodd pandemig COVID-19 effaith ddwys ar addysg plant. Cafwyd profiadau cymysg o ddysgu ar-lein, weithiau hyd yn oed o fewn yr un ysgol, ac yn arbennig yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Roedd plant anabl, o leiafrifoedd ethnig a phlant â phrofiad o ofal ymhlith y grwpiau yr effeithiwyd yn anghymesur arnynt, ond y rhai a wynebodd yr effaith negyddol fwyaf oedd plant yn byw mewn tlodi, yn arbennig os buon nhw hefyd yn profi eithrio digidol.[206]

Yn 2020 a 2021, cafodd yr arholiadau cenedlaethol eu canslo ym mhob un o'r tair awdurdodaeth. Yn 2020, mynegwyd pryderon difrifol ynghylch y defnydd o algorithmau i addasu graddau, ac addaswyd y canlyniadau wedi hynny, ar sail amcangyfrifon athrawon. Yn 2021, gwnaed addasiadau i asesiadau. Fodd bynnag, soniodd plant am lawer iawn o asesiadau mewnol wrth i ysgolion geisio casglu tystiolaeth i gefnogi amcangyfrifon athrawon.

Yn ogystal â'r effaith ar ddysgu, torrodd cau ysgolion ar draws cyfleoedd plant i gymdeithasu a chwarae. Yn achos plant oedd yn derbyn cefnogaeth ychwanegol ar gyfer anabledd neu am resymau eraill yn ystod y diwrnod ysgol, megis therapi lleferydd, cwnsela a ffisiotherapi, amharwyd ar y gwasanaethau hynny yn ogystal.

**Cefnogaeth i blant ag anabledd a phlant ag anghenion cefnogi eraill**

Ym mhob un o'r tair awdurdodaeth, mae'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau cefnogi i blant anabl a'r rhai sydd ag anghenion cefnogi eraill (ADY yng Nghymru,[207] SEN yng Ngogledd Iwerddon,[208] ac ASN yn yr Alban[209]) yn annigonol.  Er bod

---

[206] Education Scotland, 2020. *Equity Audit.* https://education.gov.scot/improvement/scotland-learns/resources-for-practitioners/scottish-attainment-challenge-2020-21-equity-in-education/equity-audit/ ; CCfW, 2022, *Coronavirus and Me surveys*. https://www.childcomwales.org.uk/coronavirus-our-work/

[207] Anghenion Dysgu Ychwanegol

[208] Anghenion Addysgol Arbennig

deddfwriaeth a pholisi wedi cael eu hadolygu, mae plant yn dal i wynebu oedi annerbyniol wrth asesu a chanfod anghenion cefnogi. Mae gwasanaethau wedi'u hintegreiddio'n wael, yn arbennig y diffyg cydlynu rhwng addysg a iechyd.

Er bod fframweithiau cyfreithiol yn wahanol ym mhob awdurdodaeth,[210] mae'r themâu cyffredin yn cynnwys diffyg cyfranogiad gan blant a'u teuluoedd mewn penderfyniadau, cymhwyso deddfwriaeth a chanllawiau yn anghyson, a rhwystrau i gyflawni hawl i rwymedi. Mae'r cynlluniau pontio, wrth i blant symud o un cyfnod addysgol i'r nesaf, neu o wasanaethau plant i rai oedolion, yn aml yn wael.

Yng **Nghymru**, bwriad y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yw gwella cymorth integredig a ddarperir i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae hefyd yn gofyn bod barn plant a'u teuluoedd yn cael ei chymryd i ystyriaeth, a bod gwybodaeth ar gael yn hwylus i blant a'u teuluoedd ynghylch beth gallan nhw ei hawlio. Fodd bynnag, yn 2022 mae darpariaethau'r Ddeddf yn dal heb eu gwreiddio'n gyson ar draws Cymru, ac mae CPC yn dal i glywed yn rheolaidd bod y materion y lluniwyd y Ddeddf i ymdrin â nhw yn dal i ddigwydd.

Mae byrddau iechyd Cymru yn dal i fethu'n rheolaidd i gyflawni'r targed o 26 wythnos ar gyfer asesiad cychwynnol i'r gwasanaethau niwroddatblygiadol. Datgelodd cais rhyddid gwybodaeth ym mis Chwefror 2022 fod cyfanswm o 9,014 o blant, ar adeg y data a gasglwyd ar gyfer y ciplun penodol hwnnw, yn aros am asesiad niwroddatblygiadol yng Nghymru. O'r rhain, roedd mwy nag un o bob tri wedi bod yn aros ers dros flwyddyn.[211] Yn 2022, ymrwymodd Llywodraeth Cymru gyllid i wella gwasanaethau niwroddatblygiadol a sefydlu Grŵp Cynghori Gweinidogol.[212] Mae plant ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yn rhy aml yn profi gwasanaethau digyswllt, ac yn aml nid ydynt yn ymwneud â'u trefniadau pontio i wasanaethau oedolion.[213] Mae Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022-2026[214] yn

---

[209] Anghenion Cefnogi Ychwanegol

[210] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. https://gov.wales/additional-learning-needs-and-education-tribunal-wales-act; Education (Additional Support for Learning) (Scotland) Act 2004 (as amended). https://www.legislation.gov.uk/asp/2004/4/contents

[211] Llywodraeth Cymru, 2022. *Ymateb i Gais Rhyddid Gwybodaeth – Asesiadau Awtistiaeth.* https://gov.wales/atisn16267

[212] Llywodraeth Cymru, 2022. *Datganiad Ysgrifenedig: Gwelliannau i Gyflyrau Niwroddatblygiadol*. https://gov.wales/written-statement-improvements-neurodevelopmental-conditions-services

[213] CPC, 2018. *Paid dal yn ôl*. https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/Dont-Hold-Back.pdf

[214] Llywodraeth Cymru, 2022. *Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022-2026*. https://gov.wales/learning-disability-strategic-action-plan-2022-2026-html

cynnwys ymrwymiad i adolygu darpariaeth gwasanaethau plant a phobl ifanc, ac ymrwymiad i hybu gwaith ar y cyd, gan gynnwys gwasanaethau pontio.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, bu oedi hirfaith wrth roi'r fframwaith polisi a deddfwriaeth newydd ar waith, sy'n rhan hanfodol o ymdrin â methiannau systemig yn y system SEND.[215]

Yn **yr Alban**, mae nifer y plant sydd â Chynlluniau Cefnogi Cydlynus (CSP) yn dal i ostwng, gan adael mynediad cyfyngedig at hawl i rwymedi. Mae nifer y plant awtistig sydd allan o'r ysgol, a heb dderbyn fawr ddim cefnogaeth addysgol, os o gwbl, yn destun pryder.[216] Mae cyfraddau cyrhaeddiad plant ag anghenion cefnogi ychwanegol (gan gynnwys plant anabl a'r rhai â phrofiad o ofal) yn sylweddol is na rhai eu cyfoedion.[217] Mae'r gefnogaeth gofal cymdeithasol i blant ag anabledd, gan gynnwys gofal seibiant, yn dal yn anodd ei chyrchu.[218]

**Argymhellion:**

- Dylai plant ag anabledd a'r rhai sydd ag anghenion eraill dderbyn y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen i wireddu eu hawl i gael addysg sy'n datblygu eu personoliaeth, eu doniau a'u galluoedd corfforol a meddyliol hyd eithaf eu potensial.

- Dylai prosesau asesu gael eu hadolygu, gan ddarparu adnoddau digonol i sicrhau bod anghenion plant anabl yn cael eu nodi'n brydlon.

- Dylai plant a'u teuluoedd gael mynediad at rwymedi effeithiol lle na ddarparwyd cefnogaeth angenrheidiol.

---

[215] NICCY, 2020. *'Too Little, Too Late,' A Rights Based Review of Special Educational Needs Provision in Mainstream Schools*. https://www.niccy.org/review-of-sen-provision-too-little-too-late/ ; Department of Education, undated. *New SEN Framework*. https://www.education-ni.gov.uk/articles/review-special-educational-needs-and-inclusion

[216] Children in Scotland et al, 2018. *Not included, not engaged, not involved: A report on the experiences of autistic children missing school*. https://www.notengaged.com/; further engagement with children supported by Children's Health Scotland.

[217] Llywodraeth yr Alban, 2022. *Summary Statistics for Attainment and Initial Leaver Destinations, No. 4: 2022 Edition*. https://www.gov.scot/publications/summary-statistics-attainment-initial-leaver-destinations-no-4-2022-edition/pages/6/

[218] Llywodraeth yr Alban, 2019. *Additional Support for Learning Review.* https://www.gov.scot/groups/additional-support-for-learning-review/

**Gwaharddiadau o'r Ysgol**

Mae patrwm sy'n destun pryder yn parhau o ran gwaharddiadau parhaol/dros dro ffurfiol neu anffurfiol ar draws y tair awdurdodaeth.[219] Mae'r rhain yn aml naill ai heb eu cofnodi, neu'n cael eu cofnodi fel rhywbeth arall, gan arwain at ddiffyg data cywir. Mae plant ag anabledd yn arbennig o agored i niwed yn sgîl gwaharddiadau ffurfiol ac anffurfiol/anghyfreithlon o'r ysgol. Mae ysgolion yn defnyddio mesurau o'r fath oherwydd diffyg capasiti i gefnogi anghenion addysg, ymddygiad neu iechyd y plant hyn.[220]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae nifer anghymesur o blant sydd ag AAA yn profi gwaharddiadau dros dro/parhaol ffurfiol ac anffurfiol, gan arwain at risg gynyddol o ynysu a cholli amser addysgu. Eglurwyd hyn yn nhermau adnoddau a chapasiti annigonol i gefnogi anghenion plant, gan gynnwys diffyg gwasanaethau cefnogi ymddygiad[221].

Yn **yr Alban**, mae CYPCS hefyd yn pryderu ynghylch tystiolaeth anecdotaidd, ond cyson, ynghylch plant ag anabledd, gan gynnwys rhai â chyflyrau iechyd meddwl, yn cael eu hannog i adael yr ysgol yn 16 oed, ac mewn rhai achosion cyn hynny.[222]

Yng **Nghymru** mae CPC wedi bod yn pryderu'n arbennig ynghylch arferion gwahardd, gan gynnwys tynnu plant oed ysgol iau oddi ar gofrestr yr ysgol, neu 'off-rolling'[223], fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad *Blociau Adeiladu*[224] a'r adnoddau i gyd-fynd ag ef i ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru wedi addo canllawiau newydd ar gyfer

---

[219] NICCY, 2020. *Too Little, Too Late,' A Rights Based Review of Special Educational Needs Provision in Mainstream Schools.* https://www.niccy.org/review-of-sen-provision-too-little-too-late/; Yn yr Alban, mae gwaharddiadau parhaol yn eithriadol o brin, ond mae gwaharddiadau dros dro yn gyffredin. Yn 2020-21 roedd 8,323 o waharddiadau dros dro (cyfradd o 11.9 fesul 1,000 o ddisgyblion) ac 1 gwaharddiad parhaol. Llywodraeth yr Alban, 2022. School exclusion statistics. https://www.gov.scot/publications/school-exclusion-statistics/

[220] NICCY, 2020. *'Too Little, Too Late,' A Rights Based Review of Special Educational Needs Provision in Mainstream Schools*. https://www.niccy.org/review-of-sen-provision-too-little-too-late/

[221] Yng Ngogledd Iwerddon ers 2015, mae plant anabl ddwywaith mor debygol o gael eu gwahardd dros dro. NICCY, 2020. *Too Little, Too Late,' A Rights Based Review of Special Educational Needs Provision in Mainstream Schools.* https://www.niccy.org/review-of-sen-provision-too-little-too-late/; Children in Scotland et al., 2018. *Not Included, not engaged, not involved: a report on the experiences of autistic children missing school*. https://www.notengaged.com/

[222] Each Other and Includem, Excluded the Event. Summary forthcoming; CYPCS casework.

[223] 'Off-rolling' yw tynnu plentyn oddi ar gofrestr ysgol heb ddilyn y weithdrefn ar gyfer gwaharddiad parhaol.

[224] CPC, 2021. *Blociau Adeiladu: cynhwysiad yn y cyfnod sylfaen* https://www.childcomwales.org.uk/publications/building-blocks/

gwaharddiadau yn 2022/23, ac mae CPC yn gobeithio bydd hynny'n hybu agwedd fwy meithringar, sy'n canolbwyntio ar gefnogi'r plentyn.

**Argymhellion**

- Dylai plant sydd ddim yn mynd i'r ysgol, gan gynnwys oherwydd gwaharddiadau, gael eu cefnogi fel eu bod yn parhau i dderbyn addysg briodol ar hyd cyfnod y gwaharddiad.

- Rhaid i bob llywodraeth wneud mwy i leihau nifer y plant sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol yn ffurfiol, yn anffurfiol ac yn anghyfreithlon, ar sail barhaol neu dros dro.

**Mynediad anghyfartal**

Mae anghydraddoldebau'n bodoli ym mhob awdurdodaeth, ac mae llawer o blant, gan gynnwys plant sydd â phrofiad o ofal, plant ag anabledd, plant Teithwyr; plant o leiafrifoedd ethnig, cefndiroedd difreintiedig, a rhai sydd ag anghenion ychwanegol, yn wynebu rhwystrau sylweddol i addysg o safon uchel.[225]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae dethol academaidd ac addysgu ar wahân yn parhau i ddwysáu anghydraddoldeb, i roi mantais i blant o deuluoedd mwy cefnog, ac i atgyfnerthu rhaniadau cymdeithasol a chrefyddol.[226] Mae ymrwymiad y llywodraeth i weithredu *A Fair Start Action Plan* yn llawn, er mwyn rhoi sylw i'r cysylltiadau rhwng tangyflawni ym myd addysg ac anfantais gymdeithasol, i'w groesawu. Fodd bynnag, ni all y cynllun fod yn gwbl effeithiol ond gyda chydweithrediad gwleidyddol ac os bydd cyllid cynaliadwy ar gael yn y tymor hir. Mae pasio deddfwriaeth sy'n gosod dyletswydd statudol ar yr Adran Addysg i ddarparu cefnogaeth bellach i'r sector ysgolion integredig hefyd i'w groesawu.

Yn **yr Alban**, mae pryderon yn parhau ynghylch nifer y plant ag anhwylderau sbectrwm awtistig ac anableddau eraill nad ydynt yn mynychu'r ysgol, yn aml gyda'r ysgol neu'r awdurdod lleol yn bodloni ar hynny.[227] Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r

---

[225] NICCY, 2017. *Educational Inequalities and Inclusion Position Paper* https://www.niccy.org/publications/educational-inequalities-position-paper/ ; NICCY, 2020. *Education Briefing* https://www.niccy.org/publications/education-committee-briefing/

[226] Department of Education, 2020. *Northern Ireland Statistical Bulletin: Enrolments at Schools and in Funded Pre-School Education in Northern Ireland 2019/20.* https://www.education-ni.gov.uk/publications/school-enrolments-201920-statistical-bulletins

[227] Children in Scotland et al, 2018. *Not included, not engaged, not involved: A report on the experiences of autistic children missing school*. https://www.notengaged.com/

plant hyn yn derbyn fawr ddim darpariaeth addysgol amgen, os o gwbl.[228] Mae plant sy'n methu mynychu'r ysgol oherwydd afiechyd yn adrodd am lefelau anghyson o ddarpariaeth addysg. Dim ond rhyw draean o'r plant sydd yn yr ysbyty sy'n derbyn cefnogaeth addysgol yn unol â chanllawiau'r llywodraeth; weithiau mae plant ar yr un ward yn derbyn darpariaeth wahanol ar sail ble maen nhw'n byw.[229]

Yng **Nghymru**, mae i ba raddau y gall plant ar hyn o bryd gael mynediad i'w hawl i addysg wrth dderbyn triniaeth mewn ysbyty neu leoliad iechyd arall yn aneglur. Mae CPC yn ymchwilio i'r mater hwn yn awr er mwyn amlygu unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth a chanfod unrhyw anawsterau mae gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am gyflwyno'r hawl gyfreithiol hon yn eu hwynebu. Mae mynediad at addysg Gymraeg yn arbennig o broblematig i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan fod prinder cefnogaeth ADY arbenigol yn Gymraeg.

**Argymhellion**

- Dylai plant sydd ddim yn mynd i'r ysgol oherwydd afiechyd, p'un a ydynt yn yr ysbyty neu beidio, barhau i dderbyn addysg sy'n briodol i'w hanghenion. .

- Dylid trawsffurfio'r system addysg yng Ngogledd Iwerddon, trwy roi *A Fair Start* ar waith, gwahardd dethol academaidd, a hyrwyddo un system addysg.

- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod anghenion plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu cynnwys yn eu cynllun pum mlynedd ar gyfer y Gymraeg – *Mwy na Geiriau*.

**Rhwystrau ariannol i addysg**

Er bod addysg gynradd ac uwchradd yn ddi-dâl yn y tair awdurdodaeth, mae pryderon wedi bod yn cynyddu ynghylch cost ariannol mynychu'r ysgol. Mae gofyn bod rhieni a gofalwyr yn talu amrywiaeth o gostau ar draws y flwyddyn ysgol, gan gynnwys ffioedd ysgol/cyfraniadau 'gwirfoddol',[230] cost deunyddiau ar gyfer pynciau

---

[228] Gwaith ymgysylltu a wnaed gan CYPCS gyda phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

[229] Children's Health Scotland, 2019. *Children in Hospital 2018/2019 Survey.* https://www.childrenshealthscotland.org/wp-content/uploads/2019/10/191016-Children-in-Hospital-Survey-2018-19-FINAL.pdf

[230] Roedd prosiect *The Cost of the School Day*, a ddeilliodd o'r Alban, yn amlygu'r ystod o gostau ychwanegol mae teuluoedd yn eu hwynebu ar draws y flwyddyn ysgol. Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, 2022. *Cost of the School Day.* https://cpag.org.uk/cost-of-the-school-day. Yn 2017 bu NICCY hefyd yn cynnal arolwg o rieni/ofalwyr i bennu'r costau sy'n gysylltiedig ag addysg yng Ngogledd Iwerddon, gan adrodd bod teuluoedd, ar gyfartaledd, yn talu £1222 fesul plentyn. Cost of Education (niccy.org)

technegol, yn ogystal â theithiau ysgol ac ymweliadau preswyl a thaliadau ad hoc ar gyfer diwrnodau heb wisg ysgol a digwyddiadau codi arian. Mae cymhwysedd i dderbyn cymorth ariannol yn aml yn cael ei seilio ar gymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim, y mae'r trothwyon cymhwysedd ar eu cyfer wedi parhau'n ddisymud ers blynyddoedd lawer.[231]

Er bod cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i ysgolion mewn perthynas â'r cyfran o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yng **Ngogledd Iwerddon** nid oes gofyn bod ysgolion yn adrodd sut maent wedi defnyddio'r arian hwn er budd i ddisgyblion incwm isel.

Yn y tair awdurdodaeth, mae cost gwisg ysgol wedi cael ei amlygu fel rhwystr posibl i ddysgu, gyda rhai ysgolion yn mynnu neu'n bendant yn annog gwisgo eitemau cost uchel fel siacedi 'blazer', dillad penodol ar gyfer addysg gorfforol, neu eitemau eraill sy'n dwyn logo'r ysgol.[232] Mae merched yn adrodd eu bod yn wynebu rheolau gwisg ysgol llymach na bechgyn,[233] ac nad ydynt yn cael gwisgo trowsus mewn rhai ysgolion. Mae'r ffaith bod ysgolion yn gorfodi rheolau gwisg ysgol llym wedi golygu bod plant yn cael eu hanfon adref am wisgo gwisg ysgol anghywir neu anghyflawn.[234]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae teuluoedd ar incwm isel yn gymwys i gael grantiau gwisg ysgol. Er bod y rhain wedi codi 20% i £42.90 ar gyfer plant ysgol gynradd, ac uchafswm o £93.20 ar gyfer disgyblion 15+ oed, mae'r grantiau'n ddigon i dalu am ran fach o gost y wisg yn unig. Mae'r Adran Addysg wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ei pholisi ar wisg ysgol, a dylai hynny sicrhau bod gwisg ysgol yn addas at y diben, yn fforddiadwy, a bod y grantiau'n cyfateb i gostau gwirioneddol gwisg ysgol. Dylid ymgynghori â disgyblion a'u teuluoedd ynghylch dyluniad a chostau gwisg ysgol.

Yng **Nghymru**, mae grant o hyd at £300 fesul dysgwr ar gael i rai teuluoedd ar incwm is, y mae modd ei wario ar gostau gwisg ysgol neu gyfarpar arall cysylltiedig â'r ysgol.[235] Gall diffyg trafnidiaeth am ddim i rai dros 16 oed olygu bod rhai'n methu

---

[231] CYPCS, 2022. *PE1926 – Expand universal school meals for all nursery, primary and secondary school pupils.* https://www.cypcs.org.uk/resources/pe1926-expand-universal-school-meals-for-all-nursery-primary-and-secondary-school-pupils/

[232] Mae cost crys polo gyda logo, er enghraifft, yn aml sawl gwaith yn ddrutach na chost un plaen.

[233] CYPCS, 2022. *Statutory School Uniform Consultation.* https://www.cypcs.org.uk/resources/stat-school-uniform/

[234] Gan gynnwys yn yr Alban, lle nad oes sail gyfreithiol ar gyfer gwisg ysgol orfodol yn ysgolion y wladwriaeth. Gweler: Scott, J, 2017. *Education Law in Scotland*.

[235] Llywodraeth Cymru, 2022. *Grant Datblygiad Disgyblion - Mynediad.* https://gov.wales/pupil-development-grant-access

cyrraedd addysg cyfrwng Cymraeg, er mai dyna'u dewis iawn. Mae diffyg trafnidiaeth am ddim i leoliadau addysg ar gyfer dysgwyr dros 16 oed hefyd yn rhwystr, yn arbennig i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan eu bod yn aml heb opsiwn yn agos at eu cartref, ac mae angen iddyn nhw ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fynd ar daith sylweddol.

Yn **yr Alban**, mae grant gwisg ysgol ar gael, ond mae rôl i ganllawiau cenedlaethol sicrhau bod gwisgoedd ysgol yn fforddiadwy.[236] Mae trafnidiaeth i'r ysgol yn cael ei ddarparu i ysgol ddalgylch y plentyn (neu ysgol Gatholig y dalgylch), ond mae cymhwysedd statudol wedi'i gyfyngu i blant sy'n byw dros ddwy filltir o'r ysgol (tair milltir yn achos plant 8 oed a throsodd).[237] Mae cyflwyno teithio am ddim ar y bws i bob plentyn a pherson ifanc o dan 22 oed yn yr Alban yn golygu bod teithio ar fysiau cyhoeddus yn awr am ddim os yw ar gael. Fodd bynnag, gan nad yw hyn yn cynnwys teithiau fferi, mae plant yng nghymunedau'r ynysoedd o dan anfantais.

### Argymhellion

- Dylid cymryd camau effeithiol i leihau cost y diwrnod ysgol, gan gynnwys cynhyrchu canllawiau, polisi, a deddfwriaeth, lle bo angen.
- Dylai pob plentyn yng Nghymru a Gogledd Iwerddon gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus am ddim.
- Dylai Llywodraeth Cymru newid Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 fel ei fod yn cefnogi'n briodol anghenion trafnidiaeth i addysg plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r rhai sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Dylai Llywodraeth yr Alban estyn teithio am ddim i rai o dan 22 oed i gynnwys gwasanaethau fferi.

### Y Cwricwlwm

Yn groes i argymhelliad y Pwyllgor[238] y dylai addysg ystyrlon ar iechyd rhyw ac atgenhedlu fod yn rhan o'r cwricwlwm ysgol gorfodol ar gyfer pob ysgol yng **Ngogledd Iwerddon**, mae'r Adran Addysg yn mynnu bod ysgolion sy'n derbyn

---

[236] CYPCS, 2022. *Statutory School Uniform Consultation.* https://www.cypcs.org.uk/resources/stat-school-uniform/

[237] Llywodraeth yr Alban, 2022. *Free School Transport*. https://www.mygov.scot/free-school-transport

[238] Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, 2016. *Concluding Observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland*. https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%2fC%2fGBR%2fCO%2f5&Lang=en, 64.

cymorth grant [239] yn datblygu eu polisi eu hunain ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE). Mae hyn yn mynd yn groes i Adran 8 o'r *Northern Ireland (Executive Formation etc) Act 2019*, sy'n gofyn bod argymhellion CEDAW yn cael eu rhoi ar waith[240] ac felly bod cwricwlwm RSE gorfodol yn cael ei gyflwyno.

Mae cwricwlwm newydd wedi bod yn cael ei gyflwyno yng **Nghymru** ers mis Medi 2022. Mae'r cwricwlwm newydd i Gymru 00yn cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb oed-briodol orfodol, yn ogystal ag addysgu gorfodol ynghylch profiadau pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, fel rhan o hanes Cymru.

Yn **yr Alban** mae Trafodaeth Genedlaethol ar waith i archwilio dyfodol addysg yn yr Alban.[241] Mae hyn yn dilyn cyfres o adolygiadau, gan gynnwys Adolygiad OECD o Gwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban[242] a'r system arholiadau[243] ac o gyrff arholi, arolygu a chynghori ar addysg yn yr Alban.[244] Cafwyd cyfres o adolygiadau ar gefnogaeth ychwanegol i ddysgu. Yn ystod y Drafodaeth Genedlaethol mae'n hanfodol bod barn pob plentyn yn cael ei chlywed, gan gynnwys y rhai y mae eu hawl i gael addysg yn llai tebygol o gael ei gwireddu o dan y system bresennol, gan gynnwys plant anabl a phlant â phrofiad o ofal, rhai sydd â hanes o absenoldeb neu waharddiadau, a'r rhai sydd wedi gadael yr ysgol yn 16 oed. Mae angen sicrhau bod adnoddau priodol yn eu lle i gefnogi plant sy'n llai tebygol o gael eu clywed, a'u rhieni a'u gofalwyr, i gyfranogi yn y drafodaeth.

### Argymhellion

---

[239] Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn derbyn cymorth grant (yn cael eu hariannu gan y wladwriaeth). Mae'r ysgolion hyn yn dilyn y cwricwlwm diwygiedig.

[240] Pwyllgor y CU ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod, 2018. Adroddiad yr Ymchwiliad ynghylch Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon o dan erthygl 8 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Ddileu pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod, CEDAW/C/OP.8/GBR/1 https://tbinternet.ohchr.org/Treaties/CEDAW/Shared%20Documents/GBR/INT_CEDAW_ITB_GBR_8637_E.pdf

[241] Llywodraeth yr Alban, 2022. *National Discussion on education*. https://www.gov.scot/news/national-discussion-on-education/

[242] OECD, 2021. *Scotland's Curriculum for Excellence: Into the Future*. https://www.oecd.org/education/scotland-s-curriculum-for-excellence-bf624417-en.htm

[243] OECD, 2021. *Upper-secondary education student assessment in Scotland: A comparative perspective*. https://www.oecd.org/publications/upper-secondary-education-student-assessment-in-scotland-d8785ddf-en.htm

[244] Yr Athro Kenneth Muir, 2022. *Putting Learners at the Centre: Towards a Future Vision for Scottish Education*. https://www.gov.scot/publications/putting-learners-centre-towards-future-vision-scottish-education/

- Rhaid i'r rhaglen diwygio addysg yn yr Alban wella mynediad at addysg i'r grwpiau sy'n lleiaf tebygol o gyflawni.
- Dylai plant gael eu cefnogi i gyfranogi yn y Drafodaeth Genedlaethol ar addysg yn yr Alban, gan roi sylw arbennig i'r rheiny sy'n wynebu'r risg fwyaf na fydd eu hawl i addysg yn cael ei gwireddu'n llawn.
- Rhaid i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon gyflwyno cwricwlwm RSE gorfodol sy'n gynhwysfawr ac yn oed-briodol.
- Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar gydraddoldeb wrth werthuso gweithrediad diwygiadau addysg, gan asesu i ba raddau mae gwahanol grwpiau o blant yn elwa o'r dull newydd o ymdrin â'r cwricwlwm, gan gynnwys plant â nodweddion gwarchodedig ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.

## 23. Hawl i chwarae a gweithgareddau adloniadol

Ar draws y tair awdurdodaeth, mae plant yn wynebu rhwystrau i wireddu eu hawl i chwarae, adloniant a hamdden. Mae'r rhain yn cynnwys rhwystrau ariannol, gan fod rhaid talu am lawer o weithgareddau a drefnir[245]. Mae plant mewn ardaloedd gwledig (ac yn yr Alban, cymunedau'r Ynysoedd) ac ardaloedd trefol llai cefnog yn llai tebygol o fod ag ystod eang o weithgareddau'n lleol.[246] Mae effaith anghymesur hefyd ar y plant hyn o ran argaeledd trafnidiaeth, gan gynnwys ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol, lle mae cost trafnidiaeth gyhoeddus[247] hefyd yn ffactor.

Rhaid i'r llywodraeth ddatganoledig a llywodraeth leol sicrhau bod yr adnoddau'n ddigonol i ddarparu mannau lleol, diogel, o safon uchel i bob plentyn chwarae a chael ymarfer corff ynddynt, a rhaid i blant fod yn rhan o'r prosesau cynllunio sy'n effeithio ar eu hamgylchedd lleol.[248] Ac eto mae plant yn adrodd mai parciau a

---

[245] CPC, 2018. Erthygl 31: Adroddiad Sbotolau. https://www.childcomwales.org.uk/publications/article-31-spotlight-report/ Mewn rhai achosion mae hyn yn cynnwys gweithgareddau a drefnir gan ysgolion https://www.healthscotland.scot/media/2937/cost-of-the-school-day-evaluation-briefing-for-local-authorities.pdf

[246] Young Scot and Scottish Land Commission, 2019. *Young People and Their Local Urban Areas.* https://www.landcommission.gov.scot/downloads/5dd7d54fb8b87_Young-Scot-SLC-Report-Aug-2019-REDUCED.pdf

[247] Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, mae gan bob plentyn a pherson ifanc o dan 22 oed hawl i deithio am ddim ar y bws.

[248] Llywodraeth Cymru, 2019. *Strategaeth Pwysau Iach (Pwysau Iach, Cymru Iach).* https://gov.wales/healthy-weight-strategy-healthy-weight-healthy-wales

mannau sydd heb fod mewn cyflwr da yw un o'r prif resymau pam nad ydynt yn chwarae mewn modd heb ei strwythuro yn yr awyr agored.[249]

Mae rhwystrau tebyg yn bodoli o ran mynediad at weithgareddau diwylliannol ac artistig. Mae'r ddarpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus wedi lleihau'n sylweddol ers 2010,[250] ac mae mynediad at raglenni diwylliannol wedi cael ei ostwng, gydag effaith anghymesur ar blant o gymunedau difreintiedig a phlant ag anabledd.

Cafodd yr ymateb i bandemig COVID-19 effaith ddifrifol ar gyfleoedd plant i chwarae a hamddena, a'u rhyngweithio cymdeithasol. Yn ystod y cyfnodau clo roedd plant yn methu cwrdd â'i gilydd, ac ar adegau cyfle cyfyngedig yn unig oedd ganddynt i symud tu allan i gartref y teulu. Cyfyngodd hyn yn ddifrifol ar eu rhyddid i chwarae, ymarfer corff a chymdeithasu, ac roedd yn effeithio'n arbennig ar blant oedd yn byw mewn amodau cyfyng neu heb le yn yr awyr agored. Cafodd diffyg mynediad at safleoedd ysgolion ac awdurdodau lleol yn ystod COVID-19 effaith sylweddol ar allu'r gwaith ieuenctid a'r sefydliad gwirfoddol i gyflwyno gwasanaethau yn ystod y pandemig.[251]

Yn dilyn cyfnodau clo COVID-19, cynigiodd llywodraethau yn **yr Alban** a **Chymru** ystod o gyfleoedd hygyrch di-dâl ar gyfer chwarae, chwaraeon, y celfyddydau a gweithgareddau eraill awyr agored, ond amlygodd gwerthusiadau dilynol fod diffyg darpariaeth i blant ag anabledd, i'r rhai ag anghenion cefnogi eraill, ac yng Nghymru, darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.[252] Canfu arolygon yng Nghymru, yn ystod cyfnod clo Ionawr 2021, fod plant o leiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o ddweud eu bod yn chwarae tu allan, ac yn fwy tebygol o ddweud bod cau llyfrgelloedd yn effeithio ar eu dysgu.[253] Cafodd diffyg mynediad at safleoedd ysgol ac awdurdod lleol

---

249 Senedd y Plant, 2019. Schools on the Move: A Report for the MRC/CSO Social and Public Health Sciences Unit on the Physical and Social Barriers to Children's Engagement in Physical Activity. https://www.childrensparliament.org.uk/wp-content/uploads/Children_Create2019-1.pdf

250 Chartered Institute of Public Finance and Accountancy (CIPFA), 2022. *CIPFA comment: UK library income drops by almost £20m.* https://www.cipfa.org/about-cipfa/press-office/latest-press-releases/cipfa-comment-uk-library-income-drops-by-almost-20m

251 YouthLink Scotland, 2020. *Youth work needs a home.* https://www.youthlinkscotland.org/news/news-archive/september-2020/youth-work-needs-a-home/

252 Llywodraeth Cymru, 2021. *Gwerthuso'r haf o hwyl.* https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2021-12/summer-of-fun-evaluation_0.pdf

253 CPC, 2021. *Coronafeirws a Fi*. https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/CoronavirusAndMe_Jan21_ENG_110221_FINAL.pdf

yn ystod COVID-19 effaith sylweddol ar allu gwaith ieuenctid a sefydliadau gwirfoddol i gyflwyno gwasanaethau yn ystod y pandemig.[254]

**Argymhellion:**

- Dylai pob llywodraeth weithredu i wella cyfleoedd hamdden a chwarae i blant, gan roi sylw arbennig i anghenion plant mewn cymunedau gwledig ac ar ynysoedd, mewn ardaloedd difreintiedig, a phlant ag anabledd.
- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi awdurdodau lleol i ddarparu rhaglenni Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles, ond rhaid iddyn nhw sicrhau bod y cynnig yn gynhwysol.

## I. Mesurau amddiffyniad arbennig (erthyglau 22, 30, 32–33, 35–36, 37 (b)–(d) a 38–40)

## 24. Plant sy'n ceisio lloches, sy'n ffoaduriaid ac sy'n ymfudwyr

### Mynediad at lwybrau diogel a chyfreithlon i hawlio lloches

Oherwydd bod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr UE, cafodd llwybrau a fu gynt ar gael i blant wneud cais diogel a chyfreithlon am loches yn y Deyrnas Unedig eu cau.[255] Mae'r llwybrau sydd ar ôl yn gyfyngol dros ben ac yn anodd eu dilyn, yn arbennig i blant heb eu hebrwng. Cyfyngwyd ymhellach ar hyn gan y Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau a greodd system ddwy haen, i bob pwrpas, ar gyfer ffoaduriaid. Gelwir ffoaduriaid sy'n teithio i'r Deyrnas Unedig trwy drydedd gwlad ar hyd llwybrau afreolaidd (croesi'r Sianel, er enghraifft) yn 'Ffoaduriaid Grŵp 2', ac mae ganddynt bellach hawliau cyfyngedig i ddod â'r teulu yn ôl at ei gilydd, sydd yn cyfyngu ymhellach ar y llwybrau diogel i blant wneud cais am loches yn y Deyrnas Unedig.[256] Rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig sicrhau bod llwybrau diogel, cyfreithlon i blant gyflwyno cais am loches yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae rhethreg ddiweddar Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn awgrymu y bydd y bwriad i ddiwygio'r system loches yn cyfyngu ymhellach ar y llwybrau cyfreithlon i geiswyr lloches.[257]

---

[254] Youthlink Scotland, 2020. *Youth work needs a home.* https://www.youthlinkscotland.org/news/news-archive/september-2020/youth-work-needs-a-home/

[255] Yn arbennig, diwedd y cynllun Dubs a'r ffaith nad yw rheoliad Dublin III bellach yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig.

[256] Refugee Council, 2022. *Differential treatment (Clause 11).* https://www.refugeecouncil.org.uk/information/refugee-asylum-facts/differential-treatment-clause-11/

[257] UK Parliament Hansard, 2022. *Western Jet Foil and Manston Asylum Processing Centres, Volume 721: trafodaeth ddydd Llun 31 Hydref 2022.* https://hansard.parliament.uk/commons/2022-10-

**Argymhellion**

- Dylai fod gan blant lwybrau diogel a chyfreithlon i wneud cais am loches yn y Deyrnas Unedig.

- Dylid cefnu ar bolisi'r 'amgylchedd gelyniaethus' a diddymu Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022.

**Asesiadau Oedran**

Cyflwynodd Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 hefyd ddarpariaethau newydd ar asesiadau oedran, gan gyfeirio at y defnydd o 'ddulliau gwyddonol' fel dull arferol o asesu. Nid oes dulliau gwyddonol di-ffael a brofwyd ar gyfer asesu oedran, ac mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau eang i'r Ysgrifennydd Cartref benderfynu ar y dulliau hyn. Mae'r Comisiynwyr yn pryderu bod plant agored i niwed yn gorfod wynebu archwiliadau corfforol neu feddygol ymwthiol neu ormodol o ganlyniad i'r Ddeddf, [258] yn enwedig gan fod peidio â chydymffurfio â'r asesiad i'w weld yn rhywbeth sy'n niweidio hygrededd y sawl sy'n ceisio lloches.

**Argymhelliad**

- Ni ddylai plant fod yn destun asesiadau oedran sy'n cynnwys archwiliadau ymwthiol neu ormodol, neu sydd yn methu â chydymffurfio mewn modd arall â'r model a sefydlwyd gan R v Merton.

**Cefnogaeth i blant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches**

Mae plant a theuluoedd sy'n destun rheolaeth fewnfudo neu sydd â statws mewnfudo ansicr yn wynebu ystod gymhleth o weithdrefnau sy'n gofyn bod y Deyrnas Unedig a'r asiantaethau datganoledig yn gweithio'n effeithiol ar draws eu cylchoedd gorchwyl eu hunain. Mae pryderon ynghylch mynediad gwahanol at wasanaethau a mesurau cefnogi yn dibynnu ar lwybr ceisiwr lloches i mewn i'r Deyrnas Unedig wedi dwysáu yn sgîl creu system ddwy haen gan Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022.

Mae llawer o deuluoedd sy'n destun mesurau rheoli mewnfudo yn Methu Troi at Gyllid Cyhoeddus ('NRPF'), sy'n golygu eu bod heb fynediad at y rhan fwyaf o fudd-

---

31/debates/F189CA88-FDF3-4018-905C-1CC8A1B76E28/WesternJetFoilAndManstonAsylumProcessingCentres

[258] The Children's Commissioners of Scotland, Wales and Northern Ireland, 2021. *Consultation Response: Home Office Immigration Plan.* https://www.cypcs.org.uk/wpcypcs/wp-content/uploads/2021/05/Home-Office-Immigration-Plan.pdf

daliadau. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar blant gan fod y rhieni'n cael trafferth talu am gartref, bwyd a hanfodion eraill. Er y dylai awdurdodau lleol ddarparu cefnogaeth i bob plentyn mewn angen, beth bynnag yw eu statws mewnfudo, mae sut gweithredir hynny'n amrywio.[259] Mae'r defnydd o lety wrth gefn, yn arbennig gwestai, ar gyfer plant heb eu hebrwng yn ogystal â phlant sy'n cyrraedd gyda'u teulu, bellach wedi cyrraedd lefel nas gwelwyd o'r blaen.[260]

Mae plant sy'n destun mesurau rheoli mewnfudo hefyd yn wynebu heriau o ran cael mynediad at wasanaethau iechyd a lleoedd ysgol.[261]

Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae'r diffyg gwelededd a llwybrau clir at gefnogaeth statudol i'r plant a'r teuluoedd hynny sy'n NRPF yn destun pryder arbennig.[262] Mae mentrau i gefnogi plant a wahanwyd, gan gynnwys darpariaeth gwarcheidiaeth annibynnol, i'w croesawu.[263] Fodd bynnag, mae'r oedi wrth sefydlu model gwasanaeth rhanbarthol ar gyfer plant a wahanwyd yn destun pryder mawr. Rhaid i'r Weithrediaeth sicrhau bod model y ddarpariaeth gwasanaeth yn gadarn ac yn ymateb i niferoedd cynyddol yn cyrraedd, gan sefydlu canllawiau asesu oedran rhanbarthol, sy'n cydymffurfio â hawliau plant.

---

[259] Gweler er enghraifft: *Children (Scotland) Act 1995,* s22. https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/36/contents ; CYPCS, 2019. *Legal Brief: No Recourse to Public Funds - A Children's Human Rights Issue.* https://cypcs.org.uk/resources/legal-brief-no-recourse-public-funds/ ; O'Hara L. ac Orr K., 2021. *A Hostile Environment: families affected by immigration status and No Recourse to Public Funds*. www.niccy.org/media/3953/niccy-nrpf-paper-final-7-october-2021.pdf

[260] Gweler er enghraifft: Law Centre NI, 2022. Law Centre submission to the Advisory Committee to the *Framework Convention for the Protection of National Minorities.* https://www.lawcentreni.org/wp-content/uploads/2022/08/LCNI-submission-to-FCNM-May-2022-Final.pdf ; Scottish Refugee Council, 2021. *Submission by Scottish Refugee Council, in response to the Call for Evidence in the Inspection by the Independent Chief Inspector of Borders and Immigration, into the Home Office's use of hotels and barracks as contingency asylum accommodation.* https://www.scottishrefugeecouncil.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/Submission-by-Scottish-Refugee-Council-to-ICIBI-inspection-into-Home-office-contingency-asylum-accommodation-February-2021.pdf

[261] Gweler er enghraifft: UNICEF, 2018. Education for refugee and asylum seeking children: *Access and equality in England, Scotland and Wales.* https://www.unicef.org.uk/publications/access-to-education-refugee-asylum-seeking-children/ ; Royal College of Paediatrics and Child Health, 2021. *Access to healthcare for migrant and undocumented children - position statement.* https://www.rcpch.ac.uk/resources/access-healthcare-migrant-undocumented-children-position-statement

[262] O'Hara L. ac Orr K., 2021. *A Hostile Environment: families affected by immigration status and No Recourse to Public Funds*. www.niccy.org/media/3953/niccy-nrpf-paper-final-7-october-2021.pdf

[263] Dechrau Adran 21 o'r Human Trafficking and Exploitation (Criminal Justice and Support for Victims) Act (Northern Ireland) 2015 yn 2018. https://www.legislation.gov.uk/nia/2015/2/enacted

Yng **Nghymru**, mae prinder gwybodaeth am blant mudol, plant sy'n ffoaduriaid a phlant sy'n ceisio lloches. Rhaid i'r llywodraeth ddeall yn well effaith profiadau andwyol yn ystod plentyndod ar y plant hyn[264] er mwyn sicrhau'r ffocws gorau i gefnogaeth ac adnoddau. Rydym yn croesawu Darpariaeth Iechyd a Llesiant 2018 ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches. Dylai'r llywodraeth fwyafu'r gefnogaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwasanaethau ymyrraeth gynnar, addysg, a chefnogaeth iechyd meddwl.[265]

Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru uchelgais i wneud Cymru'n 'Genedl Noddfa', gyda chynllun pum mlynedd yn cyflwyno camau gweithredu trwy amrywiol asiantaethau a luniwyd i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches,[266] gan gynnwys trwy gael mynediad at lety, cyflogaeth a gofal iechyd. Fodd bynnag, nid yw'r system loches wedi'i datganoli i Gymru, ac mae llawer o'r heriau mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn eu hwynebu yn digwydd o ganlyniad i ddiffyg cefnogaeth a chydymdeimlad wrth iddynt gyrraedd y Deyrnas Unedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi Ffoaduriaid o Wcráin trwy ystod eang o wasanaethau cefnogi, yn arbennig y Canolfannau Croesawu[267] a sefydlwyd mewn ymateb i anghenion ailsefydlu. Cyhoeddwyd canllawiau penodol ynghylch diogelu a chaethwasiaeth[268] ond rhaid i ddiogelu plant barhau'n flaenoriaeth, gydag ystyriaeth barhaus. Wrth i gefnogaeth tymor hwy gael ei threfnu y tu hwnt i'r Canolfannau Croesawu, rhaid i Lywodraeth Cymru geisio sicrhau bod prosesau ar waith i blant aros mewn cysylltiad ag awdurdodau perthnasol megis iechyd ac addysg.

Yn **yr Alban**, canfu CYPCS fod uned mamau a babanod yn Glasgow yn annigonol i ddiwallu anghenion y trigolion. Nid oedd gan famau le i fwydo'n babanod na gadael

---

[264] Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020, *Adverse Childhood Experiences in Child Refugee and Asylum Seeking Populations.* https://www.wmsmp.org.uk/wp-content/uploads/ACEs-in-Child-Refugee-and-Asylum-Seekers-Report-English-final.pdf

[265] Llywodraeth Cymru, 2018. *Canllawiau Gweithredu Polisi: Darpariaeth Iechyd a Llesiant ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.* https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/health-and-wellbeing-provision-for-refugees-and-asylum-seekers_0.pdf

[266] Llywodraeth Cymru, 2022. *Cynllun ffoaduriaid a cheiswyr lloches (cenedl noddfa).* https://gov.wales/refugee-and-asylum-seeker-plan-nation-sanctuary

[267] Llywodraeth Cymru, 2022. *Cartrefi i Wcráin: canllawiau i awdurdodau lleol.* https://gov.wales/homes-ukraine-guidance-local-authorities

[268] Llywodraeth Cymru, 2022. *Cartrefi i Wcráin: canllawiau ar ddiogelu a chaethwasiaeth fodern.* https://gov.wales/homes-ukraine-safeguarding-and-modern-slavery-guidance

iddyn nhw chwarae'n ddiogel, ac roedd eu mynediad at gyfleusterau golchi a choginio yn gyfyngedig.[269]

Ar y cychwyn bu Llywodraeth yr Alban yn gweithredu cynllun "noddwyr gwych" ar gyfer Ffoaduriaid o Wcráin, ond cafodd y cynllun hwnnw ei atal dros dro ym mis Gorffennaf 2022, ac nid yw wedi ailgychwyn. Datblygwyd canllawiau cynhwysfawr ar gyfer awdurdodau lleol ar ddiogelu, gan gynnwys paru a gwiriadau lletywyr gwirfoddol.[270] Mae llawer o deuluoedd yn dal mewn llety dros dro, gan gynnwys dwy long a ddefnyddiwyd gynt ar gyfer mordeithiau,[271] ac mae angen darparu llety tymor hwy, mwy priodol ar frys.

**Argymhellion**

- Dylai'r gweinyddiaethau datganoledig liniaru effaith yr amgylchedd gelyniaethus ar blant sy'n ceisio lloches a phlant sy'n ffoaduriaid.
- Ni ddylai plant a'u teuluoedd fod yn destun statws Methu Troi at Gyllid Cyhoeddus (NRPF).
- Ni ddylid gwahaniaethu yn erbyn plant a theuluoedd sy'n destun mesurau rheoli mewnfudo yng nghyswllt mynediad at wasanaethau, gan gynnwys tai addas, gofal iechyd, addysg a chyflogaeth.
- Dylid darparu tai addas, hir dymor ar gyfer plant a'u teuluoedd sy'n ceisio lloches, sy'n ffoaduriaid, neu sydd â hawl dros dro i aros ar sail ddyngarol, a dylai'r tai hynny ddiwallu eu hanghenion a'u helpu i integreiddio i gymunedau.
- Dylai plant a theuluoedd sy'n ceisio lloches, sy'n ffoaduriaid, neu sydd â hawl dros dro i aros ar sail ddyngarol, gael mynediad at gefnogaeth ymarferol, emosiynol a meddygol addas.
- Ni ddylid rhoi plant heb eu hebrwng sy'n ceisio lloches mewn gwesty ar unrhyw adeg ac eithrio am gyfnod byr mewn argyfwng.

---

[269] CYPCS, 2022. *Accommodation of Asylum-Seeking Mothers and Babies in Glasgow.* https://www.cypcs.org.uk/wpcypcs/wp-content/uploads/2022/03/Mother-and-Baby-Unit-Report.pdf

[270] Llywodraeth yr Alban, 2022. *People arriving from Ukraine - risk and need: public protection guidance*. https://www.gov.scot/publications/people-arriving-from-ukraine-risk-and-need-public-protection-guidance/

[271] Llywodraeth yr Alban, 2022. *Second charter ship for Ukrainians*. https://www.gov.scot/news/second-charter-ship-for-ukrainians/

## 25. Gweinyddu cyfiawnder plant

### Oed isaf cyfrifoldeb troseddol (MACR)

Mae oed isaf cyfrifoldeb troseddol (MACR) yn dal yn isel iawn ar draws **y Deyrnas Unedig**, er gwaethaf argymhellion y Pwyllgor a Sylw Cyffredinol Rhif 24.[272]

Yng **Ngogledd Iwerddon** a **Chymru** 10 oed yw'r MACR o hyd. Er bod cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru yn rhoi blaenoriaeth i gefnogaeth a dargyfeirio, nid oes amddiffyniad ffurfiol yn y system gyfreithiol ar gyfer y dull gweithredu hwn, ac mae modd erlyn plentyn 10 oed. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi archwilio peth gwaith rhychwantu cychwynnol i geisio datganoli Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru. Roedd hyn yn un o argymhellion Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru.[273]

Mae ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei lansio yng **Ngogledd Iwerddon** mewn perthynas â chodi'r MACR i 14, er bod opsiwn wedi'i gynnig i'w gadw'n 10 oed yn achos 'troseddau difrifol'.[274] Er bod yr ymgynghoriad i'w groesawu, mae'n annhebygol y bydd consensws gwleidyddol, ac fel mae pethau'n sefyll, mae'r diffyg Gweinidog na Gweithrediaeth ar hyn o bryd yn golygu nad oes modd symud ymlaen gyda hyn.

Yn **yr Alban**, mae'r MACR bellach wedi cael ei godi i 12,[275] ond mae'n dal yn is na'r oed isaf sy'n dderbyniol yn rhyngwladol, sef 14. Mae plant yn dal i gael eu herlyn

---

[272] Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, 2016. *Concluding Observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland*. https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%2fC%2fGBR%2fCO%2f5&Lang=en para. 79; *Committee on the Rights of the Child, 2019. General comment No. 24 (2019) on children's rights in the child justice system.* https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%2fC%2fGC%2f24&Lang=en

[273] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, Hydref 2019. *Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru*. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/Justice%20Commission%20ENG%20DIGITAL_2.pdf

[274] Department of Justice, 2022. *Consultation on increasing the Minimum age of Criminal Responsibility in NI*. https://www.justice-ni.gov.uk/consultations/consultation-increasing-minimum-age-criminal-responsibility-ni ; United Nations (2019) – UN Committee on the Rights of the Child: General comment No. 24 (2019) on children's rights in the child justice system - CRC/C/GC/24. https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%2fC%2fGC%2f24&Lang=en

[275] Age of Criminal Responsibility (Scotland) Act 2019. https://www.legislation.gov.uk/asp/2019/7/contents/enacted

mewn llysoedd oedolion, ac yn arbennig nid oes modd cyfeirio pawb 16 ac 17 oed sy'n gwrthdaro â'r gyfraith i Wrandawiad Plant.

**Argymhelliad**

- Rhaid codi'r MACR i 16 ym **mhob awdurdodaeth**.

**Amddifadu o ryddid**

Caiff plant eu hamddifadu o'u rhyddid mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys cartrefi plant diogel, unedau iechyd meddwl a chanolfannau cadw ar gyfer mewnfudwyr, yn ogystal â charcharau, sy'n cynnwys Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOI). Mae'r adran hon yn ymdrin yn bennaf â hawliau plant sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid o ganlyniad i fod mewn gwrthdaro â'r gyfraith.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, yn 2021/22 cafodd cyfanswm o 160 o blant eu cadw yn Woodlands Juvenile Justice Centre (JJC), y ganolfan sy'n ddalfa i blant yng Ngogledd Iwerddon. O'r rhai yn y ddalfa, mae gorgynrychiolaeth anghymesur yn parhau ymhlith gwrywod (84%), plant sy'n derbyn gofal (34%) a'r rhai sy'n dweud eu bod o gefndir Catholig (52%).[276] Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd yr Adran Gyfiawnder Fframwaith Strategol ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, sy'n cynorthwyo trwy bennu cyfeiriad strategol ar gyfer y system, ac yn benodol ar gyfer yr Asiantaeth Cyfiawnder Ieuenctid.[277] Nid mesur sy'n cael ei ddefnyddio pan fo popeth arall wedi methu yw'r ddalfa yng Ngogledd Iwerddon. Yn 2021-22, roedd 11% o'r bobl ifanc yn y JJC wedi'u dedfrydu, ac roedd yr 89% arall naill ai o dan y *Police and Crime Evidence (Northern Ireland) Order* neu ar remand.[278]

Dim ond dau leoliad diogel sydd gan **Gymru** fel dalfa, Uned YOI fechan a Chartref Plant Diogel, sydd fel ei gilydd yn Ne Cymru. Mae'r ddau leoliad yn ymroddedig i gyflwyno dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant er mwyn cefnogi'r plant agored i

---

[276] Department of Justice, 2022. *Youth Justice Agency Annual Workload Statistics*. https://www.justice-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/justice/youth%20justice%20agency%20workload%20stats%20bulletin%202021-22.pdf

[277]Department of Justice, 2022. *Strategic Framework for Youth Justice*. https://www.justice-ni.gov.uk/publications/strategic-framework-youth-justice https://www.justice-ni.gov.uk/publications/strategic-framework-youth-justice

[278] Department of Justice, 2022. *Youth Justice Agency Annual Workload Statistics*. https://www.justice-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/justice/youth%20justice%20agency%20workload%20stats%20bulletin%202021-22.pdf

niwed yn eu lleoliadau. Fodd bynnag, mae angen gwaith i foderneiddio'r lleoliadau, fel eu bod mewn sefyllfa well i gyflwyno cefnogaeth therapiwtig i blant.

Mae angen mwy o ddarpariaeth addas yng Nghymru. Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid[279] wedi cyflwyno cynigion ar gyfer datblygu Peilot Cartref Bach, a chroesawir hynny. Fodd bynnag, mae pryder yn parhau ynghylch y diffyg llety PACE/Remand i blant. Mae'r ddarpariaeth i ferched yng Nghymru hefyd yn gyfyngedig iawn.

Dylid datganoli Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru i'w alinio â'r gwasanaethau iechyd, cymdeithasol ac addysg sy'n cefnogi plant yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae Cymru wrthi'n rhoi cynlluniau ar waith i ddiwygio a moderneiddio'r dull o ymdrin â'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, trwy gyflwyno'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid. Byddai'r Glasbrint yn elwa o adroddiadau diweddaru rheolaidd i rannu gwybodaeth am ei effaith a'i weithrediad, megis sut mae'n gweithio i leihau gorgynrychiolaeth plant o gefndir ethnig lleiafrifol, rhai sydd â phrofiad o ofal, a rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Yn **yr Alban**, caiff plant eu hamddifadu o'u rhyddid mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (Polmont YOI yn bennaf), a dalfeydd yr heddlu a'r llysoedd, yn ogystal ag mewn pum cartref plant sy'n darparu gofal diogel, pedwar ohonynt yng ngofal darparwyr nid-er-elw, ac un gan awdurdod lleol.[280] Gall plant o dan 16 gael eu hamddifadu o'u rhyddid ar sail gofal ac amddiffyniad, yn ogystal ag ymddygiad. Defnyddir arferion cyfyngol, gan gynnwys ataliaeth, chwilio anghyfreithlon a chwilio noeth, ynysu, ac ataliaeth gemegol ar blant mewn lleoliadau cosbol, addysgol, gofal preswyl a rhai sefydliadol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i bobl ifanc 16 ac 17 oed mewn lleoliadau oedolion. Mae nifer y rhai sy'n 16 ac yn 17 oed mewn YOIs wedi bod yn gostwng yn gyson, gyda chyfartaledd o 7 yn ystod y 3 mis diwethaf, ond nid yw dau o bob tri o'r plant hyn wedi cael treial.[281] Yn 2019, amlygodd HM Inspectorate of Prisons Scotland bryderon sylweddol ynghylch y ddarpariaeth iechyd meddwl yn Polmont YOI[282].

---

[279] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019. *Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru*. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/youth-justice-blueprint_0.pdf

[280] DS: Mae cadw mewnfudwyr yn yr Alban yn fater a neilltuwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

[281] Scottish Prison Service, 2022. *SPS Prison Population.* https://www.sps.gov.uk/Corporate/Information/SPSPopulation.aspx

[282] HM Inspectorate of Prisons for Scotland, 2019. *Report on an Expert Review of the Provision of Mental Health Services, for Young People Entering and in Custody at HMP YOI Polmont*. https://www.prisonsinspectoratescotland.gov.uk/sites/default/files/publication_files/Report%20on%20Expert%20Review%20of%20Provision%20of%20Mental%20Health%20Services%20at%20HMP%20YOI%20Polmont%20-%20Final%20Version.pdf

Mae CYPCS yn dal i bryderu am blant o'r tu allan i'r Alban yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn cartrefi plant yn yr Alban, yn bennaf oherwydd y prinder llety diogel priodol yn Lloegr (fel yr amlygwyd yn nyfarniad Re:T).[283] Mewn achosion eraill, mae plant o'r tu allan i'r Alban wedi cael eu gosod mewn cartrefi plant sydd heb eu cofrestru na'u rheoleiddio, heb yn wybod i wasanaethau lleol megis iechyd ac addysg. Gan fod system gyfreithiol yr Alban ar wahân, nid yw'r plant hyn yn derbyn yr un amddiffyniad cyfreithiol â phlant sy'n byw yn yr Alban. Nid yw CYPCS yn credu bod y 'datrysiad' rheoliadol presennol ar gyfer y lleoliadau hyn yn amddiffyn hawliau'r plant hyn yn ddigonol, ac yn arbennig, mae'n caniatáu i leoliadau ddatblygu'n rhai tymor hir yn hytrach na thros dro.[284]

**Argymhellion**

- Dylai plant gael eu rhoi mewn gofal mewn awdurdodaeth wahanol dim ond pan fydd arwyddion clir bod hynny er eu lles pennaf, er enghraifft oherwydd cysylltiad agos â'r awdurdodaeth honno.
- Dylid defnyddio amddifadu o ryddid dim ond pan fo popeth arall wedi methu, ac am y cyfnod byrraf posibl.
- Rhaid i'r System Cyfiawnder Ieuenctid yng **Ngogledd Iwerddon** sicrhau bod plant yn cael eu dargyfeirio o'r system ffurfiol, a bod terfynau amser statudol o 120 diwrnod yn cael eu cyflwyno ar gyfer prosesu achosion llysoedd ieuenctid.

**Plismona (defnyddio gardiau poeri a stopio a chwilio)**

Yng **Nghymru** a Lloegr, mae Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu wedi cyhoeddi ei strategaeth ar gyfer Plismona Plant a Phobl Ifanc, sy'n datgan bod rhaid i bob swyddog roi sylw i CCUHP.[285]

Yng **Nghymru**, mae CPC wedi ceisio data gan Heddluoedd Cymru ynghylch eu defnydd o stopio a chwilio, chwilio noeth a gardiau poeri ar blant o dan 18 oed. Nid yw'r holl heddluoedd wedi rhannu data ar adeg ysgrifennu, ond mae CPC yn

---

[283] *Re T* [2021] UKSC 35. https://www.supremecourt.uk/cases/uksc-2019-0188.html

[284] CYPCS, 2022. *Cross Border Placements (Effect of Deprivation of Liberty Orders) (Scotland) Regulations 2022*. https://www.cypcs.org.uk/resources/the-cross-border-placements-effect-of-deprivation-of-liberty-orders-scotland-regulations-2022/

[285] National Police Chiefs' Council, 2015. Child Centred Policing: National Strategy for *the Policing of Children & Young People*. https://www.npcc.police.uk/documents/edhr/2015/CYP%20Strategy%202015%202017%20August%202015.pdf

ymwybodol bod rhai plant o dan 11 oed wedi cael eu chwilio'n noeth a defnyddio Taser arnynt. Mae hyn yn gwbl annerbyniol. Mae'n hanfodol bod yr Heddlu a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi sylw i'r canllawiau sy'n gysylltiedig â'r arfer hwn, er mwyn diogelu plant yn well.

Cadarnhaodd Heddlu'r **Alban** yn 2021 fod cyflau poeri wedi cael eu defnyddio 298 o weithiau ar blant rhwng Ionawr 2019 a Mehefin 2021. Yn yr un ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth, cadarnhawyd fod Taser wedi cael ei dynnu allan ym mhresenoldeb plentyn o dan 18 oed ar 13 o achlysuron rhwng 2018 a 2021, gan gynnwys mewn un achos ym mhresenoldeb dau blentyn o dan 14 oed.[286]

Cyflwynodd Heddlu'r **Alban** ganllawiau newydd ar y defnydd o bwerau stopio a chwilio mewn perthynas â phlant yn 2021, mewn ymateb i feirniadaeth gyson ar y nifer uchel o achosion o stopio a chwilio plant (rhai mor ifanc â 7 oed). Mae nifer y chwiliadau a gofnodwyd wedi gostwng o 5,841 yn 2019-20 i 3,850 yn 2021-22, ond plant sy'n cyfrif am un o bob wyth chwiliad.[287]

Bu gostyngiad cyffredinol yn y defnydd o stopio a chwilio yng **Ngogledd Iwerddon**, ond yno y ceir y niferoedd uchaf o hyd o ran cyfran o'r boblogaeth o gymharu â heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae data Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon yn dangos bod 2,477 (11% o'r cyfanswm) o bobl ifanc wedi cael eu stopio, eu chwilio neu eu holi yn 2021/22, yn bennaf o dan y *Police and Criminal Evidence (Northern Ireland) Order 1989* a'r *Misuse of Drugs Act 1971*.[288] Mae llawer o bobl ifanc yn dal i sôn am deimlo eu bod yn "cael eu targedu a'u herlid" trwy'r defnydd o bwerau stopio a chwilio'r Heddlu.[289] Mae gardiau poeri a chnoi yn ddull tactegol a ganiateir i'r heddlu yn achos plant o dan 18 oed. Er bod rhagdybiaeth na fyddant yn

---

[286] Police Scotland, 2021. *Freedom of Information Response: Armed policing - TASERS + Use of Spit Hoods - under 18s.* https://www.scotland.police.uk/access-to-information/freedom-of-information/disclosure-log/disclosure-log-2021/june/21-1201-armed-policing-tasers-use-of-spit-hoods-under-18s-17-td/

[287] Police Scotland, 2022. *Stop and Search Data Publication.* https://www.scotland.police.uk/about-us/how-we-do-it/stop-and-search/data-publication/

[288] Police Service of NI, 2022. *Stop and Search Statistics 2021-2022*. https://www.psni.police.uk/about-us/our-publications-and-reports/official-statistics/stop-and-search-statistics

[289] Carr, N., & McAlister, S., 2021. *Tracing the Review: Developments in Youth Justice in Northern Ireland 2011-2021*. https://pureadmin.qub.ac.uk/ws/portalfiles/portal/263877347/TRACING_THE_REVIEW_PDF.pdf

cael eu defnyddio ar neb o dan 18, rhwng 16 Mawrth 2020 a 15 Mehefin 2022, fe'u defnyddiwyd ar blant 16 o weithiau (6.4% o'r holl achosion o'u defnyddio).[290]

**Argymhellion**

- Dylai fod gofyn bod yr Heddlu'n dangos diben a chanlyniadau'r holl weithrediadau stopio a chwilio sy'n cynnwys plant.
- Dylai'r Heddlu wella safon yr ymgysylltu â phobl ifanc.
- Dylid cyhoeddi data cynhwysfawr ar y defnydd o chwilio noeth a gardiau poeri/cnoi; ac ar ddefnyddio Taser yn agos at blentyn.
- Rhaid peidio â defnyddio gardiau poeri a chnoi ar blant.
- Ni ddylid chwilio plant yn noeth.
- Lle caiff plant eu chwilio'n noeth, neu lle defnyddir gard poeri neu gnoi ar blant, rhaid cofnodi hynny a'i gyhoeddi ar ffurf data cynhwysfawr.

**Plant sy'n Ffynonellau Cudd-wybodaeth Dynol (CHIS)**

Mae deddfwriaeth nid yn unig yn darparu ar gyfer defnyddio plentyn fel CHIS ond hefyd yn cynnwys y posibilrwydd o'u hawdurdodi i gyflawni tramgwyddau troseddol. Mae'r Comisiynwyr yn pryderu, hyd yn oed o ystyried y cyfyngiadau yn y Côd Ymarfer[291], nad oes modd cydweddu hyn â hawliau plant.

**Argymhelliad**

- Ni ddylai plant byth gael eu defnyddio'n Ffynonellau Cudd-wybodaeth Dynol.

---

[290] Police Service of NI, 2022. *The Use of Spit & Bite Guards by the Police Service of Northern Ireland: Equality Impact Assessment 2021 – Final Report*. https://www.psni.police.uk/sites/default/files/2022-09/Spit%20and%20Bite%20Guards%20Equality%20Impact%20Assessment.pdf

[291] Llywodraeth y Deyrnas Unedig. 2021. *Covert human intelligence sources: draft code of practice*. https://www.gov.uk/government/publications/covert-human-intelligence-sources-draft-code-of-practice; Llywodraeth yr Alban, 2017. *Covert human intelligence sources: code of practice*. https://www.gov.scot/publications/covert-human-intelligence-sources-code-practice/

## J. Protocol Dewisol ar werthu plant, puteinio plant a phornograffi plant

Mae nifer y plant sy'n ddioddefwyr yn sgîl cael eu masnachu a atgyfeiriwyd at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) wedi cynyddu bron 327% ers 2016 ar draws y Deyrnas Unedig, gyda thueddiadau tebyg yn **yr Alban, Cymru** a **Gogledd Iwerddon**. Er ei fod yn debygol bod y cynnydd hwn yn gysylltiedig â lefel uwch o ymwybyddiaeth o'r NRM, roedd effaith pandemig COVID-19 ar atgyfeiriadau yn boenus o amlwg yn yr Alban, lle gostyngodd yr atgyfeiriadau 33% rhwng 2019 a 2021. Mae bron 80% o'r plant sy'n ddioddefwyr cael eu masnachu yng Nghymru yn ddinasyddion y Deyrnas Unedig. Nid yw hynny'n wir yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, lle mae cyfran dinasyddion y Deyrnas Unedig yn llawer is (tua 20% a 10% yn eu tro), a allai fod yn arwydd o fethiant i nodi'n gywir ddioddefwyr domestig masnachu pobl.[292]

Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi symud ymlaen gydag argymhellion i ddiwygio'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol er mwyn ei wreiddio mewn prosesau diogelu amlddisgyblaeth, sicrhau nad yw dioddefwyr yn cael eu troseddoli (yn arbennig yn achos ecsbloetio plant yn droseddol), a bod y rhai sy'n cyflawni hyn yn cael eu herlyn. Mae cynlluniau peilot lleol i wella'r broses asesu a gwneud penderfyniadau wedi digwydd ar draws y Deyrnas Unedig, ond nid ydynt wedi cael eu trosi'n newid cenedlaethol. Gall plant sydd wedi dioddef cael eu masnachu fod yn destun asesiad oed os nad oes ganddynt ddogfennau (gweler adran 24).

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr ecsbloetio plant yn rhywiol (CSE) yn amrywio ar draws **Cymru**. Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol i'w croesawu ar gyfer gweithwyr proffesiynol, er mwyn diogelu plant rhag cael eu hecsbloetio'n rhywiol.[293]

Yng **Ngogledd Iwerddon** mae pryder yn parhau nad yw'r llywodraeth wedi dangos bod argymhellion Ymchwiliad Annibynnol 2014 i CSE wedi cael eu gweithredu, na bod y canlyniadau wedi gwella o ran diogelu plant rhag CSE a mynd ar ôl y rhai sy'n ei gyflawni.

---

[292] Y Swyddfa Gartref, 2022. *Modern Slavery: National Referral Mechanism and Duty to Notify statistics UK, end of year summary, 2021.* https://www.gov.uk/government/statistics/modern-slavery-national-referral-mechanism-and-duty-to-notify-statistics-uk-end-of-year-summary-2021

[293] Llywodraeth Cymru, 2021. *Cydweithio i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 7: Diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol*. https://gov.wales/safeguarding-children-child-sexual-exploitation-0

Ar ben hynny, mae deddfwriaeth yng Ngogledd Iwerddon yn dal i fethu rhoi amddiffyniad llawn i bob plentyn hyd at 18 oed rhag troseddau a nodir yn y Protocol Dewisol ar werthu plant, puteinio plant a phornograffi plant.

Yn **yr Alban**, mae'r Canllawiau Cenedlaethol ar Amddiffyn Plant yn dal yn anstatudol eu natur, heb fframwaith cyfreithiol cynhwysfawr seiliedig ar hawliau yn sylfaen iddynt. Mae angen diwygio'r Canllawiau yng ngoleuni ymgorffori CCUHP. Nid ydynt yn adlewyrchu'n briodol ymatebion i risg niwed a achosir gan weithwyr proffesiynol (er enghraifft trwy ddefnyddio ataliaeth) na'r rhwymedigaethau sydd ar sefydliadau i sicrhau bod staff yn gallu rhoi gwybod am bryderon o'r fath yn gyfrinachol. Dylai Llywodraeth yr Alban ystyried hefyd a ddylid gwneud unrhyw agwedd arall ar y system amddiffyn plant yn statudol.

Mae bylchau yn amddiffyniadau cyfreithiol a pholisi'r Alban ar gyfer plant sydd wedi dioddef cael eu masnachu wedi arwain at gadw nifer o blant sy'n ddioddefwyr yn y carchar. Rhaid i Lywodraeth yr Alban fynd ati ar frys i adolygu a chryfhau'r amddiffyniadau hyn. Mae'r oedi aruthrol wrth brosesu atgyfeiriadau yn yr NRM (448 o ddiwrnodau ar gyfartaledd) yn cael effaith niweidiol ar hawliau plant i amddiffyniad ac adferiad, tra bod rhai plant heb eu hebrwng sy'n ceisio lloches, sydd wedi dioddef cael eu masnachu, yn cael eu lletya mewn gwestai gan awdurdodau lleol, lle gallant ddod i gysylltiad â chamddefnyddio cyffuriau, trais a'r perygl o gael eu hecsbloetio eto.

**Argymhellion**

- Dylid cydnabod profiadau plant sydd wedi dioddef cael eu masnachu a'u hecsbloetio'n rhywiol, rhoi cefnogaeth briodol iddynt, a sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu harestio, eu cyhuddo, eu cadw yn y ddalfa a'u herlyn.

- Dylid diwygio'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlathol i ddatblygu cydweithio amlasiantaeth, cryfhau'r amddiffyniadau i blant sydd wedi dioddef ecsbloetio, a chynyddu erlyniad cyflawnwyr. Dylid estyn cynlluniau peilot lleol llwyddiannus ar frys, i fynd i'r afael ag oedi gormodol ar hyn o bryd.

## K. Protocol Dewisol ar ymwneud plant â gwrthdaro arfog

### 26. Y Lluoedd Arfog a grwpiau arfog nad ydynt yn rhan o'r Wladwriaeth

Er gwaethaf argymhellion y Pwyllgor,[294] mae'r **Deyrnas Unedig** wedi cynyddu nifer y plant dros 16 oed sy'n ymrestru yn y Lluoedd Arfog yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda 2,800 o blant yn cael eu recriwtio yn 2021-22 yn unig.[295] Mae plant 16 ac 17 oed yn rheolaidd yn fwy na 20% o'r recriwtiaid newydd blynyddol[296] ac maent yn fwy tebygol o ddod o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, sy'n cael eu targedu'n benodol gan farchnata'r Fyddin, sy'n cynnwys gweithgareddau mewn ysgolion.[297]

Yng nghyd-destun y gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon a phresenoldeb parhaus grwpiau parafilwrol a throseddol mewn cymunedau, mae pobl ifanc yn dod i gysylltiad â bygythiadau i guro a saethu, ac ymosodiadau gwirioneddol (gan gynnwys ymosodiadau cyffredin ac ymosodiadau sy'n achosi niwed gwirioneddol a difrifol i'r corff). Maent hefyd yn wynebu bygythiadau i'w bywyd os nad ydynt yn gadael ardaloedd penodedig neu'n cydymffurfio â cheisiadau a nodwyd; maent yn cael eu hecsbloetio mewn perthynas â datblygu dyledion; yn cael eu hecsbloetio mewn gweithgareddau troseddol megis dosbarthu a chyflenwi cyffuriau; yn ymwneud â bygwth neu niweidio eraill; yn ymwneud â throseddau anhrefn cyhoeddus, protestiadau treisgar ac aflonyddwch sifil; a chael eu recriwtio i grwpiau parafilwrol neu droseddol. Mae ansefydlogrwydd diweddar ac ansicrwydd gwleidyddol parhaus yng Ngogledd Iwerddon wedi ychwanegu at yr angen am ymateb unedig gan y

---

[294] Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, 2016. *Concluding Observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland*. https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%2fC%2fGBR%2fCO%2f5&Lang=en paras 49, 85.

[295] Nifer y plant a recriwtiwyd i'r Lluoedd Arfog rhwng 2016-17 a 2018-19 oedd 2,400; cododd hyd i fwy na 3,100 rhwng 2019-20 a 2021-22. Y Weinyddiaeth Amddiffyn, 2022*. UK armed forces biannual diversity statistics: April 2022 dataset.* https://www.gov.uk/government/statistics/uk-armed-forces-biannual-diversity-statistics-april-2022

[296] Y Weinyddiaeth Amddiffyn, 2022. *UK armed forces biannual diversity statistics: April 2022 dataset.* https://www.gov.uk/government/statistics/uk-armed-forces-biannual-diversity-statistics-april-2022

[297] Child Rights International Network, 2019. *Conscription by Poverty? Deprivation and Army Recruitment in the UK*. https://static1.squarespace.com/static/5afadb22e17ba3eddf90c02f/t/5d5bbf83278b3100018306a4/1566293898095/UK_recruitment_report_final.pdf

llywodraeth i amddiffyn plant yn effeithiol rhag pob math o niwed a achosir gan grwpiau trefnedig o'r fath.[298]

**Argymhellion:**

- Ni ddylai plant o dan 18 oed gael eu recriwtio i'r Lluoedd Arfog.
- Dylai plant a phobl ifanc yng **Ngogledd Iwerddon** gael eu hamddiffyn yn llawn ac yn effeithiol rhag gorfodaeth droseddol ac ecsbloetio, trawma, trais neu gamdriniaeth yn eu cymunedau, gan gynnwys pob math o drais gan luoedd nad ydynt yn rhan o'r Wladwriaeth a chael eu recriwtio gan luoedd o'r fath.

---

[298] NICCY, 2021. *Safeguarding Children from Abuse and Exploitation*. https://www.niccy.org/publications/advice-to-government-child-criminal-exploitation-safeguarding-children-and-young-people-from-abuse-and-exploitation/

**Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon**
Twitter: @nichildcom
Gwefan: niccy.org

**Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Yr Alban**
Twitter: @cypcs
Gwefan: cypcs.org.uk

**Comisiynydd Plant Cymru**
Twitter: @childcomwales
Gwefan: childcomwales.org.uk

NICCY
PROMOTING THE RIGHTS OF CHILDREN & YOUNG PEOPLE

CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales